

This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + Refrain from automated querying Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at http://books.google.com/



DETHOLIAD, MAGWBAETH, A RHEOLAETH,

DA BYW

Mwyaf priodol i Dywysogaeth Cymru.

GAN JOHN OWEN.

Prix Sielli.

Byrdding.

wadre being have to Rest


horya

288

e. 244

.

RADGLIBRA SSIRWOR.



The Maerdy Rending Room and Library, Maerdy

Aear Pontypridd.

376



Selection, noveishment and management of the more usual cirestock in the principality of Wales DETHOLIAD,

MAGWRAETH, A RHEOLAETH

1

DA BYW

MWYAF PRIODOL I DYWYSOGAETH CYMRU.


GAN JOHN OWEN, TY'N LLWYN, BANGOR.

YNGHYD A

NODIADAU, GAN Y PARCH. GANGHELLWR WILLIAMS,
LLANFAIB-YN-NGHORNWY, MON.

DINBYCH:
ARGRAFFWYD GAN THOMAS GEE.
MD000LXX

1 1 SEP 1974



AT Y DARLLENYDD.

Ryw gymmaint o amser yn ol, cynnygiodd Pwyllgor Eisteddfod Conwy wobr am draethawd ar destyn lled debyg i hwn. Daeth dau i law: y naill o duedd gelfyddydol, a'r llall, gan yr ysgrifenydd, yn ymarferol. Rhanwyd y wobr rhyngddynt. Ar ol hyny, darfu i Bwyllgor Eisteddfod Aberystwyth gynnyg gwobr am draethawd ar y testyn; ond ni dderbyniwyd yr un cyfansoddiad a fernid yn deilwng. Adnewyddwyd y cynnygiad erbyn Eisteddfod Caerlleon: daeth pump o gyfansoddiadau i law, a dyfarnwyd y wobr i'r un a ganlyn.

Gan fod y testyn erbyn y ddwy eisteddfod wedi ei eirio mor debyg, nis gellid disgwyl i'r un syniadau beidio bod yn y ddau draethawd: ond ceir yr olaf yn helaethach. A chan fod y cyntaf wedi ei argraphu yn nghyhoeddiad yr Eisteddfod, bu y pwyllgor mor garedig a chaniatau i'r ysgrifenydd ddwyn allan argraphiad o hwn, gan ddis-

gwyl i hyny fod o les i amaethwyr Cymru.

Dymuna yr ysgrifenydd alw sylw y darllenydd amaethyddol at yr angenrheidrwydd sydd am i ni ymdrechu gwellau ein rhywogaeth o wartheg. Dyma brif ddiffyg amaethwyr Cymru: a dyma brif gangen ein hamaethyddiaeth. Y mae ychydig wedi ei wneyd tuag at hyn yn y blynyddoedd diweddaf: eithr nid ydyw ond ychydig iawn wrth yr hyn a ellir wneyd; ac nid oes un math o ymdrech o eiddo y ffermwr a dâl yn well am ymgymmeryd â hi.

Gyda golwg ar y nodiadau gan y Parch. Canghellwr Williams, rhaid y bydd i'r dyddordeb didor a gymmerodd yn ngwellhâd anifeiliaid, ac yn enwedig gwartheg Cymru, dros chwaneg na hanner can mlynedd, ynghyd â'i fanteision, oddi wrth ei safle uchel mewn cymdeithas, i edrych i mewn i'r pwngc, beri y cyfrifir hwy yn wir werthfawr, ac y cânt eu derbyn gyda diolchgarwch diffuant gan amaethwyr ein gwlad.

CYNNWYSIAD.

TUDAL.	. TUDAL.
Pwysigrwydd da byw i	Y Devon 30
Pwysigrwydd da byw i Gymru, a'u Triniaeth 5	Y Devon 30 Gwartheg Ysgotland 30
•	Y gwartheg i'w dewis, a'r
	modd i'w gwellhau 31
Y GWENYN.	
Y Cwch, a'i sefvllfa 7	Magwraeth a Rheolaeth
	Gwartheg.
	Ma Tlai
Eu heidio, &c 8	Magu Lloi 40
	Cadw Buchod 44
ADAR DOFION.	Y Fuches 46 Ffurf y rhywogaeth Gym-
ADAR DOFION.	Ffuri y rhywogaeth Gym-
Colomenod 8	reig 48 Gwahanol ganghenau o'r
Twrciod (Turkeys) 9	Gwahanol ganghenau o'r
Ieir Guinea (Guinea-hens) 11	rhywogaeth Gymreig 49
Ieir 12	
Hwyaid 13	DEFAID.
Gwyddau 14	-
Yr Adardy 15	Y defaid hir-wlan 51
11 Auaruy 10	Y Leicester 51
	Y Cotswold 51
MOCH.	Y Defaid byr-wlân 52
	Y Dorset 53
Y Berkshire 17	Y South-down 53
Y Berkshire 17 Y dull goreu o'u cadw 18	Y Shropshire Down 53
	Golwg gyffredinol 52
ORIENTAL ATT	Defaid Mynyddig 53
CEFFYLAU.	Y Cheviot a'r Black-face (Y
Ceffylau cerbydau 22	_ Wyneb-ddu) 55
Werlod 99	Y trefniadau goreu gyda
Merlod 22 Meithriniad ceffylau 23	Defaid 56
Ffurf y gwahanol fathau o	Defaid 56 Defaid yr isel-dir 56
geffylau 26	Magwraeth a rheolaeth Def-
genymu 20	aid mynyddig 58
GWARTHEG.	
G WALLEG.	GEIFR.
Eu detholiad 27	77
Y Gwartheg byr-gorn 28	Eu gwerth, a'r dull o'u cadw 59
Gwartheg Hereford 29	OLION 60

PWYSIGRWYDD DA BYW I GYMRU,

A'U

TRINIAETH.

Y mae Cymru, o ran ei sefyllfa naturiol, a'i chyssylltiadau masnachol, mewn modd arbenig yn wlad anifeiliaid, neu dda byw. Ail beth mewn gwerth a phwysigrwydd yw holl gynnyrchion ereill wyneb ei daear. Gwahaniaetha y naill ran o honi gryn lawer oddi wrth y llall yn yr hinsawdd, a natur y tir; ond nid yw y gwahaniaeth yn gymmaint fel ag i wneyd yr un o honynt yn ammbriodol i feithriniad anifeiliaid. Y mae ei bod yn wlad fynyddig, agos i'r môr, yn sicrhau iddi gyflawnder o wlaw. ac felly tyfiant gwastadol, a digonedd o ddwfr. Y mae y pethau hyn, sydd mor fanteisiol i anifeiliaid, yn anfanteisiol i godi ŷd. Bydd y draul o drin tir ochrog a mynyddig yn fwy na phe buasai yn wastattir; ac y mae llawer o wlaw yn rhwystr i addfediad yr ŷd, a chasgliad y cynhauaf. Ychydig iawn, hefyd, o bridd daear Cymru sydd yn briodol at dyfiant ŷd. 🛮 Cleidir trwm rhai o'r dyffrynoedd sydd oreu i hyn: yn enwedig sydd oreu i wenith a cheirch, ac y mae genym diroedd ysgeifn digon pwrpasol at haidd. Ond y ffordd i wneyd iddynt dalu oreu, yw peidio codi chwaneg o ŷd ynddynt nag a fydd yn angenrheidiol at gael digon o faip a gwellt at wasanaeth yr anifeiliaid. Dylem newid yn hyn yn debyg i'r modd y mae seryddwyr wedi newid. ant hwy yn hir yn gosod y ddaear yn ganolbwynt i'w cyfundrefn, a'r haul, a'r lleuad, a'r planedau i droi o'i chwmpas; ond daethant yn ddigon call i newid; sef, i osod yr haul yn ganol-Felly bu amaethwyr Cymru, er tua dechreuad rhyfel Ffrainge, a gosodiad treth drom ar ŷd tramor, yn amcanu yn benaf at godi ŷd. Yd ydoedd canolbwynt y gyfundrefn. Ond y mae yn llawn bryd newid. Bellach, ein callineb yw codi ond hyny o ŷd sydd eisieu er mwyn meithrin anifeiliaid, ac nid cadw hyny o anifeiliaid a fyddo yn oreu er mwyn tyfu ŷd. Y mae y berthynas newydd y dygwyd ni iddi â'r byd, ychydig flynyddoedd yn ol, trwy ryddhâd masnach, yn cynnwys un o'r rhesymau cryfaf dros i amaethwyr Cymru osod eu bryd ar feithrin ani-

Ar gyfandiroedd eang y dwyrain a'r gorllewin, y mae yr adnoddau priodol sydd i'w cael yn y tir, yn gystal a'r hinsawdd, at godi †d, yn rhagori yn mhell ar yr eiddom ni. Ac erbyn hyn, y mae y cludiad mor rwydd a rhad, trwy fod y llongau yn fwy, y môrdeithiau yn fyrach, a chyflawnder o nwyddau i'w hallforio o'r wlad hon, nes y mae yn anobeithiol i amaethwyr Cymru gystadlu ag amaethwyr tramor mewn ŷd. Ond heb law cymmhelliadau newyddion i beidio codi ŷd, y mae genym rai newyddion cryfion iawn o blaid meithriniad anifeiliaid. Y mae y gofyn arnynt yn cynnyddu, a'u gwerth yn chwanegu yn fawr. Ceir yn agos i gymmaint arall am gig, ymenyn, a gwlân, ag a geid ugain mlynedd yn ol. Ac y mae yr olwg ar y dyfodol yn cynnwys y tebygolrwydd cryfaf y bydd hyn yn beth parhaus. Felly, byddai yn resyn i amaethwyr Cymru gau eu llygaid rhag gweled, a'u calonau rhag teimlo, eu cyssylltiad â meithriniad da byw.

Y mae'n amlwg fod rhai rhanau o'n gwlad yn fwy manteisiol at y naill fath o anifeiliaid, a rhanau ereill at fathau ereill. Yn yr ardaloedd mwyaf mynyddig, rhaid ymddibynu yn benaf ar ddefaid; tra y mae ein rhanau hendrefol yn fwy pwrpasol at wartheg. Wrth gymmeryd un olwg ar Gymru, gellir dyweyd mai gwlad defaid a gwartheg ydyw yn fwyaf naturiol. Tueddir ambell ffermwr i ymddibynu cryn dipyn ar foch neu geffylau; ond yn y cyffredin, y mae yr hyn a wneir o honynt yn ychydig, yn gyferbyniol i ddefaid a gwartheg. Cyn methiant y pytatws, byddai ffermydd canolig a bychain yn dibynu am yr ardreth ar eu moch; ond mewn canlyniad i godiad prisiau yr ymenyn a'r gwartheg, y mae hyny yn llawer llai. Wrth edrych yn mlaen, nid ydyw moch mor debyg o ddal eu prisiau ag ydyw gwartheg a defaid; gan y gellir, wedi sefydlu heddwch a threfn yn America, ddwyn cyflawnder o gig moch i'r wlad hon, pan nad oes ganddynt yr un manteision gyda defaid a gwartheg.

Cyn myned at y dosbarthiadau o dda byw mwyaf pwysig i'r ffermwr Cymreig, cymmerir sylw o greaduriaid ereill, y rhai

na ddylid, y mae'n debyg, eu gadael heibio.

Y GWENYN.

Nı ddylai un teulu yn byw yn y wlad fod heb wenyn. Y mae mêl yn un o'r pethau mwyaf llesol fel meddyginiaeth rhag amryw anhwylderau. Dysg eu cadw, hefyd, ofal gyda phethau bychain, a thuedda i feithrin mewn teulu yr hunan-ddibyniad sydd mor bwysig at wneyd bywoliaeth. Nid oes yma ddim i'w wneyd gyda golwg ar ddewisiad rhywogaeth. Prynir haid o wenyn am tua 10s. Yr amser goreu i wneyd hyny yw Hydref neu Mai.

Y Cwch, a'i sefyllfa.—Bernir, wedi ymchwil manwl, mai y cwch cyffredin, a wneir o wellt, yw y goreu. Ceidw y gwres allan yn yr haf, a'r oerni yn y gauaf, yn well nag un math arall. Dylid gosod y cwch mewn lle â'i wyneb i'r deheu yn yr ardd; ond yn mhoethder yr haf, dylid ei gysgodi rhag y gwres. Y mae yn angenrheidiol fod dwfr yn agos, ac hefyd i gadw y lle o amgylch y cwch yn lân. Y mae y pryf copyn gyda'i wê yn elyn marwol i'r wenynen. Y llyffant du, hefyd, os caiff ei oddef i fyw yn agos i'r cwch, y mae yn barod i lyngcu y gwenyn llwythog ar eu gwaith yn disgyn ar y ddaear. Y mae amryw bryfaid ereill, hefyd, yn beryglus iddynt. Y cwch a gymmeradwyir fwyaf yw yr un o wellt o ran defnydd, tua phymtheg modfedd o ddyfnder, tair modfedd ar ddeg ar draws ei wyneb, a deuddeg modfedd yn ei waelod. Y mae cylch pren i fod o amgylch ei wyneb a'i ymyl uchaf, ychydig yn uwch nag ymyl y cwch. Y mae wyth o farau pren, wythfed ran o fodfedd o led, a hanner modfedd o ddyfnder, i'w rhoddi ar draws y cwch, â morteisiau yn y cylch i'w ddal yn ddiogel. Dylent gael eu rhoddi o ogledd i ddeheu. Dylai y ddau far nesaf i'r ochrau fod yn mhellach oddi wrthynt nag yw y barau oddi wrth eu gilydd. Gwna y gwenyn y diliau, y bydd y mêl ynddynt, ynglŷn wrth y bàrau hyn. Ond tuag at i'r diliau gael eu gweithio ar hyd y barau hyn, gwell, mewn cwch newydd, rhoddi darn o ddil ar ochr un o'r barau. Gwelwyd, rai gweithiau, y gwenyn yn adeiladu y diliau ar draws y barau; ond rhwystrid hyny trwy osod darn o ddil, fel y desgrifiwyd, ar hyd un o'r barau. Gellir ei sicrhau gyda fflam pen canwyll. Ceir mewn cwch o'r gwneuthuriad yma gyfle i weled pa fodd y mae y gwenyn yn gweithio. A pheth sydd fwy pwysig, trwy dynu un o'r barau ymaith, gellir cael mêl pan fyner, heb ddinystrio y gwenyn. Y mae cauad i fod ar y cwch, o'r un defnydd ag yntau. Weithiau, rhoddir cylch trwchus o bren am y cylch a enwyd, o amgylch geneu y cwch, a'r cauad i ddisgyn ar hwnw. Tua hanner uchder cwch cyffredin v dylai uchder v cauad fod.

Y MODD I'W BWYDO.—Nid ymddengys fod un ffordd well i fwydo gwenyn na rhoddi yr ymborth ar yr hyn y bydd y cwch yn gorwedd arno, mewn llestr bâs, megys saucer. Dylid ei wneyd

yn amryw raniadau, fel y caffo y gwenyn le i gilio o hono. Defnyddia rhai lestr tin, cyfled â gwyneb y cwch, â thwll tua maintioli cwpan dê yn ei ganol, yr hwn sydd i feddu ymyl tua modfedd o led o amgylch ei du uchaf. Sicrheir y llestr trwy roddi dau fâr dros wyneb y cwch oddi dano. Bydd y twll yn fynedfa i'r gwenyn o'r cwch at eu hymborth. Bwydir y gwenyn gan rai â mel, ereill â sugr rhad. Gwahanol brisiau y naill a'r llall ar y pryd a benderfyna pa un i'w gymmeryd. Gyda chwch o'r fath ag a ddisgrifiwyd, gellir cymmeryd, nid yn unig y gormodedd o'r mêl fydd gan y gwenyn at eu cynnal yn y gauaf, ond hyny a ddewiser yn chwaneg, ond iddynt gael eu bwydo.

EU HEIDIO, &c.—Dewisir, weithiau, roddi yn niwedd y flwyddyn ddwy haid wan i gyd-fyw yn yr un cwch. Os gwneir hyny, gwneler yn mis Hydref. Y ffordd fwyaf didrafferth ydyw cymmeryd coden euraid, neu fungus, a geir yn tyfu ar ein meusydd; ac os bydd wedi gwywo, neu wedi ei rhoddi mewn ffwrnes, neu bobty, i sychu, bydd yn barod. Gwasger ef, gan ei ddal oddi tan y cwch, nes i'r mŵg ymgymmysgu â'r gwenyn, yna ânt yn ddideimlad dros ysbaid o ugain munyd. Dewisa rhai i'r ddwy haid gael eu trin fel hyn nes iddynt syrthio o'r cwch ar gynfas fydd wedi ei thaenu danynt, yna pigo un o'r ddwy frenhines, a'i thaflu ymaith. Chwanegir, weithiau, daenellu yr heidiau â dwfr wedi cymmysgu mêl neu sugr ynddo, tuag at beri iddynt hoffi eu gilydd yn eu hundeb newydd.

Dibyna llwyddiant gwenyn yn fawr ar ba fath wlad y byddant ynddi. Yn y rhanau a dynir yn llwyr dan ddylanwad yr aradr, byddant dan gryn anfantais i gael cyflawnder o flodau; ond lle y mae rhanau helaeth o'r tir yn borfa a gwair, a mynydd-dir heb fod yn mhell, a lle hefyd y bydd llawer o erddi a pherllanau, bydd eu manteision yn fawr. Mewn rhai manau o Ysgotland, lle y mae y gwastattir oll yn cael ei droi bob pedair neu bum mlynedd, anfonir y gwenyn i'r mynydd-dir dan ofal

y bugeiliaid.

ADAR DOFION.

COLOMENOD.

CYFRIFA naturiaethwyr fod gryn ddeugain o rywogaethau o honynt, ond y rhai cyffredin a ystyrir fel yn dygymmod oreu &

hinsawdd Prydain. Hwy, o'r holl dda byw sydd yn meddiant y perchen, y darperir leiaf ar eu cyfer; ond nid ydynt i fod yn hollol felly. Rhaid iddynt gael lle i drigo. Gwneir gan rai, ar eu cyfer, dyllau yn nhalcen adeilad; ond y dull mwyaf cyffredin yw sicrhau math o fox ar y cyfryw le, wedi gosod ei fyrddau y naill wrth ben y llall. Dylai fod tua hanner llath rhyngddynt, a lled y nyth yn gyffelyb i'w uchder. mynedfa, o angenrheidrwydd, i fod oddi allan: tua'r de-orllewin y mae oreu i'r wyneb fod. Byddai yn dda fod dwfr ger llaw. ac hefyd rai darnau o geryg halen yn agos. Dylid gwneyd nythod o wair neu wellt, a'u gosod yn eu tyllau iddynt. Dywedir nad oes un aderyn mwy budr yn ei gartref na'r golomen, nac ar yr un pryd un yn hoffi glendid yn fwy na hi. Felly dylai y colomendy gael ei lanhau bob wythnos. Weithiau, gadawant eu tai am nad ydynt yn cael eu cadw yn lân. Bryd arall, magant afiechyd drwy y cyfryw ddiffyg. Dau ŵy, yn gyffredin, a ddodwyant cyn eistedd; ond os cânt gadwraeth briodol, bydd ganddynt gywion tuag wyth gwaith yn y flwyddyn. Ar amser eira, dylid gofalu am eu bwydo. Gwehilion rhyw ŷd a wna y tro iddynt. Byddai gwyngalchu wyneb eu tŷ yn fynych yn dra derbyniol ganddynt.

TYRCIOD (Turkeys).

CYFRIFIR fod pedwar math o'r creaduriaid hyn o leiaf yn Mhrydain: laf, Y Norfolk; 2il, Y CAMBRIDGE; 3ydd, TYRCIOD GWYNION; 4ydd, TYRCIOD AMERICANAIDD.

Tyrciod Norfolk yw y lleiaf, ond y caletaf; ac y maent yn ymdaro yn well dan anfanteision, ond nid ydynt yn y diwedd yn dyfod i gymmaint pris. Duon yw eu lliw, gydag ychydig o wyn tua'r gwddf. Y mae rhai Cambridge yn fwy, a'u lliw yn gymmysg o ddu a gwyn. Weithiau cyfarfyddir â rhai o liw copr. Y mae Tyrciod gwynion yn fwy tyner, ond mor debyg o ran maintioli a ffurf i'r Cambridge, fel y barna rhai mai cangen o'r rhywogaeth hono ydynt, ond fod gofal wedi ei gymmeryd i'w neillduo, er cadw y lliw. Dywedir fod Tyrciod American; aidd yn rhagori ar yr holl rai ereill ar y cyfan; a'u bod mor galed a hunan-ddibynol a'r Norfolk, i'r rhai y tebygant o ran lliw, er eu bod yn gyfartal o ran maintioli a'r Cambridge.

Y mae y dyrcien yn arfer eistedd ddwy waith, neu weithiau

dair gwaith mewn blwyddyn. Cyfrifir deuddeg neu dri ar ddeg Y cywion a ddeo ŵyau yn ddigon o dan yr iar ar unwaith. orir yn y gwanwyn sydd fwyaf gwerthfawr, gan y byddant wedi dyfod i'w maintioli yn y Nadolig-yr adeg y bydd y pris uchaf Cyfrifir hwynt hefyd yn well am eppilio yn y am danynt. flwyddyn ganlynol na rhai diweddarach. I gael cywion ddwy waith yn yr un tymmor, arferir gan rai roddi yr ŵyau cyntaf i eistedd arnynt gan ryw aderyn arall, a'r ail dan yr iar ei hun. Ereill a ddefnyddiant y dull a ganlyn:—Os gwnaiff dwy iar eistedd tua'r un amser, rhoddir cywion y ddwy i'w magu dan ofal yr un iar: y canlyniad fydd, y ceir gan yr un y cymmerir ymaith ei chywion ddigon o ŵyau i ail eistedd. Pedair wythnos yw yr amser i'r iar eistedd cyn deor. Gosodir yr ŵyau yn eu lle priodol gan yr iar ei hun. Try hwy yn ol ac yn mlaen fel y byddo angen; ond rhaid darparu nythiddi o wellt mewn lle glân. Gellir rhoddi amryw o'r ieir i eistedd o fewn i'r un adeilad, ond nid yn agos iawn i'w gilydd, gan y defnyddiant y cyfleusdra i ladrata ŵyau y naill oddi ar y llall. Yn niwedd yr wythnos gyntaf o'i heisteddiad, da fyddai rhoddi ychydig o wyau ieir cyffredin oddi dani, gan fod cywion ieir cyffredin yn llawer mwy parod i fwyta yn fuan ar ol eu deor na chywion y tyrcïod, ac felly cymmerant eu denu a'u dysgu i fwyta gan-Rhaid cymmeryd gofal manwl gyda'r cywion y dyddiau cyntaf, neu ä y draul a'r drafferth flaenorol yn ofer. Ond nid oes eisieu cynnorthwyo y cywion i ddeor ac ymadael â'r plisgyn: a sylwa un a gafodd lawer o brofiad, na welodd lwyddiant un amser ar yr aderyn y gwnaed hyny âg ef. Gadawer hwynt am ddiwrnod a noswaith o dan yr iar heb gynnyg dim iddynt i'w fwyta. Ond dranoeth, wedi i oerni y boreu fyned heibio, cymmerer y cywion o un i un yn ofalus oddi tan yr iar, a doder hwy mewn basged neu hamper, wedi rhoddi drostynt ddarn o frethyn neu wlanen, a'u gorchuddio hefyd os na bydd cauad ar y lle y byddont. Os bydd yr hin yn caniatau, yn enwedig os bydd yr haul yn tywynu, dyger hwy i le cauedig, megys perllan; a thyner hwy allan yn ofalus yn ngolwg yr iar; ond os bydd yr hin yn afrywiog, cadwer hwy i mewn. Yna cynnygier iddynt, ar gledr llaw, friwsion bara. Cofier fod yn rhaid eu denu i fwyta. Wedi iddynt gymmeryd ychydig fel hyn, doder iddynt ŵyau wedi eu berwi yn galed, a'u malu yn fân, yn gymmysgedig å dail lettuce a sibols, neu winwyn ieuaingc, neu cives.

¹ Ni ddylid rhoddi yr un o'r dof-adar i eistedd mewn lle rhy sych: os amgen, bydd plisgyn yr ŵy yn anhaws i'w dori gan y cyw pan y daw gofyn am hyny.

Wedi eu bwydo fel hyn am wythnos, yna bwyder hwy â *rice* wedi ei ferwi, blawd ceirch wedi ei gymmysgu å llaeth enwyn, ond nid yn wlyb, a blawd haidd yr un modd. Bwyder hwy bob yr ail â'r pethau hyn. Bydd eisieu cymmysgu y blawd a enwyd a'r dail gyda'u gilydd, a hyny a ddewisant o laeth enwyn i'w yfed. Fel y cynnydda y borfa, tröer hwy iddi. Rhaid, yn yr wythnos gyntaf, eu bwydo bob awr; yna yn fwy anfynych: ac yn mhen tri mis, os bydd porfa dda, ddwywaith yn y dydd yn unig. Ar ddiwedd y cynhauaf ŷd, tröer hwy i'r soflydd, yn gymmysg â'r gwyddau a'r moch. Lle y mae llawer o dderw. gellir arbed ŷd, gan yr ymborthant gyda hyfrydwch ar fês. pesgi, gosoder hwy mewn lle tawel, a gofaler am ei gadw yn lân. Dylai fod lle i ollwng awyr i mewn iddo; ac os bydd modd, cadwer adar ereill o'r golwg. Bwyder hwy â blawd Indian Corn, blawd ceirch, a blawd haidd: nid yn gymmysg, ond newidier o'r naill i'r llall. Tafler iddynt, hefyd, yn awr ac eilwaith faip heb dori eu dail, neu gabbage. Bydd y fenyw, os yn lled fechan, yn barod i'r farchnad yn mhen tair wythnos, tra y bydd y gwryw mawr ddau fis yn pesgi. Gwerthant am o 12s. i 32s., a rhai am brisiau llawer uwch.1

IEIR GUINEA (Guinea-hens).

Y MAE wyau a chig yr adar hyn o'r fath fwyaf blasus, ond y maent yn fwy tyner ac anhawdd eu dwyn yn mlaen pan yn ieuaingc na'r tyrcïod. Yr un modd y mae bwydo y naill a'r llall, ond rhaid bwydo ieir ieuaingc yn amlach. Tuag at gael wyau priodol i'r ieir hyn eistedd arnynt, dylid cadw cynnifer o geiliogod ag o ieir, gan fod yn perthyn i'r adar hyn reddf sydd yn eu rhwymo wrth eu gilydd yn barau. bron un amser amlwreicaeth yn eu plith. Y mae yr iar yn ddiarebol am ei diofalwch pa le i ddodwy; ond lle y byddo cryn nifer o honynt, tueddant i nythu yn yr un fan. Y mae yn anhawdd gwahaniaethu y gwryw oddi wrth y fenyw o ran eu ffurf, ond gwna y fenyw fath o swn, a elwir gan y Sais, "Come back, come back," yr hyn, meddir, na wneir gan y gwryw. Y mae gwahanol bryfaid yn ymborth danteithiol gan dyrcïod ac ieir Guinea ieuaingc. Ar gyfrif hyny, cymmhellir gan ra

¹Bydd tyrcïod dwyfiwydd, os yn frâs, yn cyrhaedd o dri i bedwar gin o bris o ddeutu'r Nadolig.

roddi pridd o dyrau morgrug yma ac acw ar hyd y borfa lle y byddont.

IEIR.

DYMA yr adar mwyaf cyffredin o'r holl rai dofion. Dosberthir hwy i amryw rywogaethau; megys, Ieir Cyffredin, Ieir Ysbaenaidd, Ieir Hamburgh, Ieir Poland, Ieir Dorkin, Ieir Bantam, ac Ieir Cochin China.

Y COCHIN CHINA yw y rhai trymaf ar y cyfan o bob rhywogaeth sydd yn adnabyddus o honynt. Pwysant, wedi eu pesgi, o ddeg i ddeuddeg pwys, a rhai chwaneg. Y maent o wahanol liwiau. Y mae eu cynffonau a'u hadenydd yn hynod o fychain; yr olaf yn gymmaint felly, fel nas gallant ehedeg yn uchel: ar y cyfrif hwnw, ni wiw gwneyd y lle y cysgant yn uwch na dwy droedfedd oddi wrth y llawr. Y maent ar gyfrif hyn yn fanteisiol i'r rhai a boenir gan waith ieir yn ehedeg dros wrychoedd i'r gerddi. Gan y bydd y cywion yn hwy yn magu plyf na'r eiddo ieir cyffredin, a bod y rhywogaeth hon wedi ei dwyn o hinsawdd lawer poethach na'r eiddom ni, dylid bod yn fwy gofalus gyda hwy.

IEIR YSBAENAIDD ydynt y nesaf mewn maintioli. Duon, ac ychydig o wyn o amgylch y pen, ydyw eu lliwiau.¹ Y mae hon yn un o'r rhywogaethau goreu am ddodwy. Pwysa eu hwyau o ddwy a hanner i dair wns. Nid ydynt 'yn gyffredin yn hoff o eistedd i ddeor. Nid ydynt, chwaith, yn pesgi cystal a'r Cochin China.

IEIR HAMBURGH.—Ceir amrywiol adraniadau o'r rhywogaeth hon. Cyfrifir hwy yn nodedig am brydferthwch eu lliwiau, a'u parhâd i ddodwy. Y maent lawer yn llai na'r rhywogaethau blaenorol.

IEIR POLAND.—Y mae yr adar o'r rhywogaeth hon, gan mwyaf, yn dduon, â bwysi gwyn ar y pen. Ceir weithiau rai o honynt o liwiau ereill. Dodwy, yn hytrach nag eistedd i ddeor, ydyw eu tuedd. Cyfrifir eu cig o'r fath mwyaf blasus, ac yn rhagori ar eu cydrywogaethau. Byddant yn hwy yn dyfod i'w maintioli nag un o'r rhywogaethau ereill.

¹ Ni ddylai fod un bluen wen yn yr ieir Ysbaenaidd, ond ychydig o dagell wen mewn ambell un. Nid oes un rhyw yn well am ddodwy: ond y mae eu cywion yn dra anhawdd eu magu. Nid ydynt yn pwyso yn debyg i'r DORKINGS.

Y BANTAMS, neu Y DANDIES, ydynt ieir bychain. Y maent yn flin tuag at ieir o rywogaethau ereill hyd y buarth, ond yn werthfawr am eu parhâd i ddodwy, ac am ddinystrio pryfaid.

IEER DORKINGS. —Un o hynodion y rhywogaeth hon yw pum bys ar y troed, yn lle pedwar. Y maent o amryw liwiau, ond fynychaf yn wineu euraidd. Cyfrifir hwy y rhywogaeth drymaf o ieir, oddi eithr y Cochin China; ond cyfrifir eu cig yn fwy blasus, a llai o waste ynddynt, na'r rhai hyny. Nid ydynt, chwaith, mor dyner ac anhawdd eu magu. Canmolir hwy am ddodwy; ond dangosant duedd i eistedd i ddeor yn fynychach na'r rhywogaethau ereill, megys yr IEER YSBAENAIDD, IEER HAMBURGH, ac IEER POLAND.

IEIR CYFFREDIN.—Rhagora yr ieir hyn fel mamau ar bob ieir ereill. Ceir hwy o amryw liwiau, ond fynychaf yn ddu-goch tra phrydferth. Nid ydynt, chwaith, yn ol i'r cyffredin o rywogaethau am ddodwy. Y maent, o ran dull, yn hytrach yn harddach nag un math arall. Y maent hefyd y rhywogaeth fwyaf galluog i atteb i bob triniaeth, ac y mae eu hwyau a'u cig mor flasus ag eiddo un o'r rhywogaethau ereill. Rhodder ceirch wedi ei grasu i ieir tuag at ddodwy. Gyda golwg ar pa rai i'w cadw o'r rhai hyn, gall y perchenog ymdeimlo â'i bleser a'i chwaeth, heb wneyd llawer o golled iddo ei hun. Ond y Dorkings a'r Ieir cyffredin sydd yn talu oreu.

HWYAID.

Y MAE yn y wlad hon amryw rywogaethau o honynt.² Y rhai duon, a ddaethant yn lled ddiweddar o'r dwyrain, yw y trymaf. Pan ddeora y cywion hwyaid, cadwer hwy am bythefnos o leiaf gyda'r fam, heb eu gollwng i ddwfr. Dylent y pryd hwn gael eu gollwng i fuarth, a chael eu cneifio yn llwyr dan y gynffon cyn eu gollwng i ddwfr y waith gyntaf, rhag iddynt lynu. A goreu fyddai, cyn eu gollwng i lyn, iddynt gael dwfr mewn padell fâs, i fyned iddo am ychydig o amser i ymbarotoi erbyn lle mwy. Pytatws, mangolds, neu faip, wedi eu berwi a'u cymmysgu yn

¹ Oddigerth y Cochin China, y Dorking ydyw y rhai trymaf, yr hawddaf eu magu, a'r rhai a ddaw gyntaf i'r farchnad.

³ Yr hwyaid duon yw y rhai lleiaf o'r holl rywiau. Yr AYLESBURY, neu hwyaid claerwyn, â phigau melyn goleu, yw y rhai a ddaw gynaraf i'r farchnad. Y ROUEN, o liw yr hwyaden wyllt, yw y drymaf o lawer, ac y mae yn haws ei magu a'i chadw nag un arall.

deneu gyda dwfr neu laeth, yw eu hymborth i fod. Pan tua mis oed, gwnant ddaioni dirfawr trwy ddifa pryfaid hyd y tomenydd a'r buarth, a manau ereill lle bydd y cyfryw bethau. Pan eir i'w pesgi, cauer hwy i fyny mewn adeilad gynnes, sêch, lân, a thawel, a lled dywyll, ond pan fyddant yn cael eu bwydo. Pesgant yn gynt wrth roddi triagl yn gymmysg â blawd haidd a llaeth enwyn iddynt, ynghyd â dwfr mewn llestr. Gofaler am gadw y lle yn lân.

GWYDDAU.1

Y MAE yn anhawdd, os nad yn ammhossibl, gwahaniaethu gwyddau y wlad hon i amryw rywogaethau. Cyfarfyddir â rhai o wahanol liwiau a maintioli; ond nid oes brawf digonol fod hyny yn dynodi chwaneg na maint a lliw. Dylai y ffermwr edrych allan a ydyw yn fanteisiol iddo gadw gwyddau trwy gydol y flwyddyn, ai peidio. A oes ar y fferm gyflawnder o ddwfr? Ac a oes lle i droi y gwyddau yn yr haf i ros-dir, heb fod o lawer o werth? Dylai y ddau ofyniad yna gael sylw.

Mewn porfa rywiog, dywedir, y pawr deuddeg o wyddau gymmaint ag un fuwch; end diammheu na thalant gymmaint am dani. Ond dadleuir fod gwyddau yn gwella tir o'r fath trwy ei hori, ac yn enwedig yn ei wneyd yn iachach i wartheg, megys i loi a dyniewaid, rhag y clwyf byr, &c. Edryched a barned y perchenog. Hefyd, lle byddo prinder dwfr, os cedwir hwy, ni ddylent gael myned i ddwfr yr anifeiliaid. Y mae y rheswm yn amlwg. Mewn ffermydd y bydd yn anghyfleus cadw gwyddau yn barhaus, gellir eu prynu yn Awst, neu ddechreu Medi, gan rai fydd wedi eu cadw ar y mynyddoedd yn ystod yr haf, a'u rhoddi ar y soflydd, ac yna eu pesgi. Amgylchiadau y ffermwr a ddysg iddo pa beth fydd oreu ei wneyd. Nid ydyw yr ŵydd wedi dyfod i'w llawn werth fel mam nes bod yn dair neu bedair blwydd oed. Cyn hyny, ni ddodwya gynnifer o ŵyau. Nid yw yn debyg chwaith o ori chwaneg nag unwaith yn y tymmor, a phrin y bydd ei chywion mor gryfion.

Yn eu sefyllfa ddof, nid ydyw na gwyddau na hwysid yn pesgt yn dda lle y bydd llawer o ddwfr.

^{&#}x27;Y mae gwyddau yn hynod o lesol mewn porfa gwartheg, er difa y chwynoglyn "crafangc y frân," yr hwn sydd dra niweidiol i gynnyddu llaeth.

Y mae dwy neu dair o wyddau yn ddigon i fod gydag un ceiliogwydd. Dywedir fod gwyddau gwylltion bob amser yn cymmharu un ac un. Ni ddylid er dim gadael dau geiliogwydd gyda'r un gwyddau. Cwerylant, a pheryglir trwy

hyny i'r ŵyau fod heb ddefnydd cywion.

Y mae o un ar ddeg i dri ar ddeg o ŵyau yn ddigon dan un ŵydd ar unwaith. Deg diwrnod ar hugain yw amser yr ŵyau i fod dan yr ŵydd cyn deor. Gwell yw eu gadael am tua deuddeg awr ar ol deor yn llonydd. Pleidia rhai, wedi hyny, dori wy, a chymmysgu ag ef gymmaint o beilliad ag a'i gwnelo yn does ystwyth; yna rholier ef ar gledr y llaw i braffder gwelltyn gwenith, a dalier ef wrth y tân nes y cynnheso; yna torer y rhai hyn tua hanner modfedd o hyd, gan wneyd un blaen yn fain. Yn mhen tua phedair awr ar ol deoriad y cywion, doder ychydig o'r rhai hyn i bob un, gan eu rhoddi yn eu pigau. yw y rhai' sydd wedi edrych yn fanwl i driniad gwyddau 'yn barnu fod hyn yn angenrheidiol; ond tybir ei fod yn dra effeithiol i roddi cychwyn yn y creadur ieuangc. Parha rhai i wneuthur hyn ddwy neu dair gwaith y dydd am y naw diwrnod cyntaf. Os bydd y tywydd yn weddol, tröer yr ŵydd a'i chywion i borfa lle y bydd dwfr yn agos. Os bydd yr hin yn rhy oer, rhodder hwy dan gysgod, a bwyder hwy â glaswellt, rhanau uchaf maip, cabbage, &c. Gofaler am eu rhoddi i orwedd ar wellt sych. Mor fuan ag y bwytant ŷd, bydded iddynt gael digon o hono; hefyd reis wedi berwi ychydig arnynt. os gellir eu cael heb fod yn rhy ddrud.

Nis gellir gwneyd yn well, dybygid, wrth besgi gwyddau, na'u cau i fyny mewn lle tawel a glân, a'u bwydo â cheirch neu haidd, wedi neu heb eu malu. Pe y crasid y ceirch, a'i falu ynghyd â'r haidd yn lled fras, y mae yn ddigon tebyg y byddai yn well. Byddai eisieu dwfr mewn llestr, a graian mewn un arall, gyda hwy. Cadwer gwellt sych a glân danynt.

YR ADARDY.

Nid yn fynych y mae gan ffermwyr Cymru yr adeilad hon. Gwneir, yn gyffredin, gytiau i'r hwyaid a'r gwyddau yn nghwr isaf un o waliau y buarth. Am yr ieir, byddant yn cael cysgu a nythu yn rhyw fanau mwyaf cyfleus o'r adeiladau ereill. Y mae hyn yn golled, ac yn ddiffyg trefn. Dylai tŷ yr adar gael

ei wneyd mewn man y gellir cael dwfr i'r buarth a fydd o'i flaen, er mwyn yr hwyaid a'r gwyddau. Y mae wire neu ais coed, hefyd, i'w gosod oddi ar y wal yn ddigon uchel i ddiogelu yr adar i fewn. Gellir ei wneuthur trwy osod nythod yr adar mwyaf yn isaf; a dylid gwaelodi y tŷ â flags, a gosod y nythod isaf ar geryg, ryw chwe modfedd uwch na'r llawr. Gosoder y nythod yn rhesi y naill oddi ar y llall-nid gyda'r parwydydd, ond o fewn tua dwy droedfedd a hanner oddi wrthynt. Felly bydd llwybr rhwng y nythod a'r pared, a cheir cyfle i edrych iddynt heb fyned i'r tŷ o gwbl. Yma hefyd y bydd clwydi vr ieir, a dylai fod ysgol yn esgyn o waelod y tŷ i'r glwyd. Gwasanaetha hefyd i gael myned i'r nythod uchaf. cedwir llawer o adar, gwell fyddai fod llawr y tŷ yn ddwy ran, rhag iddynt ymgynhenu. Gellir gwneyd darn uchaf yr adeilad yn lle i'r colomenod. Os gwneir y llawr yn ddwy ran, rhaid gwneyd y buarth felly hefyd.

MOCH.

Y MAE meithriniad moch yn un ran led bwysig o amaethyddiaeth Cymru. Y mae cadw moch yn fwy annibynol ar ddal tir nag ydyw cadw anifeiliaid o'r dosbeirth ereill. Y mae y gweithiwr sydd yn byw mewn tŷ a gardd yn cadw mochyn, a rhai drwy hyny yn ennill yn dda mewn blwyddyn—ardreth y tŷ neu chwaneg, wrth gadw mochyn neu ddau. Gwneir hyn weithiau gan deulu heb un ardd. Y mae ymdrech o'r fath yn ngwerin y wlad yn haeddu canmoliaeth uchel. Y mae gwraig y gweithiwr sydd yn ddigon meddylgar am ei bywoliaeth i agor masnach fechan mewn mân nwyddau, neu i gadw un neu ddau o foch, er gorfod prynu pob peth iddynt, yn rhagori yn fawr ar yr hon sydd yn ymollwng i fyw yn hollol ar ennillion ei phriod.

Dwy brif rywogaeth o foch sydd yn Mrydain, ac adnabyddir hwy wrth y rhywogaeth fawr a'r rhywogaeth fechan. Y gyntaf oedd un frodorol ein gwlad, ond ei bod erbyn hyn wedi ei gwellhau yn ddirfawr. Dengys yr hanesion boreuaf sydd genym am ein moch brodorol eu bod yn mhell iawn yn ol i'r rhai presennol. Cymmerent lawer mwy o amser i dyfu i'w cyflawn faint: yr esgyrn yn fwy, y corph yn gulach, ac yn hynod o anniben yn pesgi. Yr oedd y dull o'u cadw yn yr oesoedd gynt yn llawer

at eu gwneyd felly. Nid oedd y modd i'w pesgi a'u meithrin yn cael ei ddeall fel y mae yn awr. Nid oedd y gofyn arnynt, chwaith, y fath fel ag i dynu neb allan i geisio deall hyny. Cedwid hwy yn y ffordd rataf. Cymmerai y mochyn, yntau, dri chymmaint o amser i besgi a chynnyddu ag a wna y dyddiau hyn, ac ni byddai y cig o lawer mor flasus.

MOCH.

Ymddengys fod y moch yn greaduriaid priodol i hinsawdd gynnesach nag un Brydain, gan mai o wledydd sydd felly y dygwyd, o dro i dro, i'n gwlad ni, foch a fuont yn offerynol i buro a gwella cymmaint ar ein rhywogaeth gartrefol. Dygwyd y rhai hyny, weithiau, o ororau Môr y Canoldir; brydiau ereill, o China. Afreidiol yma ydyw manylu ar adraniadau y rhywogaethau hyn. Gan fod moch mor eppilgar, y mae cadw y gwahanol rywogaethau oddi wrth eu gilydd yn dyfod yn fwy anhawdd.

Y BERKSHIRE.—Y moch a elwir Y BERKSHIRE ydyw y rhai goreu o'r rhywogaeth fawr. Y mae y corph yn hir, ac o led a phraffder cymmesur; ond y goes yn fer, a'r esgyrn a'r clustiau vn fychain. Cyfranoga y rhai hyn o faintioli yr hen rywogaeth, ond o ddullwedd y rhywogaethan tramor. ein dewisiad o un o'r ddwy rywogaeth gael ei benderfynu gan ddau beth:—y dull y bwriadwn eu cadw, a'r farchnad y paro-Y mae moch o'r rhywogaeth fechan yn fwy toir hwy iddi. tueddol i bori na'r lleill. Cedwir llawer o honynt gan ffermwyr ar "glover" yn yr haf, heb law gweddillion y llaethdy a'r gegin nos a boreu. Ant gyda'r gadwraeth hon bron yn ddigon Rhaid i'r rhai o'r rhywogaeth fawr gael gwell cadwraeth, er fod moch Berkshire yn rhagori yn fawr yn hyn ar hen foch y wlad. Darperir moch o'r rhywogaeth fechan hefyd at pork, a'r lleill at bacon. Y rhai bychain sydd yn gwerthu oreu yn marchnad Llundain, a'r lleill yn talu oreu i'w hanfon i ranau gweithfaol y deyrnas.

Un o'r cyfnewidiadau a ddygodd y ffyrdd haiarn i'n gwlad ni yw agor masnach mewn stores, neu foch o bedwar i chwe mis oed. Y mae mwy yn cael ei wneyd o bossibl yn Nghymru yn awr yn y ffordd hon na thrwy besgi. Nid all un o'r ddau gynllun fod yn well yn mhob amgylchiad na'r llall; a phe y byddai felly, nid allai fod ond am ychydig amser, o blegid

¹ Y mae rhywogaeth Berkshire yn fynychaf yn cael eu priodoli i'r breed bach. Cyfiawnder a ddylai eu cyfrif fel canol-faint. Y rhyw gwyn o Yorkshire yw y mwyaf o lawer, eithr y mae yn dra anniben yn dyfod i'w gyflawn faintioli. Y mae y Berkshire yn hynod am bori glaswellt, ac yn ymdrechgar am eu lluniaeth.

rhedai pawb ato. Amgylchiadau pennodol y ffermwyr sydd i benderfynu rhyngddynt. Gellir sylwi fod stores yn fwy anwastad eu prisiau na moch tewion.

Y DULL GOREU O GADW MOCH.—Dylai yr hwch fagu, tra y byddo moch ynddi, gael ei chadw mewn gwedd ganolig; o blegid y mae eithafion i dda neu wael mewn cadwraeth yn tueddu i wneyd ei thorllwyth yn fwy eiddil. Gwell iddi fod mewn buarth neu faes yn y dydd, na bod yn gauedig. Tuedda hyny i roddi bywiogrwydd yn ei chyfansoddiad sydd fanteisiol i'r ystâd y mae ynddi. Pan o fewn pythefnos i'w hamser, rhodder hi wrthi ei hun, a bwyder hi yn well. Dylai yr adeilad ddarparedig i foch fod bob amser â'i wyneb i'r deheu, a rhediad da o hono, a lle cauedig o'i amgylch. Gyda golwg ar yr hwch sydd agos i'w hamser, cadwer gwellt glân dani. Ni ddylai fod llawer o hono, ac ni ddylai fod yn hir; rhag i'r perchyll ymddyrysu ynddo, a chael gorwedd arnynt gan yr Pleidia rhai godi y perchyll am ddiwrnod a noswaith i gawell y bydd gwellt ynddo, gan eu rhoddi i sugno bob dwy awr; ond y mae pleidwyr y cynllun hwn, dybygid, yn darfod. Dros y tri diwrnod cyntaf, ni ddylai yr hwch gael uurhyw wlybwr sur: ei phrif gynnaliaeth tra yn magu ei thorllwyth ddylai fod blawd haidd wedi ei gymmysgu â dwfr neu laeth, ynghyd å phytatws, neu mangolds. Drwy hyn daw y perchyll yn mhen tua thair wythnos i ddechreu bwyta. Haidd wedi ei ferwi sydd oreu iddynt yr adeg hon, a thröer yr hwch allan tra y byddant yn bwyta: ond dylid dechreu troi yr hwch allan am ychydig funydau ddwywaith neu dair yn y dydd o'r amser y Bydd ychydig o ymarferiad yn yr awyr daw â pherchyll. agored yn fanteisiol iddi. Dylid "tori" ar y perchyll pan o dair i bum wythnos oed, fel y byddo eu nerth. Y mae y rhai cryfion yn galw am "dori" arnynt yn gynt. O chwech i wyth wythnos yw yr adeg i'w diddyfnu; ac os byddant i'w gwerthu yn berchyll, cymmerer hwynt i'r farchnad oddi wrth yr hwch. Dylent gael eu bwydo yr wythnosau cyntaf ar ol eu diddyfnu â haidd neu Indian Corn wedi ei ferwi, ac â blawd haidd neu Indian Corn, neu flawd ceirch yn gymmysg â phytatws neu fangolds, ynghyd â llaeth, neu ddwfr. Byddant erbyn hyn, oe yn yr haf, yn barod i'w troi allan i bori. Clofer fydd oreu, os yn gyfleus: ond os y gauaf fydd y tymmor, hoffant y buarth lle y cludir tail y ceffylau, neu o flaen drws yr ysgubor, i gasglu gronynau ŷd. Pan yn cael eu gollwng allan, neu hyd yn oed pan i fewn yn pesgi, dylent fod wedi eu modrwyo; neu

ynte, andwyant y tir, ac nid ant rhagddynt i ffynu. 1 Gwna

rhai doriad rhwng y ddwy ffroen, yn lle modrwy.

Fel y bydd y moch yn myned yn hynach, gellir eu porthi âg ymborth mwy rhad, trwy leihau swm y blawd, gan nad yw cynnyddu yr anifail mewn maintioli yn galw am ymborth mor sylweddol a phan y bydd yn cael ei besgi; ond cofier, mai cadw pob anifail ieuangc yn dda sydd yn talu oreu. Mewn lle cauedig y pesga y moch oreu. Blawd yw y prif ymborth at besgi. Y mae pytatws wedi eu berwi, neu fangolds wedi eu malu yn dipiau â pheiriant a elwir Pulper, a chymmysgu y naill neu y llall â blawd, yr ymborth goreu at besgi. Os mangolds a gymmerir, dylent fod wedi eu cymmysgu â'r blawd o leiaf bedair awr ar hugain³ cyn eu defnyddio. Anhawdd penderfynu pa un oreu ai blawd Indian Corn, haidd, neu geirch. Cymmeradwya rhai grasu ceirch, a'i roddi hanner yn hanner gyda haidd, a'u malu yn fân. Dywed ereill fod cig y moch a besgir â blawd ceirch yn fwy blasus. Yn wythnosau olaf tymmor pesgi, dylid rhoddi llai o fangolds, neu bytatws yn gymmysg â blawd. Y mae yn anhebgorol' tuag at i'r moch dewychu, fod eu lle yn lân. Goreu, hefyd, y pesgant os golchir hwynt unwaith yn yr wythnos drostynt å dwfr a sebon.

Yn ddiweddar, tystiai cyfaill wrth yr ysgrifenydd, ddarfod iddo mewn llai na blwyddyn, trwy brynu stores cryfion, a'u pesgi, ennill deg punt ar hugain, wedi talu am y cyfan a fwytawyd ganddynt. Yr oedd yr ennill tua phunt yr un. Bwydid

hwy & blawd Indian Corn a sharps.

CEFFYLAU.

WRTH gymmeryd golwg ar ein gwlad yn ei chyssylltiad â cheffylan yn ystod y pymtheg neu yr ugain mlynedd diweddaf, ceir fod cryn gyfnewidiad wedi cymmeryd lle. Y mae dau fath o

² O wall sylwi a gweithredu ar hyn o wirionedd, chwanegir un ran o dair, os nad mwy, at y gôst o barotoi unrhyw anifail at y farchnad. Y dull rhataf yw cadw pob anifail yn dda o'i febyd hyd y farchnad.

³ Wrth arfer y *Pulper*, gwell yw gadael ei gynnyrch i boethi ryw gymmaint, a dechreu egru, cyn ei roddi i'r moch.

¹Yn ol y profiad a gefais, yr wyf o'r farn fod y moch a gedwir yn gauedig yn byw ar hanner y lluniaeth a dreulir ar y rhai sydd yn tramwy yma a thraw.

geffylau gwêdd wedi myned yn llawer llai eu gwerth, am fod y gofyn amdanynt yn llawer llai. 1. Y math trymaf o geffylau. tebyg i'r Lincolnshire duon, a fyddai â golwg elephantaidd arnynt ar hyd heolydd ein trefydd mawrion. 2. Ceffylau gwêdd lled fychain, dyweder pymtheng dyrnfedd, neu dan hyny. Nid yw yn anhawdd canfod yr achos o hyn, Y mae y ffyrdd haiarn a'r gerbydres yn gwneyd ein trym-waith. Y ceffyl tân i ni, yn lle yr hen Lincolnshire du! Rhagora yn annhraethol: a digon tebyg fod cyflymder y gerbydres yn cael effaith gyffredinol arnom. Rhaid i ni gael rhywbeth a symmuda—rhywbeth â digon o "fyw" ynddo. Gyda'r hen geffyl du mawr, yr ydys wedi vmadael ag un o'r "saith gysgaduriaid." Yn lle ein hen droliau a'n gwageni trymion, gwnawn rai mwy manteisiol i symmud vn Y mae y troliau a'r ceffylau, fel eu gilydd, yn llawer ysgafnach na'r rhai gynt.

Y ddwy brif rywogaeth o geffylau gwêdd, hyd o fewn ychydig o ugeiniau o flynyddoedd yn ol, oeddynt ceffylau Lincolnshire a'r Suffolk Punch:—y blaenaf yn fawrion a thrymion, ac yn gyffredin o liw du. Mesurent tua dwy ddyrnfedd ar bymtheg. Yr olaf o bymtheg a hanner i un ar bymtheg—yn anifeiliaid cryno, ac o liw melynrudd. Nid oes rywogaeth, efallai, yn fwy heinif a bywiog yn ei orchwyl na'r Suffolk Punch, nac un a gerdda yn well. Ond y mae un peth hynod yn perthyn iddo, rhaid ei fwydo yn aml, gan na weithia yn hir ar ei gythlwng.

Wedi i'r ddwy rywogaeth hyn fod dros amser maith mewn bri, codwyd rhywogaeth arall, a elwir CEFFYLAU CLYDESDALE. Cychwynwyd a meithrinwyd y rhywogaeth hon yn ngogledd Lloegr ac iseldiroedd Ysgotland. Dywedir fod tir-berchenog mawr wedi dadforio nifer o gesyg o Holland, ac mai cyfebru y rhai hyny gan ystalwyn o rywogaeth Cleveland (ceffylau a arferid y pryd hyny i dynu cerbydau) a gynnyrchodd y rhywogaeth hon. Y mae ystalwyni o'r rywogaeth hon o un dyrnfedd ar bymtheg a hanner i ddwy ddyrnfedd ar bymtheg; yn codi yn dda yn yr ysgwydd; y goes yn gref, ond heb lawer o flew hirion arni. Dywedir mai eu diffyg, ar y cyntaf, oedd gormod o hyd yn y goes; ond y mae hyny, yn y blynyddoedd diweddaf, trwy ofal, yn darfod. Yr hyn a ddisgwylir oddi wrth geffyl gwêdd yn awr ydyw gallu i wneyd llawer waith: ac y mae y ceffylau hyn yn atteb i'r angen presennol yn well nag un math arall. Y maent yn well na'r Lincolnshire, am eu bod yn fwy bywiog, ac yn iachach eu coesau; ac y maent yn well na'r Suffolk, ac ereill tebyg, am eu bod yn gryfach. Goreu po debycaf i'r rhai hyn fyddo y ceffylau a fegir yn Nghymru; ac nid yw ein rhywogaethau presennol yn anffafriol i hyny. Y mae goreuon ceffylau Môn yn dwyn cryn debygolrwydd i'r rhai hyn yn barod, a'r un modd rhanau mwyaf ffrwythlawn sir Gaernarfon. Y mae ceffylau gwêdd sir Ddinbych, Fflint, a Threfaldwyn, yn drymach, a mwy araf. Y rheswm am hyn, dybygid, yw, fod un ran eang o'r gwledydd hyn yn fwy ochrog, a'r rhan arall yn fwy cleiog na'r gwledydd a nodwyd gyntaf; ac y mae pwysau ac arafwch yn deithi gwerthfawr mewn ceffyl sydd i weithio ar y fath diroedd. Etto, gan fod offerynau amgenach i drin cleidir wedi cael eu dyfeisio erbyn hyn, a bod y llethrau yn talu yn well wrth eu pori na'u llafurio; a phan lafurir hwynt, fod gwrtaith celfyddydol gymmaint yn rhatach iddynt na thail; ceir oddi yma gymnhelliadau i ddefnyddio ceffylau heb fod yn drymion

ac arafaidd fel y rhai gynt.

Yr oedd yn Ngogledd Cymru, er amser ein teidiau, fath o geffylau tra defnyddiol—rhai celyd, cryno, a gweithgar. huchder oedd o bedair ar ddeg a hanner i bymtheg dyrnfedd. Gwineu, yn gyffredin, oedd y lliw—tywyll oddi arnodd, a llwyd oleu dan y bol; pen bychan, talcen llydan, ffroen lwyd, a choesau duon. Y pryd hyny, ychydig fyddid yn ei weithio ar geffylau; yr hyn, yn fwy na chadwraeth dda, oedd yr achos eu bod o gystal ffurf. Ond pan aed i droi llawer mwy o'r tir, croeswyd hwy fel ag i gael rhai cryfach a thrymach. Fel bob amser, wrth groesi rhai â gwahaniaeth mawr rhyngddynt, ceir prif ddiffygion rhiaint a pherthynasau bellder mawr yn ol, yn y nifer mwyaf o'r eppil; felly yn yr amgylchiad hwn. Dirywiodd ein ceffylau gwêdd gryn lawer o ran ffurf, yn enwedig y pen a'r asen; aeth y naill yn fwy, a'r llall yn îs. Yn ffeiriau ein hardaloedd mynyddig y cyfarfyddir â'r rhai y mae mwyaf o'r hen rywogaeth Gymreig ynddynt. Gellid defnyddio cesyg o'r fath hyn i ddau amcan pwysig. Defnyddier y rhai cryfaf i'w cyfebru gan ystalwyn gwêdd o'r fath a gymmeradwywyd: gellid disgwyl ceffyl gwêdd rhagorol. Ond o'r cesyg ysgafnaf, sydd yn dangos llawer o'r hen rywogaeth Gymreig, wrth roddi ystalwyn o rywogaeth ceffylau cyfrwy (hackneys) iddynt, gellid disgwyl ceffyl llawn mor werthfawr at farchogaeth; a gweithio, ar adegau, mewn gwaith ysgafn. Y mae y fath hyn o geffylau yn hynod brinion yn awr yn Ngogledd Gymru; ac er prisiau isel y pum mlynedd diweddaf, gwerthir rhai da o'r cyfryw ffurf bron yn gynt nag un math o geffylau. Yn siroedd Aberteifi. Caerfyrddin, a Phenfro, dyma y ceffylau sydd yn gwneyd i fyny y gweddoedd ganmwyaf. Ymfalchïant yn fawr ynddynt, cadwant hwy yn dda, a gwerthant yn uchel.

Megys y tueddir, yn y dyddiau hyn, i gymmeryd ceffylau gwedd ysgafnach na chynt, y mae yr un peth i'w weled gyda golwg ar geffylau marchogaeth, a cheffylau cerbydau. ar bawb eisieu myned a dyfod mewn llai o amser. Digon tebyg, tuag at gyrhaedd hyn, y rhaid cyfebru ein cesyg cyfrwy gan rai vstalwyni thorough-bred. Ond pan y gellir cael ystalwyn, â sicrwydd am deilyngdod ei hynafiaid, heb fod o waed mor uchel, diogelaf ydyw i ffermwr; o blegid os bydd i ebol, yn tynu at fod yn thorough bred, gyfarfod â damwain i un o'i aelodau. bydd ei fagu yn gryn golled. Ceir weithiau drigain punt, neu chwaneg, am geffylau o'r fath yn bedair oed, pan fyddont wedi eu cadw rhag damweiniau. Ond un heb gymmaint o waed a werthir yn yr un oedran am o ddeg i bymtheg punt ar hugain, yn addas i'w roddi dan gyfrwy, ac mewn gig, ac heb fod yn ormod o ŵr boneddig i'w roddi yn y wedd mewn gwaith ysgafn, sydd, ar y cyfan, yn talu oreu. Etto, prin y byddai yn deg beio y ffermwr balch o'i geffyl, a thra gofalus am dano, am amcanu magu ceffyl cyfrwy a werthir yn bedair oed am o drigain i ddeg punt a thrigain.

CEFFYLAU CERBYDAU.

Anfynych, er's blynyddoedd bellach, y the ystalwyn priodol tu ag at gael ceffylau at gerbydau yn cael ei anfon i un o siroedd Gwynedd. Yn swydd Gaerefrog (Yorkshire) y mae cartrefle y rhywogaeth hon. Gofynir am danynt yn uwch, ac ychydig yn gryfach eu hasgwrn, na cheffylau cyfrwy. Un ddyrnfedd ar bymtheg o uchder ydyw yr un mwyaf priodol. Gwineu, neu lâs, a gymmeradwyir fel lliw. Gwerthir y ceffylau hyn am bedwar ugain punt yr un, a rhai am lawer yn chwaneg. Y mae caseg o'r rhywogaeth hon yn alluog i wcithio ar ffarm o dir ysgafn pan na bydd yn magu.

MERLOD.

Y MAE Cyma yn nodedig am y rhai hyn—yn enwedig y rhanau agosaf i'w mynyddoedd eangaf a mwyaf isel; megys

Migneint, Hiraethog, Berwyn, a rhai mynyddoedd yn y Deheudir. Gwineu, fynychaf, yw eu lliw. Mesurant o un ar ddeg i ddeuddeg dyrnfedd. Porant ar y mynyddoedd yr haf, a dygir llawer o honynt i diroedd îs i fwrw y gauaf. Gwerthir hwynt yn ffeiriau Medi a Hydref i fyned i wahanol barthau y deyrnas. Y maent yn nodedig am eu parhâd heb flino. Y mae llawer o ddiofalwch gyda'u cadwraeth. Gadewir hwy ar amser rhew ac eira heb ddim cysgod, ac heb ddim ymborth ond a gasglant. Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol i gael ceffyl cyfrwy o ragoriaeth uchel, ydyw rhoddi y ferlen fwyaf dewisol, o'i rhan ei hun a'i hynafiaid, i gael ei chyfebru gan ystalwyn cyhydig yn fwy na hi ei hun; ac os ceir eboles, rhoddi ystalwyn cyffelyb, ond ychydig yn fwy, iddi hithau yn bedair oed. Erbyn y drydedd neu y bedwaredd genhedlaeth, gellir disgwyl ceffyl cyfrwy o'r fath oreu.

Yn y cyffredin, yr adeg briodol i roddi ystalwyn gyntaf i gaseg ydyw pan yn bedair blwydd oed. Ond pan fyddo eboles ddwyflwydd neu dair yn ofer-dyfu, goreu, ond odid, rhoddi

ystalwyn iddi.

MEITHRINIAD CEFFYLAU.

DYLAI y gaseg gael llonydd oddi wrth waith ddwy neu dair wythnos cyn llydnu; ac wedi hyny, am o leiaf dri mis. Gwell fydd iddi gael llonydd nes diddyfnu y llwdn, yr hyn a gymmer le pan o ddeutu pum mis oed. Ond os rhaid dal y gaseg rai adegau cyn hyny, gofaler am ei chadw oddi wrth y llwdn nes yr oera, yna godreuer hi; oblegid y mae y llaeth a adewir gyda hi wrth weithio a chwysu yn afiach i'r llwdn. Bydd cesyg, yn gyffredin, yn barod i gymmeryd yr ystalwyn tuag wyth niwrnod wedi llydnu. Po goreu y borfa a gaiff y gaseg wrth fagu, goreu fydd y llwdn. Ond rhaid i'r ffermwr yn hyn wneyd fel y gallo. Ni wiw rhoddi y ceffylau o flaen y gwartheg, onid ê aiff bywioliaeth y teulu yn fuan o chwith. Os bydd rhôs-dir yn perthyn i'r fferm, dylai y ceffylau gymmeryd eu rhan o hono; ac etto nis gall y fath le fod yn dda i'r gaseg fagu. A byddai yn well peidio magu ceffyl o gwbl na'i fagu yn wael. Un o'r pethau mwyaf annhebyg i dalu ar y fferm, neu un o'r pethau sicraf i beidio talu, vdyw ceffyl wedi ei fagu'yn wael. Bydd rhai yn hau ffacbys, i'w tori i'r ceffylau yn nechreu yr haf; bydd hyny



yn gryn help i gaseg fagu, os na bydd ei phorfa ond canolig. Wedi canol Gorphenaf, gellir rhoddi caseg a llwdn, neu ddau o ebolion ieuainc, gyda phymtheg neu ugain o wartheg, am y porant yr hyn fydd yn wrthodedig gan y gwartheg; ac y pawr y gwartheg y lle hwnw eilwaith yn mhen ennyd. Pan ddiddyfner y llwdn, gadawer ef i mewn am rai dyddiau, nes iddo fwrw ei hiraeth Rhodder iddo adladd clofer, ac hefyd ychydig o geirch nos a boreu. Ymdrecher hefyd i ddysgu iddo yfed llith blawd ceirch. Goreu os bydd dau lwdn i'w diddyfnu ynghyd. Weithiau, lle na bydd ond un llwdn, bydd cymmydog, mewn cyffelyb amgylchiad, yn newid gyda'r perchen. Newidiant felly â'u gilydd bob yn ail blwyddyn, er mwyn i'r ebolion gael bod gyda'u gilydd. Tuedda hyny hefyd i feithrin cymmydogaeth dda. Wedi pump neu chwech o ddyddiau, gellir gollwng yr ebolion ieuaingc i bori gyda'r lloi; ond pan ddaw dryc-hin diwedd y flwyddyn, dylent fod i mewn y nos. rhyddion y portha ceffylau ieuaingc oreu: allan y dydd, ac i mewn y nos. Dylid cadw gwellt sych danynt. Na rodder ebolion dwy-flwyddiaid i'w porthi yn rhyddion yn yr un man a'r rhai blwyddiaid. Gofaler na byddo y lle y byddont i mewn ddim yn rhy gynnes, fel na byddo y gwahaniaeth yn nhymmheredd yr awyr y nos ragor y dydd yn ormod. Bwyder hwy â gwellt, neu wair wedi ei dori, neu y ddau ynghyd, a chymmysger ceirch neu flawd âg ef. Gwnai ychydig o garrots neu swedes, wedi eu pulpio yn gymmysg â'r bwyd arall, eu cadwraeth yn well. Yr haf canlynol, gyda'r dyniewaid y bydd y lle mwyaf priodol iddynt. Gwell "tori" ar yr ebolion, neu eu hysbaddu y tymmor hwn, yn hytrach na'r haf canlynol, am yr arbedir llawer o beryglon iddynt drwy hyny, ac y bydd yr olwg arnynt, mewn canlyniad, ar y cyfan, yn brydferthach. Cyn mis Gorphenaf, neu gynted ag y gellir ar ol diwedd Awst, yw yr amser i wneyd. Y mae yn deg i'r gŵr fydd yn dyspaddn gael ei ffordd ei hun gyda chyfarwyddo y perchenog pa fodd i ymddwyn tuag at yr anifail yr adeg hono. Porther yr ebolion yn debyg yr ail gauaf; ond gellir, os dewisir, eu rhwymo fel ceffylau mewn oed; ond porthant ar lai o fwyd wrth redeg i mewn ac allan. O'r tu arall, os ebolion gwedd cryfion fyddant, gallant, drwy gael eu porthi i mewn, lyfnu yn y gwanwyn. Cyn eu dal i weithio, neu i fod yn rhwym yn yr ystabl, bydd yn ofynol eu tywys am ddiwrnod neu ddau—a hyny, cofier, gan ddyn o dymmer dda; oblegid trwy deg y mae dwyn y creaduriaid ieuaingc dibrofiad hyn i ddygymmod yn fwynaidd â'r fath gyfnewidiad yn eu sefyllfa. Os na bydd ar y fferm gyflawnder

o dir pori da, rhaid rhoddi lle heb fod cystal i'r ebolion yn ddwyflwydd ag a gawsant pan yn flwydd. Os bydd rhanau o'r fferm yn cael eu pori gan ddefaid, bydd yn lle da i'r ebolion, gan y pawr y naill yr hyn a wrthoda y llall; ond rhaid cael sicrwydd na chymmerant eu pleser mewn rhedeg y defaid i lawr. Nid pob ebol sydd yn ddigon heddychlawn ei dymmer i'w osod yn yr un man a defaid. Pan yn ddwy flwydd a hanner oed, y maent yn barod i fod o nifer ceffylau gwedd y fferm; etto gwell, os gellir, peidio eu gweithio yn drwm y tymmor hwn. Bydd rhai ffermwyr yn gwerthu eu ceffylau yn codi yn bedair neu bump oed yn y gwanwyn, ar yr amser yn gyffredin y bydd y prisiau uchaf, ac yn rhoddi yr ebol fyddo yn codi yn dair blwydd, a'r ceffyl fydd i'w werthu, i wneyd gwaith un ceffyl rhyngddynt. Anhawdd, dybygid, ar y cyfan, gwneyd yn well.

Am ebolion ysgeifn at farchogaeth, neu i dynu cerbyd, nis gallant fod mor wasanaethgar y tymmor y byddont yn codi yn dair oed ag y gall ebolion gwedd fod. Ni ddylid mewn un modd adael i ddyn trwm farchogaeth ebol o'r oed hwn. A phan gaffont eu marchogaeth gan un digon ysgafn, dylai y daith fod yn fer; ac ni ddylid eu cymmhell i gerdded neu duthio â'u holl allu. Gallai hyny beryglu diogelwch eu safiad ar eu traed am eu hoes. Nid ydyw ceffyl ysgafn yn gymmhwys i waith rheolaidd cyn y tymmor y bydd yn codi yn bump oed, nac i waith

caled hyd flwyddyn yn mhellach.

Dibyna y modd goreu i borthi ceffyl cryn lawer ar amgylchiadau y perchen. Os prynu pob peth iddo y bydd, gwell prynu gwair na gwellt; ond na rodder ef heb ei dori, a chymmysger blawd ag ef. Bydd cryn wahaniaeth yn mhris y naill ar gyfer y llall ar wahanol amserau. Blawd Indian Corn, ffa, pys, haidd, ceirch—dibyna pa un o honynt yn ol ansawdd y farch-Y mae ceirch wedi ei grasu a'i falu gyda haidd, hanner yn hanner, yn fwyd rhagorol. Lle y mae tir ochrog, o natur ysgafn, bydd yn well hau rhyw gymmaint o eithin ar gyfer y ceffylau; ond nid attebant i waith wrth fwyta llawer o hono. Gwna eithin i'w swper, ond rhoddi bwyd gwell iddynt yn y dydd. Os na bydd carrots, pytatws, neu swedes yn cael eu rhoddi i'r ceffylau, dylid rhoddi bran iddynt, naill ai yn ddyddiol neu bob tridiau. Ysgydwer ychydig o halen uwch ben eu hymborth wedi ei dori. Lleithier eu bwyd cyn ei roddi iddynt. Y mae rheswm mor gryf hefyd dros yr anhawsder i ddyweyd faint o swm i'w roddi i bob un o flawd. Geilw cyfansoddiad un ceffyl am chwaneg na'r llall. Bydd y gwaith hefyd, weithiau, yn fwy caled; yr hyn a ofyna am gadwraeth well. Rhaid i'r

perchen, neu ryw un dano, arfer ei synwyr. Y mae hyny yn wirionedd pwysig i'r ffermwr, mai y ffordd ddrutaf o bob un yn y diwedd i gadw ceffyl ydyw ei borthi yn wael, a'i gadw yn Hyd y gellir, cadwer ceffylau gwedd i mewn nes y gorphenir hau maip: bydd yn well er eu lles, ac yn rhatach. Ffacbys wedi eu tori, gyda gwair neu wellt, heb ond ychydig neu ddim blawd, a wna y pryd hwn. Wyth awr ydyw yr amser cyffredin i weithio ceffyl-pedair awr bob daliad, a dwy awr i bori rhyngddynt; ond dan amgylchiadau pennodol, gyda chadwraeth dda, gall weithio deng awr. Dylai yr ystabl fod o uchder da; ac er mwyn hyny, gwell ei bod heb lofft. Goreu, hefyd, ydyw fod pob ceffyl wrtho ei hun, ac nid dau yn yr un Yn niffyg hyn, cafwyd rai gweithiau ddau geffyl gwerthfawr wedi myned ar draws eu gilydd, a marw. Dylai y stôl fod o bedair troedfedd a hanner i chwe throedfedd o led. rhoddi pen-ffrwyn (head-collar) i sicrhau y ceffyl yn fwy diberygl na strap am ei wddf. Dylai fod ffenestri yn yr ystabl, i'w cau a'u hagor.

FFURF Y GWAHANOL FATHAU O GEFFYLAU.

Wedi i'r ceffylau trymaf, megys y Lincolnshire, &c., gael eu troi heibio, y mae amryw o'r un rhywogaethau yn angenrheidiol i'w cael yn y naill a'r llall o'r mathau o geffylau yr ydym yn eu cadw; megys pen bychan, llygad mawr gloyw, pedair coes o nerth priodol i bwysau y corph, codiad da yn yr ysgwydd, ac oddi yno ar ddull bŵa at y glust—y balfais ar osgo o'r ysgwydd i'r frest—cymmalau y coesau yn fawrion, a'r carnau yn iach, safiad y ceffyl yn syth uwch ben ei goesau blaen—nerth yn y goes flaen dan ben y glin, y carnau yn fawrion ac ar ddull cwpan, yr asen yn wastad âg asgwrn pen y glun—a'r goes yn llydan, ond yn deneu.

Ond gwahaniaetha eu rhagoriaethau mewn rhai manau. Dylai ysgwydd ceffyl ysgafn godi yn uwch nag un ceffyl gwedd. A dylai y frest a'r morddwydydd fod yn rymusach gan geffyl gwedd yn ol uchder a grymusder ei gorph, nag y dylent fod gan geffyl ysgafn. Fel y mae llong heb lawer o led ynddi yn symmud yn gyflymach nag un wahanol, felly y mae ceffyl heb lawer o led ynddo. Rhagoriaeth werthfawr hefyd mewn ceffyl ysgafn ydyw fod yn symmud yn hoyw, ac yn balchīo mewn cael symmud.

Edrycher am ei gael yn codi'ei draed yn esmwyth, hyf, a naturiol, heb wneyd hyny yn rhy uchel nac yn rhy isel. Peth a ddengys lawer o dymmer a gwerth pob math o geffylau yw y modd y byddant yn chwareu y glust a'r gynffon.

GWARTHEG.

DYMA y dosbarth mwyaf pwysig i Gymru o'r holl dda byw. Gwerthir mwy o werth arian o wartheg o honi nag o un math arall o anifeiliaid; ac mewn rhai rhanau, fwy nag o bob math arall ynghyd. Hefyd, gwneir llawer oddi wrth wartheg heb law trwy eu gwerthu. Mewn rhai dosbarthiadau o'r wlad, lle y mae y tir o natur ysgafn, ond isel a ffrwythlawn, dybynid, hyd yn ddiweddar, am o leiaf hanner yr ardreth oddi wrth haidd; ond yn awr y mae ymenyn wedi cymmeryd ei le. Mewn dosbarthiadau ereill, gwneir caws, yn lle codi gwenith. Gellid meddwl fod gwartheg, a'r hyn a wneir oddi wrthynt—yn llaeth, ymenyn, a chaws—yn dyfod yn gymmaint mewn gwerth a'r hyn a wneir oddi wrth yr holl anifeiliaid ereill ynghyd trwy Gymru. Yn ngwyneb hyn, naturiol ydyw fod y meddwl yn deimladwy o'r pwysigrwydd sydd mewn gosod ein hamaethwyr ar yr iawn gyfeiriad gyda pheth penaf eu bywioliaeth.

EU DETHOLIAD.

DEALLIR wrth hyn, yr ymchwiliad i'r gwahanol rywogaethau o wartheg, fel ag i ddewis yr un fydd oreu. Wrth gyferbynu Prydain yn awr â'r hyn oedd ganrif yn ol, y mae yn amlwg fod yma lawer llai o nifer o rywogaethau o wartheg na'r pryd hwnw. Fel y daeth y naill ran o'r wlad yn gydnabyddus â'r llall, cawsant fantais i weled pa fath wartheg oedd yn talu oreu, a pha rai o'r rhywogaethau yr oedd yn fanteisiol ymdrechu i'w gwella. Y prif raniad mwyaf priodol ar y rhywogaethau y parheir i'w maentumio hyd yn hyn yw, y rhai priodol i'n hiseldiroedd, ar rhai sydd gymmhwysaf i'n hucheldiroedd. Yn perthyn i'r

blaenaf y mae y Short-horn, yr Hereford, y Devon, yr Ayrshire, a'r Guernsey, neu yr Alderney. Yn perthyn i'r olaf y mae gwahanol rywogaethau caledion Ysgotland, a'r gwartheg Cymreig. Yr oedd pymtheg, neu ugain, neu ragor o rywogaethau yn perthyn i iseldiroedd Prydain; megys y Long-horn, y Sussex, y Suffolk, &c., a gallai fod ychydig yma ac acw wedi eu cadw yn weddol bur hyd heddyw; ond ceir llawer wedi eu croesi â'r naill neu y llall o'r rhywogaethau mawrion, yn enwedig y Short-horn. Ond wrth gymmeryd golwg gyffredinol ar wartheg Lloegr ac iseldiroedd Ysgotland y dyddiau hyn, gwelir eu bod yn prysur ymgolli i'r tair prif rywogaeth fawr; sef, y Short-horn, yr Hereford, a'r Devon.

Y GWARTHEG BYR-GORN.

RHENIR y gwartheg byr-gorn yn awr i ddau fath:—y Short-HORN CYNTEFIG, neu yr Holderness, neu yr Yorkshire, a'r rhai a WELLHAWYD (improved). Prin y mae yn briodol arfer y gair "cyntefig" am un math o wartheg byr-gorn; canys nid llawer o ugeiniau o flynyddoedd sydd wedi myned heibio er pan sefydlwyd y rhywogaeth, trwy groesi gwartheg a ddygwyd drosodd o Holland gyda gwartheg o ranau gogledd-ddwyreiniol Lloegr. Cafwyd drwy hyny wartheg mawrion-y corph yn ddwfn, a lled rhagorol ar y lwyn. Trwy gael digon o fwyd da, tyfant yn gynt, ond odid, nag un rhywogaeth arall. Ni phesgant y pryd hyny gystal a'r Hereford. Cawsant y gair o roddi llawer o laeth, ond nid llawer o ymenyn. Eu lliw cyffredin oedd coch, â darnau gwynion, mwy neu lai, ar hydddynt; ond weithiau gwynion, â darnau cochion yn eu britho. Ceid ereill yn gochion bron oll; ac ereill, drachefn, bron yn wynion. Y gwartheg hyn sydd benaf yn muchesydd sir Gaer; a diammheu mai o honynt hwy y cymmerwyd mwyaf ymaith gan yr haint; ac nid ydyw yn annhebyg fod y tynerwch y dygwyd y gwartheg hyn iddo, trwy or awydd am eu cael i odro yn dda, ynghyd â'r dull o'u cadw, wedi eu gwneyd yn fwy darostyngedig iddo. Croesir y rhai hyn yn fynych â gwartheg AYRSHIRE; y rhai ydynt o liwiau cyffelyb, ond yn llai-yn galetach, yn fyrach eu coesau, ac yn dewach eu llaeth, & llawn cymmaint o hono. Y mae y groes hon at fuches yn gryn wellhad ar y Short-horn cynterig. Nid ydyw y naill na'r

llall o'r rhai hyn yn pesgi yn fuan, ac nid ydyw eu cig ar ol pesgi yn cyrhaedd rhagoriaeth. Y mae yr Improved Shorthorn wedi eu dewis allan o'r rhai cyntefig, a'u dwyn yn mlaen gyda gofal rhyfeddol, ar gyfrif eu bod yn meddu y rhagoriaethau sydd yn dwyn yr anifail i besgi yn well, ac o angenrheidrwydd sydd yn rhoddi iddo ymddangosiad gwell; megys clun braff neu dew, coes fain, lled da trwy y corph, a chroen ystwyth o deimlad melfedaidd. Ond y mae meithrinwyr y gwartheg hyn wedi myned mor bell yn eu hawydd am ragoriaethau at besgi, nes colli golwg ar werth cymmhwysderau at laeth, fel erbyn hyn y gellir yn ddibetrus ddyweyd nad oes gwartheg yn Mhrydain mwy ammhwrpasol i'w cadw at laeth na hwy.

GWARTHEG HEREFORD.

Y MAE gwartheg HEREFORD o liw coch lled dywyll, a thalcen gwyn, ynghyd â rhes wen ar yr ysgwydd am tua hanner llath pan fydd yr anifail mewn cyflawn faintioli, a'r pwrs a than y bol yn wyn. Ychydig o laeth a roddant, ac am ychydig o amser; ond y mae llawer o ymenyn ynddo. Dygir y rhywogaeth hon a'r IMPROVED SHORT-HORN i ymgystadliad â'u gilydd yn fynych gan eu perchenogion. A digon anhawdd penderfynu pa un o honynt, fel gwartheg mawrion, hardd, a pharod i besgi, sydd oreu. Gyda golwg ar y cymmesuredd sydd yn gwneyd i fyny harddwch, digon tebyg mai yr Hereford a ragora.

¹ Yn achos yr *Improved Short-Horn*, yr hyn yr ymdrechir fwyaf at ei gyrhaedd yw early maturity, neu addfedrwydd cynnar—y parodrwydd cynnaraf sydd ddichonadwy i'r farchnad gig. Ac y maent wedi cyrhaedd hyn o amcan i raddau rhyfeddol; eithr y mae lle i ofni iddynt ei gyrhaedd ar draul colli cryn lawer o galedwch ac iechyd.

³ O ran ei ddullwedd a'i harddwch, ac yn enwedig yn mhrydferthwch ei ben a'i lygaid, y mae yr Improved Short horn yn rhagori rhyw ychydig ar yr Hereford; ond y mae yr olaf yn gwasgu yn agos iawn ar sodlau y llall o ran addfedrwydd cynnar, tra y mae yn rhagori cryn lawer arno o ran caledwch ac iachusrwydd cyfansoddiad (strength of constitution). Ewch i fucheslle y cedwir ugain o fuchod Hereford, a chewch weled ugain o loi, ugain o flwyddiaid, &c. Ond mewn buches o ugain o'r Improved Short-horn, da iawn os gwelwch bymtheg o loi. Y mae eu perchenogion wedi troseddu yn erbyn cyfreithiau anian, trwy gadw yn rhy agos at yr un teulu; a'r canlyniad di-os yw, niethiantrwydd cyfebru a gwaeledd iechyd. Gwelir yr un peth yn union hefyd yn amryw o deuluoedd brenhinol Ewrop.

Y DEVON.

Y MAE y Devon yn dra thebyg i'r Hereford o ran lliw a ffurf, ond fod y talcen a'r ysgwydd yr un lliw a'r holl gorph, sef coch tywyll. Y maent yn hytrach yn well am odro, ond nid oes lawer o wahaniaeth.

Crybwyllwyd cymmaint am yr Ayrshire ag sydd briodol i gylch y sylwadau hyn.

GWARTHEG YSGOTLAND.

Y MAE gwartheg caledion Ysgotland yn cynnwys amryw o rywogaethau; ond nid oes ond dwy, heb law gwartheg bychain yr ynysoedd, y gellir barnu y cedwir hwy yn barhaus yn eu purdeb, sef yr Argyle a'r Galloway:--y cyntaf yn gorniog, a'r olaf yn fach; a llwydion a duon yw eu lliwiau. hefyd fwy nag un rywogaeth o wartheg duon-rhai moelion, a rhai corniog—yn Aberdeenshire a'i thueddau. Gwerthid cannoedd o honynt, flynyddau yn ol, yn ffeiriau canolbarth Lloegr; ond croesir hwy y pryd hyn gymmaint gyda'r Short-horn, fel y mae gwartheg o'r rhywogaethau hyn, yn eu purdeb, yn brin.

Y GALLOWAY:—Y mae llawer o debygolrwydd¹ yn ffurf y GALLOWAY I'r IMPROVED SHORT-HORN; sef, corph dwfn, heb fod yn hynod o hir, lwyn lydan, a choes fer. Ychydig hefyd o laeth

a rydd y naill fel y llall.

YR ARGYLE:—Y maent yn debyg, o ran lliw a ffurf, i wartheg Cymru; ond ni roddant hwythau ond ychydig o laeth.

Gellid yn ddigon priodol, cyn belled ag y mae ffurf yn myned, wneuthur dau brif ddosbarthiad o'r rhywogaethau hyn. y Short-horn, yr Ayrshire, y Galloway, a gellir chwanegu y

Eithr y mae un peth arall i sylwi arno, wrth gystadlu yr Improved Short-horn â'r Hereford. Yn siroedd gogledd-ddwyrain Lloegr, lle y mae llai o wławogydd, y mae y cyntaf yn llwyddo, tra yn y siroedd deheuorllewinol yr olaf sydd yn gwneyd oreu. Y mae trefn Rhagluniaeth yn dynodi pob un i'w sefyllfa briodol; a dylid sylwi yn astud ar y drefn hon a chadw yn agos ati yn yr hyn oll a wnelom yn yr achos dan ystyriaeth.

Bernir gan rai o'r mwyaf hyddysg yn hanes yr Improved Short-horn, fod aml ddyferyn o waed y Galloway ynddynt. Bydd trwyn llwyd o eiddo y Galloway, ar droiau, yn ymwthio i'r goleu mewn ambell un, er mawr syndod i'r perchenog.

GUERNSEY a'r ALDERNEY, i'w gilydd, i ryw raddau, mewn lliw a ffurf. Gwneir lliwiau y cyfan i fyny o goch, gwyn, a llwyd. Naill ai nid oes ganddynt gyrn, neu y maent yn fyrion, ac y mae cryn debygolrwydd yn ffurf y pen. Y maent hefyd, oddigerth y ddwy rywogaeth olaf, yn meddu lled da ar y lwyn. Y mae gwahaniaeth mawr rhyngddynt at laeth; ond peth a allasai gael ei ddwyn yn mlaen trwy ofal maith oedd hyny.

Y prif ddosbarth arall a gynnwysa yr Hereford, y Devor, 1 yr Argyle, a'r gwartheg Cymreig. Y mae y rhai hyn yn hwy, ond y lwyn heb fod mor lydan; oll yn meddu cyrn, ac yn debyg yn eu cyrn i'w gilydd. Nid oes ond yr olaf o'r rhai hyn yn godro yn dda. Dyna fras-olwg ar brif rywogaethau gwartheg

Prydain.

Y GWARTHEG I'W DEWIS, A'R MODD I'W GWELLHAU.

Y MAE amryw o bethau i'w hystyried tuag at benderfynu y rhywogaeth o wartheg i'w dewis; megys natur y tir, yr hinsawdd, a'r modd goreu i wneuthur arian o'r gwartheg. Y mae tir a hinsawdd Cymru yn ammhriodol i wartheg mawr Lloegr. Ni ddywedir nad allant atteb mewn rhai manau yn Nghymru; ond nis gallant wneyd hyny yn gyffredinol drwy y wlad. A hawdd gweled fod llawer o anfantais mewn i ychydig fanau, yma a thraw, droi at rywogaeth o wartheg na wnant ddygymmod â'r wlad yn gyffredinol. Gyda golwg ar wartheg caledion Ysgotland, y mae yn wir nad oes dim yn hinsawdd na natur tir Cymru yn rhwystr iddynt atteb; ond y mae peth pwysig

¹Y Devon.—Y mae rhywogaeth y Devon yn fwy teilwng o ystyriaeth nag a feddylia llawer un. Er na chyfrifir hwy yn llaethog, y mae eu llaet. yn hynod fras a ffrwythlawn, o'r hwn y ceir y caws gwerthfawr a elwir North Wiltshire. Y maent yn cadw eu tir yn wyneb pob estron yn siroedd Dorset, Wilts, Somerset, ac yn Hampshire, Devon, a Chornwall. Tybir eu bod yn agosach perthynas â hen frodorion Prydain nag un rywogaeth arall. O ran prydferthwch, rhagorant ar bob un arall. Y mae y lloi yn fychain ac yn wanaidd, ond bydd y bustach yn dair blwydd yn werth o 18p. i 20p. Yn mhob ymgystadleuaeth, bydd y Devon bob amser yn mhlith y blaenaf; a bu amryw o first class breeders o'r farn y byddai ychydig ddefnynau o waed y Devon yn hynod lesol er puro ymaith gymmaint o afrywiogrwydd a ddaeth ar wartheg Cymru trwy ymyryd gormod âg estroniaid. Wrth ymdrin â gwaedoliaeth y Devon, yr ydym yn sicr o burdeb, a'r hyn sydd yn llwyr gydweddol a chysson â gwaedoliaeth y gwartheg Cymreig.

² Anfynych iawn y godreuir un o wartheg caledion Ysgotland, sef yr

yn eu herbyn; sef, na roddant ond ychydig o laeth. Yr ydys erbyn hyn yn anocheladwy gan hyny yn rhoddi y flaenoriaeth i'r rhywogaeth Gymreig. Ond gofyniad digon naturiol yma yw, Os y rhywogaeth Gymreig a ettyb oreu yn Nghymru, a ellir dim ei gwellhau trwy groesi? I geisio rhoddi attebiad teg i'r gofyniad hwn, y mae yn rhaid yn gyntaf addef fod lle mawr iawn i wellhau ein gwartheg. Ni wnaed ond y nesaf peth i ddim i'w gwella genym ni, na'n tadau; ac y'mae yn resyn na adawn lonydd chwaith i'r rhywogaeth i'w 'gwellhau ein hun; canys gwerthir cannoedd o'n dyniewaid¹ benywaidd goreu bob blwyddyn allan o'n gwlad; ac ychydig iawn yw y gofal sydd wedi bod genym gyda'r teirw; ac nid oes y fath beth ag achyddiaeth (pedigree) gan na buwch na tharw Cymraeg mewn bod.

Gyda golwg ar groesi i welliant parhaus,2 y mae yn llawer

Argyliaid a'r West Highlands, ond gadewir ylloi i redeg gyda'umamau tra parhao eu llaeth. Pe byddid yn llygadog, gofalus, a chelfydd, gellid pigo allan aml un o'r gwartheg hyn yn meddu ar rinweddau a wnaent lawer o les i Gymru; eithr byddai peth perygl i niweidio ffrwythlondeb llaethog ein brodorion. O blegid heb law magu lloi da, fe rydd y fuwch Gymreig i'w pherchenog o 120 i 160 pwys o ymenyn mewn blwyddyn (heb ganmawl gormod), heb law toraeth o laeth i'r teulu ac i'r moch; yr hyn nis ceir gan nemawr rywogaeth arall o wartheg. Pwngc o anferth bwys yn ein detholiad ydyw hwn.

'Gwerthir ein dyniewaid benyw, neu heffrod blwyddiaid, i fyned i wastad-leoedd Kent. Dywedir y safant yn erbyn ymgyrch y pryfaid yn Romney Mars yn well nag un rhywogaeth arall, ac o'r herwydd y maent mewn dirfawr gymmeradwyaeth. Os troant allan yn gyfio, byddant yn dra gwasanaethgar i'r tyddynwyr a'r mân ffermwyr; os amgen, pesgant yn hynod fuan, a bydd mawr ofyn am danynt yn marchnadoedd Llundain. Y mae hyn o hynodrwydd i sylwi arno:—tra y mae pawb â'i lygad ar heffr Gymreig, ni ofyn neb am heffr Argyle, neu

West Highland, yn Ysgotland nac yn Lloegr.

² Wrth ymdrin â detholiad a magwraeth gwartheg amaethwyr Cymru, dylid sylwi yn lled graff ar ofyniadau y farchnad y danfonir hwynt iddi. Yn meusydd maethlawn Leicestershire a Northamptonshire, gofynir anifail sydd heb fod yn rhy falch i fyw ar y gweddillion a adewir gan y mawrion sydd yn cael blaen y borfa. Rhoddir y mawrion hyn i fyny i besgi yn gynnar, fel y byddont yn barod erbyn diwedd y flwyddyn a'r farchnad Nadolig; ond rhaid i'r Cymro ymfoddloni ar y gweddill a geffir ar eu hol': ac, a dyweyd y gwir, y mae hyny yn llawer amgenach na dim a brofodd gartref, fel na raid cwyno mo'r cymmaint os â y Cymro, draan, yn "hwnt y gweddillion." Yr hyn sydd eisieu yw anifail rhwydd, yn barod i gymmeryd yr hyn a roddir iddo, ac yn ddiolchgar sm dano. Dyna ydyw yr eidion Cymreig, a dyna yr hyn sydd yn peri iddo y fath gymmeriad yn marchnadoedd Lloegr. Pan ddaw y porthmon o Loegr i ffeiriau Cymru, a'r Cymro yn cynnyg iddo rhyw grâch Shorthorn, neu Hereford, ei attebiad dinam fydd, "O! na: nid oes arnaf mo'r chwant iddynt—y mae genyf rai llawer gwell o'r fath yna gartref—eisieu Welsh Runts sydd arnaf fi." Ein doethineb ni, gan hyny, yw darparu eidionau

haws ei wneyd nag ydyw croesi i gael gwell anifeiliaid am unwaith, neu am un groes. Er enghraifft:—pe rhoddid tarw o rywogaeth Hereford, Devon, neu Argyle, gyda buches Gymreig, digon tebyg y ceid lloi yn rhagori mewn ffurf ar y lloi a geid

(bustych) Cymreig o'r fath mwyaf prydferth, tlws, a ffrwythlawn, ac ni a fyddwn yn sicr o bris da am danynt, tra mai anhawdd fydd gwerthu rhyw anifail mawr, esgyrniog, diraen, a digymmeradwyaeth. Gallwn fagu y rhai o'r fath gyntaf i berffeithrwydd, tra y byddwn ar ein goreu i gadw y

lleill yn fyw.

Gyda golwg ar groesi gwartheg Cymru â rhyw rywogaeth arall, dylid penderfynu cyn cychwyn pa fath ddyben pennodol yr ydym yn amcanu ei ddwyn yn mlaen; sef, laf, Ai mewn golwg at welliant parhaus? neu, 2il, At welliant yn yr eppil cyntaf, neu y groes gyntaf? Y mae y ddau amcan hyn yn llawer pellach ar wahân nag y tybia yr anystyriol neu yr anghelfydd. Wrth ymdrin â'r fath bwngc, daw yn fuan i'r golwg y rhaid wrth egwyddorion sylfaenol, ac ymarferiad celfydd a gofalus. Heb y rhai hyn ni cheir ond rhyw gymmysg damweiniol, ac yn debygol llwyr

annhebyg i'r disgwyliad.

Fel egwyddor sylfaenol, ni cheir yr un mor gryno a'r hyn a ettyb i ddywediad Paul; sef, "Na ieuer yn anghymmharus;" sef yw hyny, mewn golwg at y pwngc dan sylw, y dylai fod rhyw gymmaint o gyffelybiaeth anian rhwng y ddau deulu—rhyw ymdynfa fel pettai o'r naill anian at y llall—rhyw gyssondeb a chydweddiad anian. Y mae yr awduron Saesnig a draethasant ar y pwngc, heb un eithriad, yn hollol wrthwynebol i'r hyn a alwant yn violent cross; sef, croesi dau anifail llwyr annhebyg i'w gilydd. Dan y fath achlysur, ni'wyddys ar y ddaear pa fath fydd y canlyniad. Pe rhoddid ceffyl thoroughbred at gaseg wedd, fawr, â choes flewog, ofer fyddai disgwyl eppil hanner ffordd rhwng y ddau—yn meddu ar ysbryd "a chyflymder y thoroughbred, a nerth y gaseg wêdd; eithr yn hytrach, yn ol profiad cyffredinol, caffai un yn meddu ar wallau pob un o'r ddau, sef marweidd-dra y gaseg wêdd, a gwendid y thoroughbred. Trwy hir brofiad, ymddengys rhywbeth lled gyffelyb fel pe bae yn reddf anian, ac ofer ydyw myned yn ei herbyn.

Yn achos croesi gwartheg, gwelir hyn o reddf yn dra eglur wrth groesi y Short-horn â gwartheg Cymru. Wyth waith o ddeg, eppil heglog, cul, ystyllenog, rhywiog, meddal, ammhrydferth, a geir heb fawr o un math o rinwedd ar ei ran. Pe yr elid yn mlaen â'r groes, fe allai yr amlygid rhyw rai o'i rhinweddau mewn rhai cenedlaethau; ond y mae yn ormod

antur disgwyl am danynt.

Yr unig beth tebyg i eithriad yn hyn o bwngc ydyw croesiad merlen mynydd â cheffyl thoroughbred. Ar y fath achosion, nid anfynych y ceir llwdn prydferth a gwasanaethgar. Ond dylid sylwi, y bydd y ferlen fynyddig yn fynych yn ymdebygu cryn lawer i'r thoroughbred. Y mae ganddi ben mor fychan, yn ol ei herwydd, ag yntau, ac mor fain a phrydferth, ynghyd â choesau mor lân, a llygaid mor fywiog; ac nid yw fymryn yn ol o ran ysbryd a meddwl, fel y dywedir. Yn eu porthiant a'u triniaeth y maent yn gwahaniaethu, yn hytrach nag yn eu dull a'u hansawdd. Y mae y ferlen, fe allai, yn cadw lawn mor agos at ddull ac ansawdd cyndad cyffredinol y ddau; ac felly, nid oes gymmaint o wahaniaeth anian rhwng y ddau.

Gyda golwg ar groesi gwartheg, gellir sylwi, nad oes gymmaint gofyn

oddi wrth darw Cymreig; ond cyttunir yn gyffredinol nad ydyw hyny i'w ddisgwyl ond yn y croes cyntaf yn unig—yr hyn a droai yn anghyfleusdra mawr i feithrinwyr anifeiliaid. Y mae yn wir fod rhywogaethau newyddion wedi eu sefydlu trwy groesi; megys y Short-horn a'r Ayrshire. Ond heb law y meithder amser a ofynid at hyny, yr oedd yn anhebgorol fod rhyw fesur o debygolrwydd rhwng y pleidiau. Methwyd, er gwneyd ymdrechiadau nodedig, a bod yn llwyddiannus wrth groesi y Short-horn gyda'r Hereford, am fod y gwahaniaeth rhwng y ddwy rywogaeth yn ormod. Wrth groesi, hefyd, dylid gochel peryglu colli un o'r prif ragoriaethau perthynol i'r

am gyffelybiaeth anian pan yn croesi tuag at wellhau y cymmhwysderau at laeth; canys bydd buwch o darddiad croes yn fynych yn dra llaethog; ac mor bell a hyny, geill atteb y dyben yn lled dda. Ond pan eir i groesi am fustych, ceir fod bustach croes yn cael ei "gwlio," fel y dywedir, yn gyntaf un. Nid yw yn atteb i ofyniad y porthmon. Nid ydyw yn meddu ar y rhinweddau hyny a ddisgwylir yn y Welsh Runt; ni chyflawna ei orchwyl yn meusydd Leicester a Northampton, a bydd yn anharddu y lot, ac yn siomi 'v prynwr. Fel mai "nid wrth ei phig y mae prynu cyffylog," felly nid yn ol ei faintioli y mae y porthmon yn dewis bustach; eithr yn ol ei addasrwydd i'r farchnad y budd a wnelo efe â hi. Dylai pob un, felly, ddarparu at ei farchnad briodol. Gwartheg tlysion, prydferth, corphorol, troedfyr, â chroen maswaidd a llygaid gloyw, a gais y porthmon; ac mewn golwg at rai o'r fath hyny y dylem ni yn Nghymru ymestyn.

A'r fath nod genym gogyfer 'â'n llygaid, yn mha fodd y dylem ni ymdrechu? Ai trwy groesi y gwartheg sydd ar ein llaw âg ereill o darddiad estronaidd? neu trwy adgyweirio, gwella, ac adferyd i'w pherffeithrwydd cyntefig yr hen frodorion sydd at ein llaw? Os y cyntaf, dylid cadw yn ochelgar ac yn ofalus at yr egwyddorion a grybwyllwyd uchod gyda golwg ar groesi. Yn mhlith yr estroniaid, nid oes ond tri theulu a all, mewn modd yn y byd, gydweddu â'r egwyddorion crybwylledig; sef, 1. Yr Hereford: 2. Y Devon; ac yn 3. Y Scotyn. Am yr Heerjord, anifail trwm, troedfyr, hynod iach, caled, a ffrwythlawn (tyfadwy) ydyw, ac o addfedrwydd hynod o gynnar. Y mae y bustych tair blwydd oed yn cyrhaedd o 25p. i 28p., yn hynod am besgi, eithr yn mhell ar ol y Cymreigyddion o ran llaetha. Y mae ynddynt, yn ddiau, beth perthynas â hen frodorion Prydain, ac nis gellir eu cyfrif fel yn llwyr anglymmarus; ond y mae y diffyg o laeth yn beth pwysig yn eu herbyn. Am y *Devon*, y mae ynddo gryn lawer o ymdynfa at y Cymro; o herwydd, yn ddiammheu, ryw gyd-darddiad dechreuol. Wedi hir ymgynnefino â hinsawdd dyner y deheu-orllewin, y mae peth gwall caledwch ynddo. Am hyny ni chydweddant â ffermydd uchel oerion. Am ffermydd o'r fath olaf, nid oes un estron mor dda a'r Scotyn; sef, yr Argyle a'r West Highland. Y mae bronf yr un a'r Cymro; yn fwy digymmyrg a phurach a ran gwaedoliaeth, fel nad ymddengys byth ynddo un amliw o fastarddiaeth. Y mae yn hynod o galed ac iach, yn gallu byw a llwyddo lle y trenga ereill o wir newyn, ac yn hynod addas i ffermydd mynyddig. O ran llaeth, y mae y buchod hyn hefyd gryn lawer ar ol y rhai Cymreig, ac y mae yr eppil o lai gwerth yn ol eu hoedran.

rhywogaeth y bwriedir ei gwellhau drwy hyny. Ac yn hyny cyfarfyddir â'r hyn sydd yn rhwystr anorfod i wella y rhywogaeth Gymreig trwy groesi. Y mae yn perthyn iddi ddwy brif ragoriaeth, sef cymmhwysder at besgi, ac at odro-yr hyn ni cheir i'r un graddau gan un rywogaeth arall sydd yn Mhrydain. Nid ydym yma yn dal allan y pesga y rhywogaeth Gymreig mor fuan a'r Improved Short-horn, yr Hereford, a'r Devon; ond pesgant mewn cyn lleied o amser a gwartheg caledion Ysgot-Ac y mae yn hysbys hefyd y bydd cig gwartheg Cymru, a rhai caledion Ysgotland, gymmaint yn chwaneg o werth nag eiddo y rhywogaethau mawrion, am fod y brasder¹ yn rhedeg trwyddynt, yn lle crynhoi i ychydig fanau ar y corph, fel y talant am yr amser chwanegol i besgi; ac, ar y cyfan, nis gellir cael un rywogaeth a dâl yn well at besgi na'r un Gymreig. Ac y mae yn llawn cystal hefyd yn ei rhywogaeth at laeth, o ran swm a gwerth, ag ydyw at hesgi. Gellir cael cyflawnder o dystiolaethau am hyn gan rai sydd yn cadw buchod ar ymylon ein trefydd, ac oddi wrth berchenogion buchesydd mawrion yn siroedd Dinbych, Fflint, a Chaerlleon. Y mae vn eglur, gan hyny, nas gellir croesi y rhywogaeth Gymreig heb golli trwy hyny y naill neu y llall o'r ddwy brif ragoriaeth. â'r HEREFORD, y DEVON, neu yr Argyle, a chollir y cymmhwysderau llaethog. Croeser hi o'r tu arall â'r Short-horn cyntefig, neu yr Ayrshire, a chollir ei rhywogaeth at besgi. Ond heb law hyny, y mae gormod o wahaniaeth ffurf rhwng y gwartheg Cymreig a'r Short-horn a'r Ayrshire, fely ceid yr un rheswm yn erbyn eu croesi ag sydd yn erbyn croesi y rhai hyn gyda yr HEREFORD, y DEVON, neu yr AYRSHIRE. Y tair rywogaeth olaf hyn, mor bell ag y mae a fyno y peth â ffurf yr anifail, ydynt yr unig rai y gellir croesi gwartheg Cymreig â hwy: ond collid drwy hyny y rhagoriaeth at laeth—yr hyn sydd yn un o'r pethau mwyaf gwerthfawr. Ond os nad ellir gwellhau ein gwartheg trwy groesi; ac os oes, fel yr awgrymwyd, eisieu eu gwellhau, pa fodd y mae i ni wneyd hyny? Cyn cynnyg atteb y gofyniad hwn, priodol ydyw sylwi ar un anhawsder yr edrychir arno gan rai fel rhwystr mawr, os nad anorfod, i wellhau ein gwartheg; sef, yr anhawsder, os nad yr ammhossiblrwydd, i gael y rhywogaeth yn bur i ddechreu ei gwellhau. 2 Dywedir y

¹ Y maent yn fwy brithfras drwyddynt nag unrhyw rywogaeth arall, oddigerth y *Devon*, yr hwn sydd yn rhagori yn hyn o bwngc.

³ Am wall pureidd-dra yn y gwartheg Gymreig o'r dyddiau hyn, y mae yn ddiau yn beth rhwystr i gyflymder gwelliant, ac a bâr siomedigaeth ambell dro. Eithr nid ydyw yr ammhuredd mor drwyadl ag i fod yn

teimlai un o'n tirfeddiannwyr mawrion gymmaint oddi wrth yr anfantais hon, fel y cynnygiai fil o bunnau am darw y cawsid sicrwydd y buasai y rhywogaeth Gymreig yn bur ynddo. Ac o'r

rhwystr anorchfygol. Yn ddiymwad, y mae golwg llawer mwy puraidd ar y gwartheg a welir yn awr mewn ffair nag oedd ddeng mlynedd ar hugain yn ol. Ac y mae dau achos yn peri hyn :--Yn laf, Y mae llawer llai o wartheg Gwyddelig yn dyfod i'n gwlad nag oedd hanner can mlynedd yn ol. Yn yr amseroedd hyny, pan y cludid gwartheg yr Iwerddon tua marchnadoedd Lloegr, mynych y digwyddai y methai y llong hwylio a chyrhaedd y porthladd a ddymunai, ac y gorfyddai iddi dirio ei llwyth o bedwar i chwech ugain o fuchod yn Nghaergybi, Porthdinlleyn, neu ryw borthladd yn Ngogledd Cymru; ac yna prynid ainl un ar ei thaith i Loegr, a thrwy hyny ammhurwyd cryn lawer ar wartheg y Gogledd, ac yr ydym heb lwyr ymadael â'r ammhuredd hyd heddyw. Ond nid ydyw ffynnonell yr ammhuredd yn parhau, o herwydd fod y steamer yn awr yn cludo ei llwyth yn rheolaidd, a'r ffordd haiarn yn myned âg ef i eigion Lloegr heb gyffwrdd â'n gwartheg ni. Ac heb law hyn, daeth ein ffermwyr i weled, trwy brofiad, nad ydyw y bustach esgyrniog, estronliw, er yn fawr, yn boddhau mo'r porthmon, a'i fod felly yn peri niwed i harddwch a gwerth y lot. O blegid hyn, gwerthir y llo o waedoliaeth ammhur i'r cigydd, a thrwy hyny y mae gwelliant yn cymmeryd lle o angenrheidrwydd. Yn 2il, Y mae y rhywogaeth Gymreig, fel pe bae yn eiddigeddu dros ei phuredd a'i chymmeriad ei hun, yn dwyn egwyddor weithgar a diorphwys o'i heiddo ei hun er adferiad ei phuredd cyntefig. Ni a wyddom oll, ysywaeth, gymmaint tynfa sydd ynom ni at yr hen anian lygredig a etifeddasom oddi wrth yr Adda cwympiedig. Mewn dull cyffelyb y mae yn mhob rhywogaeth sefydlog dynfa gref at ei hanain gyntefig—y mae egwyddor o ymburo ac o ymadael â gwaedoliaeth estronol yn ddiorphwys ar waith. Ac felly, trwy absennoldeb y ffynnonell ammhur o waedoliaeth Wyddelig y cyfeiriwyd ati, y mae gwartheg Cymru yn ymburo o ddydd bwy-gilydd; ac y mae yr anhawsder o gael sylfaen bur i adeiladu arni beunydd yn diflanu. Y mae yr hwn sydd yn chwennych dwyn gwelliant yn ngwartheg Cymru felly yn sefyll ar well tir nag a feddyliai llawer un. Y mae hyn, hefyd, i sylwi arno fel rhan ddieithriad o'r egwyddor uchod; sef, mai po hynaf a mwyaf sefydlog y byddo rhywogaeth, yno y mae y dynfa at ymburo i'w chanfod gryfaf, fel pe mynai gael yr oruchafiaeth. Na lwfrhaed y Cymro uchelgais, ynte: eithr eled rhagddo yn galonog yn y gorchwyl clodwiw o adferyd da byw ei wlad i'w phuredd cyntefig, ac i uwch parch a chymmeradwyaeth yn meusydd maethlawn Lloegr:—ond ymosoded ar y gorchwyl yn bwyllog. Chwilied am ddefnyddiau da a phur, i'w gosod fel sylfaen. Boddloned ar fuwch neu darw lled fychan, canys yn mhlith y bychain y ceir y puraf; a thrwy gadwraeth dda, hwy a gyrhaeddant i ddigon o faintioli. Gocheled bwrs du, a chŵd du: gocheled hefyd, hyd fyth y gellir, liw gwyn yn un lle oddigerth y pwrs, ac ychydig o dan y bol. Arwydd o ammhuredd ydyw pob gwyndra arall; ïe, hyd yn oed y smotyn gwyn a welir yn fynych oddi mewn i gammeid y gâr. Y mae yn arwydd sicr o waedeliaeth y Long-horn; yr hyn, y rhan fynychaf, sydd yn gyfystyr & Gwyddelig.

Trwy gadw y gocheliadau uchod mewn golwg, a bod yn bwyllog a gofalus, nid ydyw y nod mor anhawdd i'w gyrhaeddyd,

tu arall, edrychai ar yr annhebygolrwydd o'i gael yn ddigon o achos i anobeithio gwellhan ein gwartheg heb eu croesi. dylid cofio, fod yn perthyn i bob gwaith pwysig anfanteision i ddechreu, a bod yn rhaid, er cyrhaedd yr amcan, benderfynu myned yn mlaen er eu gwaethaf. Pan ddechreuwyd puro rhai o'r prif rywogaethau o wartheg, megys y Short-horn a'r Ayrsire, gwnaed hyny dan anfantais llawn mor fawr a'r eiddom ni yn bresennol; ac yn enwedig pan feddyliom am Bakewell yn gwellhau ei rywogaeth o ddefaid, neu yn hytrach yn ffurfio rhywogaeth newydd, sef y Leicester newydd. Y mae boneddigion a ffermwyr Cymru mewn llawer gwell mantais gyda'u gwartheg nag oedd efe gyda'i ddefaid; ac etto synodd y byd yn ei lwyddiant yn sefydlu rhywogaeth o ddefaid oedd yn meddu rhagoriaethau gymmaint yn uwch na dim oedd mewn bod cyn hyny. Dwy brif ddeddf breedio anifeiliaid yw:-laf, Fod eppil y gwryw a'r fanyw, a ddodir gyda'u gilydd er eppilio, i ymdebygu iddynt:-"Like to beget like," ys dywed y Sais. 211, Fod y sicrwydd am y cyfryw ymdebygiad (ac yn enwedig am dano yn gyflawn) yn yr eppil i'r rhiant yn dibynu yn fawr ar fod hynafiaid y gwryw a'r fanyw hyn yn meddu yr un rhagoriaethau bellder mawr yn ol. Nid yw yn ddigon fod y tarw a'r fuwch yn meddu rhagoriaethau uchel eu hunain. Os oedd eu hynafiaid hebddynt, tebyg yw y bydd eu hiliogaeth hebddynt. Gŵyr y rhai sydd yn gynnefin âg anifeiliaid, fod lliw yn taflu yn mhell iawn yn ol. Bwrier fod i darw du hen nain â rhes wen ar hyd ei chefn: nis gellir disgwyl cael dwsin o loi oddi wrth y tarw hwnw â phob un o honynt hebddi, a chymmeryd nad cedd dim o'r fath yn perthyn i hynafiaid y fuwch. mae ffurf yn hyn yn debyg i liw. Teflir coes hir, lwyn gul, pwrs anffurfiol, &c., yn ol bedair neu chwaneg o genedlaethau. Y mae hyn yn rhoddi golwg ddigalon ar buro y rhywogaeth Gymreig: dengys y rhaid cael amser maith i'w wneyd; ond gwell gwybod yr anfanteision cyn dechreu ar waith mawr. Cyn ei wneyd yn effeithiol hefyd, rhaid myned i ryw gymmaint o draul; hyny yw, rhaid i'r ffermwr fyned ryw gymmaint o'r ffordd y gwna fwyaf o arian mewn lleiaf o amser. Ffordd arbenig i ddangos gwladgarwch fyddai i'n boneddigion flaenori yn hyn. Gallai tirfeddiannydd cyfoethog wneyd mwy mewn deng mlynedd nag a all ffermwr wneyd mewn ugain, am fod yn anhawdd iddo gadw chwaneg nag un neu ddau o deirw ar unwaith; pan y gallai ei feistr tir gadw wyth neu ddeg. Y mae rhyw ffermwr gwledig yn barod i ofyn, 'Yn enw pob rheswm, pa ham cadw y fath nifer o deirw, pan na bydd, hwyrach, gan eu

perchen chwaneg nag o ugain i ddeg ar hugain o fuchod? Ond pe buasai efe yn gwybod pa fodd y gwellhaodd Bakewell ei ddefaid, cawsai allan y rheswm am gadw y fath nifer o deirw. Pe y tynid allan y deg tarw Cymreig goreu yn Ngwynedd, byddai gwahaniaeth yn eu rhagoriaethau; ac wrth roddi y buchod hyny atynt, bydd rhagoriaeth un yn cyfatteb i ddiffyg y llall. Gwellheid ein gwartheg fel hyn lawer yn gynt na phe byddai ond un tarw yn cael ei gadw, pa mor gyflawn bynag o ragoriaethau y dichon hwnw fod. Gallai un tir-berchenog beri, drwy hyn, gyfnewidiad dirfawr mewn rhan fawr o'r wlad. pe nas gellid llwyddo gyda'n boneddigion i ddyfod allan, gallai nifer o ffermwyr mewn cymmydogaeth ymuno i edrych allan am deirw yn gwahaniaethu yn eu rhagoriaethau, yn debyg i'r nifer o deirw a ddisgrifiwyd gan y boneddwr, a myned a'r buchod o'r naill fferm at darw y llall, yn ol y byddai eu rhagoriaethau a'u diffygion yn atteb i'w gilydd. Gallai nifer o ffermwyr fel yna wneyd yr hyn y gallai un tir-berchenog wneyd. 'Pw!' meddai ambell i hen ffermwr, 'rhodres i gyd.' gyfaill; cynllun campus i wneyd chwaneg o arian ydyw. mae meithrinwyr gwartheg caledion Ysgotland, y rhai na werthant ddim yn uwch yn Lloegr na gwartheg Cymru, yn cael o gant i gant a hanner o bunnau am darw yr hynodir ef a'i hynafiad am ragoriaethau uchel. A pha ham nad ellid gwneyd yn gyffelyb yn Nghymru? Wedi cael gwartheg, yn enwog am ragoriaethau y rhywogaeth Gymreig, am bedair cenedlaethhyny yw, pan y gellir olrhain fod hynafiaid y tarw, neu y fuwch, cyn belled yn ol a thad a mam, taid a nain, hen daid a hen nain, gor-hen-daid a gor-hen-nain-oll o ragoriaethau uchel, gellir dywedyd fod y gyfryw yn perchen achyddiaeth, a'i fod trwy hyny yn werth cymmaint ddeng waith at eppilio ag ydyw o ran maint neu bwysau; a hyny am y rheswm mai i'r graddau yr oedd ei hynafiaid yn meddu rhagoriaethau uchel, y gellir disgwyl i'w hiliogaeth fod. Ond pe nad ymgymmerid yn fuan âg un o'r ddau gynllun blaenorol, gall ymdrechiadau unigol ein ffermwyr beri, mewn amser, wellhâd dirfawr ar ein gwartheg, trwy beidio cadw yr un fuwch yn y fuches heb fod yn Gymreig -yn ddu-o ffurf hardd-ac yn godro yn dda. Y mae yn hawdd gwneyd hyny heb i'r un swllt fyned o logell y perchen at ei wneyd—dim ond meddwl am ei wneyd. Peth pwysig iawn arall, mewn ymdrech unigol, ydyw cadw y dyniewaid benywaidd goreu at fuchod, a'u cadw oddi wrth darw nes y byddont o ddwy flwydd a chwarter i ddwy flwydd a hanner oed. Y mae rhoddi tarw yn gynt yn attal iddynt gyrhaedd y maint a'r nerth angenrheidiol.

Wrth brynu tarw, cofier am edrych pa fath fydd ei hynafiaid. Bydd hyny yn hytrach yn fwy pwysig na pha beth fydd efe ei hunan. Dvlid dwyn y ffermwr i gredu mai mantais bwysig iddo ydyw gwellhau ei wartheg Cymreig. Nid peth i wneyd bôst a dangosiad o hono ydyw; ond peth a ddychwel yn ennill iddo. I weled hyn, ni raid ond sylwi ar ddull y porthmyn sydd yn gwneyd oreu wrth fasnachu mewn gwartheg, yn prynu ac yn pigo allan o lotiau. Gadawant yn bur ddiseremoni eidion mawr, sydd yn profi yn ei ddull a'i liw ei berthynas â rhyw rywogaeth Saesnig, a chymmerant Gymro du, bychan, blewog, a byrgoes, yn ei le. Dywedai un o awdwyr enwocaf Prydain yn yr oes ddiweddaf, mai llyfrwerthydd ydyw noddwr penaf awdwr, er fod yn burion cael enw pendefig i'w osod ar y ddalen gyntaf fel un a ganiataodd i'r llyfr gael ei gyflwyno iddo: felly, y porthmon ydyw noddwr penaf y ffermwr gyda'i wartheg. Nid pa rywogaeth sydd yn cyfarfod â fancy gŵr bonheddig sydd wedi dyfod i'w gymmydogaeth i fyw ar ei arian; ond pa un a gymmeradwya yr hwn sydd yn myned â'r gwartheg i Loegr i ennill ynddynt. Dyna ddylai ddylanwadu ar y ffermwr.

Peth pwysig iawn arall tuag at wellhau ein rhywogaeth o wartheg ydyw eu cadwraeth. Gellir eu gwellhau, neu eu gwaethygu, yn fawr drwy y dull o'u cadw. Byddai yn beth hollol ynfyd i un feddwl fod purdeb rhywogaeth yn ddigon i ddiogelu parhâd y rhagoriaethau perthynol iddi yn wyneb cadwraeth ddrwg. Hanner blwyddyn o'r cyfryw gamdriniaeth a all beri anffurfiad ar anifeiliaid ieuaingc am eu hoes, yr hwn a lŷn wrth eu heppil. Y mae hyn yn dwyn i'r golwg beth pwysig iawn, yr hwn sydd yn angenrheidiol tuag at wellhau ein gwartheg; sef, gwasanaethgarwch gwartheg ein hardaloedd mynyddig tuag at hyn. Gyda hwynt y mae y gwellhad i dde-Pe byddai ein ffermwyr mynyddig yn ymdrechu i ddiwyllio eu rhywogaeth, fel ag i'w cyfaddasu i'w tiroedd, byddai hanner y gwaith wedi ei wneyd: o blegid wrth brynu teirw ieuainge, a heffrod at fuchod, o le uwch, cynnyddant, a deuant yn harddach hefyd wrth gynnyddu. O'r tu arall, tro hollol annoeth ydyw prynu tarw neu heffr o le gwell na'r un y dygir yr anifail iddo.

MAGWRAETH A RHEOLAETH.

MAGU LLOI.

PETH anhebgorol tuag at i'r lloi gael magwraeth dda ydyw fod y lle y cedwir hwy ynddo yn gymmhwys iddynt. Ac nid oes un diffyg mwy pwysig yn perthyn i'r adeiladau y cedwir gwartheg ynddynt yn Nghymru na'r un y cyfarfyddir âg ef yma. Dylai lle y lloi fod o uchder da, âg agorfa yn y tô i'r awyr afiach fyned allan, ynghyd â ffenestri arno, i'w hagor a'u cau. Dylai owter hefyd gael ei gwneyd ar hyd gwaelod yr adeilad, wedi ei gwynebu å flags, å rhediad da o honi tua'r tank, neu y pwll gorchuddiedig y cedwir gwlybron gwrteithiol y buarth ynddo. Os bydd weithiau yn cau, gellir codi y flags i'w glanhau. Dylai hefyd fod yn eang, fel y caffo y creaduriaid ieuaingc le i redeg a chwaren: cam â lloi ydyw eu rhwymo. Y mae pob creadur ieuange yn hoff o ryddid. Cadwer y llo i sugno y fuwch am dri neu bedwar diwrnod; yna tyner ef oddi wrth y fuwch, a rhodder iddo lefrith newydd odro (sef blaenion neu laeth cyntaf y fuwch) am tua thair wythnos. Dechreuer gydag ychydig dan, a gorphener âg ychydig dros dri chwart ddwy waith yn y dydd. Goreu ydyw rhoddi llonaid llwy fwrdd o driagl yn y llefrith. Yna cymmysger blawd ceirch heb ei ferwi, a dwfr:--tywallter digon o ddwfr oer arno nes ei wlychu, a chymmysger ef; yna, chwaneger digon o ddwfr cynnhes i'w ddwyn i fod o'r un wres a llaeth o bwrs y fawch. I ddechreu, am dair wythnos, rhodder un chwart o'r llith hwyr a boreu, gyda dau chwart o lefrith. Wedi hyny, am tua mis, dau o lith ac un o lefrith. Yna hyd ei ddiddyfniad (o ddeutu deufis neu debyg), rhodder tri chwart Y mae peint, neu ychydig dros bwys, o flawd ceirch yn ddigen i wneyd chwe ehwart o lith. Dewisa rhai yr un faint o bwysau o deisenau had llin, yn hytrach na blawd cairch. Os felly y gwneir, rhaid malu y teisenau, a rhoddi dwfr berwedig arnynt dros o leiaf ddwy awr mewn llestr cauedig neu orchuddiedig. Ganol dydd, rhodder swedes neu carrots wedi eu pulpio yn mhreseb y lloi, a chymmysger ceirch â hwy. Os bydd gyda'u gilydd nifer o loi, o chwech wythnos hyd bedwar mis oed, bydd tua pheint o'r swedes, a hanner peint o'r ceirch, yn

ddigon ar gyfer pob llo. Dylid tori ar, neu ddyspaddu, y lloi mewn pryd. Ni ddylent gael eu gadael yn hwy na phedwar mis; a goreu fyddai gwneyd yn gynt. Wrth eu gadael hyd ddeg neu ddeuddeng mis, byddant yn ddwyflwyddiaid yn llai o werth o bunt yr un. Nid ydyw tori ar y fanyw y blynyddoedd hyn yn talu, gan fod pris da ar wartheg Cymreig cyfloion. Lle y megir ugain neu chwaneg o loi, goreu fyddai fod dau le i'w rhoddi, rhag i'r rhai ieuaingc gael eu mathru gan y rhai hynaf. Gofaler hefyd am roddi gwair yn y rhesl iddynt. Da os gellir cael buarth o flaen tŷ y lloi, yn gwynebu y dê, er mwyn eu gollwng iddo pan y bydd canolddydd gwresog yn Ebrill, i gael awyr. Ac os bydd modd cael mynedfa o'r buarth i'r cae lle bydd y lloi yn yr haf, goreu oll. O leiaf dylai fod ffordd iddynt o'r cae hwnw i rywle dan dô, i gael myned i mewn ac allan pan y mynont. Lle nad oes bwysau mawr o game, y mae hau ffacpys yn Tachwedd neu Mawrth, a dechreu eu tori o ganol i ddiwedd Mai, yna eu tori yn gymmysg â hen wair, yn gynnaliaeth ragorol i geffylau gwedd a lloi. Gellir hau maip diweddar lyn y tir ar ol eu tori, o ddechreu i ganol Gorphenaf, a chael cnwd da. Bydd adladd buan yn groesawus gan y lloi, a chyn diwedd Medi yn dda iddynt gael lle i fyned i mewn pan ddewisant. Rhodder hefyd o'r pryd hyn, am chwech wythnos, does blawd haidd bob boreu i'r lloi ieuangaf, i feithrin gwres ar gyfer oerni ddiwedd y flwyddyn-tua phwys i bob un. Rhodder gwair yn y rhesl ar adeg o ddrychin yr wythnosau hyn. Os gellir cadw o tua diwedd Medi hyd ddiwedd Tachwedd gae â mynedfa o hono i'r fan lle y porthir y lloi, cedwir hwy yn ystod y gauaf ar o ddeutu dwy ran o dair o'r draul a ofynir i'w cadw hebddo.

O Hydref i Ebrill ya eu blwyddyn gyntaf y mae eu perygl oddi wrth y clwyf byr. Un o'r pethau mwyaf effeithiol i'w ragfiaenu ydyw wns o saltpetre i bob un, wedi ei falu yn fân, a'i roddi mewn papur teneu yn ffurf bawd llaw llafurwr, ac yna ei wthio yn mhell i'r safn, a dal pen y llo nes y byddo wedi ei lyngcu. Gwell ei roddi bob pythefnos; sef, pan y bydd y lleuad yn newid, ac yn llawn. Goreu hefyd fyddai yagwyd halen hyd fwyd y dyniewaid, ac yna ei gymmysgu. Gwair clover a gwellt, wedi eu tori, hanner yn hanner, ydyw yr ymborth goreu a rhataf iddynt y gauaf hwn; a gellir pulpio maip neu swedes iddynt, a'u cymmysgu ynghyd. Neu, gellir rhoddi maip, nyghyd â'r dail, iddynt hyd y cae y byddont yn pori; ond rhaid gofalu am eu bod yn cael eu taenu ddigon ar led, ac ar le glân. Gan y cymmer maip gwynion eu hau yn ddiweddarach, gellir hau o honynt gymmaint ag a ddefnyddia holl wartheg y fferm, oddigerth

y rhai fydd yn pesgi hyd y Calan. Wedi hyny collant mewn gwerth. Fe bery maip melynion yn eu caledwch a'u gwerth drwy y gwanwyn hyd yr amser y bydd eisieu tori y tir i'w hau; a chan y cynnyrchant fwy e ymborth cydweddol â llesiant gwartheg ieuaingc a buchod nag a geir oddi wrth swedes, ac yn enwedig gan na ddifrodir hwy gymmaint gan ysgyfarnogod a chwningod, gwell, mewn llawer man, fyddai codi mwy o honynt. Os gwellt, heb wair, a roddir dros y gauaf i'r lloi, neu y dyniewaid, torer ef, a chymmysger gydag ef ychydig o flawd. Heb wair neu flawd yn gymmysgedig â gwellt, ni chânt ddigon o'r ymborth sydd yn angenrheidiol at eu grymuso. Mewn tir â thuedd gref ynddo at dyfu anifeiliaid, megys Ynys Môn, gwell fyddai rhoddi gwair a blawd yn gymmysgedig â gwellt iddynt. Dygai hyny braffder y corph yn fwy cymmesur âg uchder yr anifail, ac â hyd y goes.

Gyda golwg ar y gwanwyn, os bydd gweirglodd yn perthyn i'r fferm, cadwer hi drwy gydol y gauaf hyd ddiwedd Mawrth; a thröer y dyniewaid iddi hyd y pryd y bydd eu porfa yn barod. Da iawn os bydd mynedfa i'r weirglodd o'r man y bydd y dyniewaid yn cael eu porthi. Bydd ar weirglodd mewn llawn gwrtaith lonaid ei gwyneb o wair erbyn canol Gorphenaf er ei phori hyd ddechreu Mai.

Porfa ieuange sydd oreu i'r dyniewaid yr haf; neu o leiaf, dylent ei chael bob yn ail â hen borfa dda. Peth niweidiol i wellhâd gwartheg ydyw fod defaid neu geffylau yn pori yn yr un fan a hwy. Ond gellir gadael iddynt bori am wythnos wedi symmud y gwartheg. Gwna hyny les i'r borfa erbyn y daw y gwartheg iddi eilwaith. Dylai gael ei chadw am tua phythefnos wedi i'r ceffylau fyned o honi. Ni wna caseg a llwdn, neu ddau ebol, gymmaint o niwed gydag ugain o wartheg, o ganol Gorphenaf yn mlaen. Cynllun rhagorol i bori tir ydyw ei wneyd yn dri dosbarth; a rhoddi gwartheg mewn un—ceffylau neu ddefaid ar eu hol—a'r trydydd i lanhau a thyfu: a'u newid bob pythefnos.

Tuag at i'r ffermwr benderfynu pa hyd i gadw ei wartheg ieuainge, y mae amryw o bethau i'w hystyried; megys maint y fferm—natur y tir—y dull o'i thrin—y farchnad—a thueddiad y ffermwr, &c. Hyd yn ddiweddar, gwerthid ein holl wartheg gwrywaidd i fyned i Loegr i'w gorphen. Ond fel y mae poblogaeth Cymru yn amlhau, a chyflogau y gweithwyr yn codi, yr ydyn mewn angen am lawer iawn mwy o gig gartref. Hefyd, fel y mae cyfleusderau gyda ffyrdd haiarn i anfon gwartheg wedi eu pesgi i Loegr, a mwy o gnydau gleision yn cael eu

codi, ac o oil-cake yn cael ei ddefnyddio, y mae llawer mwy o'n gwartheg yn cael eu pesgi gartref o flwyddyn i flwyddyn. mae hefyd fwy o brynu y naill gan y llall, fel y mae gwedd fwy masnachol ar y byd amaethyddol Cymreig nag a fu erioed. Yn nyddiau ein tadau, cadwai ein ffermwyr goreu bob oed o'u gwartheg yn yr un rhifedi o flwyddyn i flwyddyn; a gwerthent hwy ar yr un adeg i fyned i Loegr—æc yn wastad i'r porthmon. Ond yn awr, edrycha y dynion sydd yn gwneyd oreu o'u ffermydd pa bryd y bydd y pris uchaf, a gwerthant y pryd hyny pa beth bynag fydd yr oed; a phrynant yr hyn fydd eisieu i ddefnyddio cynnyrch y fferm. Ond mewn rhai amgylchiadau, y mae maint a natur y tir yn galw am werthu. Mewn ffermydd go fychain, y mae yn rhaid gwerthu y gwartheg gwrywaidd pan o flwydd i flwydd a hanner oed; ac mewn rhai mwy, cedwir hwy flwyddyn yn hwy. Os porthir hwy yn dda y gauaf, ac os na bydd y tir y maent i bori arno yr haf canlynol yn ddigon da i ateb i hyny, gwell eu gwerthu yn Mai, a phrynu defaid i bori y tir; o blegid wrth bori ar y fath dir, gallai na byddant yn fwy o werth o bunt yr un yn mis Medi nag oeddynt yn y Mai blaenorol. Ond y mae yn ammhossibl gosod rheolau i gyfarfod â phob amgylchiad. Rhaid i'r ffermwr ddefnyddio ei synwyr a'i farn. Pa fodd bynag, gellir cymmeryd y ddwy reol a ganlyn fel rhai sefydlog:—laf, Na ddylid gwerthu y gwartheg heb eu bod mewn gwedd dda; neu, fel y dywedir, "yn edrych yn dda." 2il, Na ddylid eu cadw yn hwy nag y bydd y tir yn briedol i'w dwyn rhagddynt mewn maint a gwedd. Os bydd y gwartheg yn cael eu cadw dros y gauaf pan y byddant yn ddwyflwyddiaid, gwair hen dir fydd oreu iddynt. Cymmerant tuag un ran o dair mwy o faip nag yn y tymmor gauaf o'r blaen.

Os bernir yn oreu pesgi gwartheg, y mae amryw o bethau i feddwl am danynt; megys yr oed. Gynt, ni phesgid ein gwartheg hyd nes y byddent yn bedair blwydd oed; ond y mae cadwraeth dda yn y dechreu yn eu parotoi lawn blwyddyn yn gynt. Os yn y gauaf y gwneir, swedes wedi eu tori yn ddarnau teneuon, neu wedi eu pulpio, y dylid eu defnyddio. Y dull olaf o drin swedes ydyw y goreu, os cymmysgir hwy â gwair wedi ei dori, a blawd. Blawd haidd ydyw y goreu i wartheg; ond gwell fyddai ei gymmysgu âg oil-cake wedi ei falu. Nis gellir gosod rheol, pa faint o'r naill na'r llall o'r pethau hyn y dylid eu defnyddio. Weithiau, bydd y swedes yn brin; bryd arall, yn helaeth. Bydd gwahaniaeth hefyd yn maintioli a thymmheredd y gwartheg. Y mae biswail un yn myned yn rhy deneu wrth fwyta bwyd sydd yn cadw un arall mewn

tymmheredd priodol. Ond i'r ffermwr a'r porthwr fod "â'u llygaid yn eu penau," gallant weled pa fodd i wneyd yn well na phe y gosodid i lawr reolau manwl a phennodol. Ond yn ddieithriad, dylai y preseb gael ei lanhau bob tro cyn rhoddi bwyd ynddo; hefyd, ni ddylai y gwartheg gael chwaneg ar unwaith nag a allant ei fwyta. Dylai y gwartheg hyn gael eu golchi unwaith yn yr wythnos â dwfr a sebon; ac os bydd gweryd yn

codi yn y cefn, golcher y fan hono â dwfr a halen.

Y mae y lle y pesgir ynddo yn bwysig tuag at i hyny gael ei wneyd yn y ffordd oreu. Weithiau, cedwir y gwartheg yn rhyddion, fel y porthir gwartheg ieuaingc; ond gan y gofyna hyn yna lawer o wellt danynt, i'w cadw yn lân, a bod llai o dir yn cael ei droi na chynt, gwell eu cadw yn rhwym. Dylai eu lle fod o leiaf yn ddeunaw troedfedd o led oddi fewn. Ceir felly dair troedfedd o lwybr rhwng penau yr anifeiliaid a'r pared; yna deunaw modfedd o breseb; a bydd y gweddill i gynnwys lle iddynt i sefyll a gorwedd, a llwybr digonol o'r tu ol. 1 fod arno ffenestri hefyd, i'w cau a'u hagor fel y byddo yr hin. Cofier mai un o'r pethau mwyaf pwysig at iddynt besgi yn fuan, ac yn dda, yw cadw pob peth o'u cwmpas yn lân. Os yn yr haf y byddys yn pesgi, bydd yn angenrheidiol, oddi eithr yn nhiroedd goreu Cymru, roddi blawd iddynt, i helpio y borfa. peth goreu ydyw blawd haidd, ac oil cake wedi ei falu; a rhoddi dwfr poeth arno i doddi y gronynau, ac yna eu gwneyd yn does. Arferer ei roddi iddynt cyn eu gollwng i'r borfa; yn glapiau ychydig yn llai na dwrn dyn ar ddull ŵy. Cymmer rhai ef o law, tra y rhaid ei roddi yn safnau y lleill. Mewn wythnos o amser deuant i'w hoffi; ac wedi myned i'r borfa, rhedant i gyfarfod y neb fyddo yn ei gymmeryd iddynt. Gellir rhoddi y ddau flawd hanner yn hanner; neu os bydd pris yr oil-cake yn uchel, doder un rhan o dair o hono. Gwell ei roddi ddwywaith yn y dydd—ac o bedwar i wyth pwys ar y tro, fel y byddo maintioli yr eidion. Etyb ceirch o bossibl cystal ag unrhyw ŷd arall ar y borfa, os gellir cael gan yr anifeiliaid ei fwyta.

CADW BUCHOD.

Pa faint bynag o wahaniaeth sydd rhwng y defnydd a wneir o gynnyrch y fuches, gwell yn mhob amgylchiad ydyw eu cadw

¹ Yr un dull sydd yn briodol i fod ar le buchod.

yn dda. Os gwneir hyny, bydd tua chwech wythnos yn ddigon i'r fuwch fod yn hesb. Os na bydd mewn gwedd dda, dylai gael wyth neu ddeng wythnos. Pan o fewn pythefnos i'w hamser, os i mewn, dylid rhoi chwaneg iddi o'r bwyd mwyaf ffafriol at laeth; megys swedes, a'r gwair mwyaf manteisiol at hyny. mae gwair gwaendir yn gyffredin yn fwy gwresog na gwair tir sych, a'r olaf yn well at laeth. Ond y mae gwair y dolydd goreu yn Ngwynedd yn nodedig hefyd at laeth. Y mae yn rhaid i'r ffermwr farnu yma etto ei hun am gynnyrch ei dir. Fel y dynesa y fuwch at fwrw llo, gadawer hi i fewn trwy gydol y dydd, ond yr ychydig amser, foreu a nawn, y bydd yn cymmeryd dwfr. Os daw y llo yn amser cysgu, ni ddylid ei gadael hyd nes y bwria y brych, neu y wisg oedd am y llo. Os bydd y fuwch yn dangos tuedd i fwrw ei llestr, dylid rhoddi am dani y gengl bwrpasol er attal hyny. Prynir hi am tua deg swllt; a dylai pob ffermwr ei meddu, neu gallai fod cyd-rhwng nifer o ffermwyr bychain. Wedi iddi fwrw llo, dioder hi âg o bedwar i chwe chwart o ddwfr claiar, wedi rhoddi hanner pwys o flawd haidd neu flawd ceirch ynddo, a llonaid llwy fwrdd o halen, a chymmaint arall o driagl. Nid ydyw i fod yn boethach na gwres y gwaed. Goreu, at iddi laetha, po fwyaf y caiff o'r ddiod hon nos a boreu.

Colled ydyw troi buchod blithion allan yn y gauaf, ond am ychydig ganol dydd teg. Bwyder hwy â digon o faip, neu swedes, a gwair da. Cymmerer gofal hefyd rhag rhoddi gormod o faip, rhag eu hoeri. Os bydd amgylchiadau y ffermwr yn galw am iddynt gael mwy na bwydiad y dydd o wellt, torer y gwellt a'r gwair iddynt. Ond os gwneir hyny, rhodder iddynt un bwydiad o wair heb ei dori yn y dydd. Dylid peidio defnyddio y swedes mor lwyr at besgi, neu y mangolds i'r moch, fel na byddo digon o'r naill neu y llall i'r buchod, o'r pryd y derfydd y maip hyd yr amser y trôir hwy i'r borfa. Os amgen, bydd yn golled: o blegid os cyll y fuwch yn ei llaeth yr adeg hon, y mae yn debyg y bydd effaith hyny arni trwy gydol yr haf.

Y mae y rhai sydd yn gwerthu llaeth, neu yn gwneyd caws, ac heb ddibynu ond ychydig ar eu buchod mewn un ffordd arall, yn dueddol i gadw buchod yn rhy dyner, ac i'w porthi â bwydydd sydd â rhy ychydig o ddefnydd nerth ynddynt i'r corph. Y canlyniad yw, nid yn unig y maent yn anhawdd i'w pesgi, ond yn llawer mwy tueddol i gymmeryd rhyw glefyd neu haint fydd yn digwydd bod yn y wlad.

Y FUCHES.

Dibyna pa fodd i ddefnyddio y llaeth ar pa fodd i wneyd mwyaf Mewn lle poblog, ei werthu yn llefrith o arian oddi wrtho. Ond barna rhai y tâl yn well mewn lle o'r sydd yn talu oreu. fath ei hufenu, ac yna gwerthu y llefrith, a chorddi yr hufen. Dibyna hyny etto ar pa un ai am dano yn hufen, ynte yn ymenyn, y ceir mwyaf o arian. Y mae yn rhaid i berchen y llaeth edrych at hyny. Dylid cofio nad ydyw y draul o gorddi hufen Wedi ei ddwyn i dymmeredd priodol, ni chymmer ond ychydig. fwy nag o ugain munyd i hanner awr i'w gorddi. Ond dylid gofalu rhag ei gorddi yn rhy frysiog i ddechreu; gan y gwaethyga hyny yr ymenyn. Os bydd sefyllfa y fferm yn anghyfleus i werthu llefrith, gellir corddi yr holl laeth, neu wneuthur caws â rhan neu â'r cyfan o hono. Yr hen ddull o drin llaeth yn y rhan fwyaf o ardaloedd Cymru oedd gwneyd caws o'r blaenion wedi eu hufenu, a chorddi y rhan oreu o'r llaeth. Wedi i gyflogau ein gweithwyr godi i'r hyn ydynt yn awr, ac i gyflawnder o gaws tramor ddyfod i'n gwlad, y mae y gofyn am y caws hyn Ond pe y godreuid tuag ugain o ddefaid am yn llawer llai. chwech wythnos, gellid ar y pryd, gyda blaenion llaeth pymtheg neu ugain o wartheg, wneuthur caws a werthid am chwecheiniog y pwys cyn iddynt sychu ond ychydig. Ond os gwneir caws trwy y tymmor haf, gwell peidio hufenu y llaeth yn llwyr; o blegid y caws a fyddant lai o werth na chwecheiniog y pwys yn îr, byddant yn anhawdd i'w gwerthu mewn modd yn y byd.

Yn nhiroedd pori goreu Cymru, yn enwedig dolydd ein dyffrynoedd, gwneir caws cyffelyb i rai sir Gaerlleon; sef, trwy ddefnyddio y llaeth heb ei hufenu. Nid ydynt byth yn troi y tiroedd hyn. Yn wir, anfynych os byth y cyfarfyddir â fferm yn Nghymru na ddylid gadael ei thir goreu heb ei droi. Y mae rhai o'n tiroedd goreu at odro yn gwahaniaethu trwy fod y naill yn well at gaws, a'r llall at ymenyn. Y mae yn anhawdd nodi yn fanwl yr achos o hyn. Dywedir mai y rhai lleithiaf o'r tiroedd hyn sydd oreu at gaws, a'r rhai sychaf at ymenyn. Y mathau mwyaf adnabyddus o gaws goreu Prydain ydyw rhai CAER, GLOUCESTER, a STILTON yn swydd Leicester. Mae yr olwg ar gaws Caer, yn mysg cawsiau rhanau ereill o'r wlad, yn dywysogaidd; ac y mae y caws a wneir yn dyffrynoedd Clwyd a Maelor, a Glanau yr Hafren, hefyd yn ogystal, ac yn

cael eu gwerthu fel caws Caer. Pwysant o drigain i chwech ugain pwys yr un. Teneuon, sef tua phedair modfedd o drwch, ydyw caws Gloucester; a thrwchus, ond bychain iawn mewn

trawsfesur, ydyw y Stilton.

Ychydig yw y gwahaniaeth yn ngwneuthuriad y gwahanol fathau hyn. Ond wrth wneuthur y naill fath neu y llall, gofaler fod y llaeth mewn gwres priodol cyn rhoddi y cywair ynddo, yr hyn yw o 84° i 85°. Na oddefer i ddim aflonyddu y llaeth pan y bydd yn cyweirio, a thyner y gwlybwr yn llwyr o'r cosyn; a phan roddir ef i sychu, bydded yr ystafell mewn tymmeredd priodol, a'r caws yn cael eu symmud a'u cadw yn lân. Cofier, nis gellir gwerthu y caws i'r pris uchaf er i'r defnyddiau haeddu hyny, os na byddant yn beraidd, heb ddim surni na chwerwedd. Gan y gwneir y caws hyn bob dydd, bernir mai peidio rhoddi halen ynddynt sydd oreu, ond eu rhwbio yn dda â halen dair gwaith—y waith gyntaf, yn mhen pedair awr ar hugain ar ol eu gwneyd; yr ail waith, yn mhen pedair awr ar hugain ar ol y waith gyntaf; a'r drydedd waith, yn mhen yr un amser ar ol yr ail.

Uwch law pob peth, tuag at i'r caws a'r ymenyn fod o'r fath oreu, cadwer y llaethdy yn lân. Nid oes dim a berthyn i'r ffermdy yn fwy pwysig. Dylai y llawr fod o geryg wedi naddu eu hymylon, neu ynte o tiles, a dylai pob dyferyn o'r llaeth a gollir gael ei olchi; ac er mwyn i hyny fod yn fwy effeithiol,

doder ychydig o soda golchi yn y dwfr.

Dylai y llaethdy fod yn y gongl ogledd-orllewinol i'r tŷ, er mwyn gochel pelydr yr haul; ac hefyd fod dwy ffenestr arno, un yn gwynebu y gogledd, a'r llall y gorllewin, a'r ffenestri i'w hagor a'u cau. Gellir felly ollwng awyr i mewn yn fwy effeithiol. Hefyd, am yr holl lestri llaeth, y mae y manyldra mwyaf yn ofynol at eu cadw yn lân. Dylai gwraig a merched ffermwr ymfalchīo yn hyn. Defnyddia rhai laeth un dydd, sef y Sabbath, at wneyd ymenyn, er mwyn arbed llafur ar y dydd hwnw; ac y mae yr arferiad yn deilwng o bob canmoliaeth. Y mae gofal gyda godro y buchod yn llwyr o'r pwys mwyaf; o blegid, yn niffyg hyny, nid yn unig collir y rhan oreu o'r llaeth, ond lleiha y llaeth gan y buchod yn y canlyniad.

Tuag at wneyd ymenyn o'r fath oreu, un peth pwysig ydyw fod y buchod yn cael cadwraeth dda. Heb hyny, bydd yr ymenyn o liw gwyn sychlyd. Dylai y llaeth, tra yn aros i gael ei gorddi, fod mewn tymmeredd priodol—heb fod yn rhy boeth, nac yn rhy oer. I ochel hyny, dylid corddi yn mhoethder yr haf dair gwaith yn yr wythnos o leiaf. Yr hen arfer yn y gauaf

o osod "y potiau llaeth cadw" yn nghil y pentan, yn "yr hen simdde fawr," a'u cadwant rhag yr oerni. Ond os ydyw y tŷ wedi ei wnevd erbyn hyn yn anghyfleus i hyny, dylai fod flue yn y llaethdŷ o hyd digonol i osod yr holl "botiau llaeth cadw" arni; a thrwy fod tân mewn grât yn un pen iddi, cedwir hwy mewn tymmeredd priodol. Os bydd chwaneg na'r hufen yn cael ei gorddi, cymmer fwy o amser: ond gyda buddai neu lestr corddi, o wneuthuriad da, a'r llaeth mewn tymmeredd priodol, ni raid bod am fwy nag awr. Ymddengys mai buddai â dau weithredydd o'i mewn, yn troi yn groes i'w gilydd, sydd yn gwneyd ei gwaith gyntaf. Y mae wedi ei brofi tu hwnt i ammheuaeth, nad oes fantais ar gymmeryd mwy na'r hyn a nodwyd o amser i gorddi.

Y peth nesaf at wneyd ymenyn da yw cael y llaeth yn llwyr o hono. Tuag at wneyd hyny, doder ef mewn dwfr ffynnon oer; ac yna cymmered y llaethwraig ddigon o amser, gyda chwpan bren deneu, neu ei llaw, yn ol y byddo yn gallu gwneyd oreu, a thyned y llaeth yn llwyr o hono. Rhaid iddi hi farnu pa faint o halen fydd yn ddigon. Archwaeth y rhai fydd yn ei ddefnyddio ydyw y rheol pa faint y dylid ei roddi ynddo. Dewisa rhai gymmysgu ychydig o siwgr gwyn, wedi ei falu yn fân, gyda'r halen. Yn yr haf, mewn rhanau pell oddi wrth ardaloedd poblog, dodir yr ymenyn mewn llestri pridd neu goed i aros adeg gyfleus i gymmeryd y cyfan i'r farchnad. Ceidw gystal yn yr olaf ag yn y blaenaf; a pharhant gyda gofal am oes. Dylid gofalu fod y llestri hyn yn cael eu cadw mewn lle sych ac oer tuag at i'r ymenyn gadw yn dda.

FFURF Y RHYWOGAETH GYMREIG.

PAN y mae y ffermwr Cymreig am brynu tarw, neu heffr at fuwch, ac i ni gymmeryd ei fod yn adnabod gwartheg ei wlad yn dda, y mae yn edrych fel un o'r pethau mwyaf pwysig am gael y coesau yn fyrion. Y mae coesau hirion yn peri iddo ddarfod â'r anifail ar unwaith, pa beth bynag fyddo ei ragoriaethau ereill. Dylai y troed fod yn llydan, a lled da yn nghamedd y gâr. Heb y ddau beth hyn, gellir ofni eiddilwch yn yr eppil. Dewiser pen bychan; a llygaid mawrion siriol, yn enwedig gan y fanyw; cyrn hirion melynion, ac o hyd priodol i atteb i faint y corph; a chan y fanyw, dylent fod yn troi yn

fwäog i fyny. Edrychir hefyd am gael gan y fanyw wddf heb fod o led na dyfnder mawr; a goreu po lleiaf o dagell dan y gwddf. Ond gwell cael y tarw â'i wddf a'i dagell heb fod yn debyg i'r un fanyw; ond yn ganolig o faint, am fod gwell lle i ddisgwyl nerth yn ei hiliogaeth drwy hyny. Peth pwysig iawn arall yw cael yr ysgwydd yn llydan, a'r cefn tu ol iddi o led da, a'r naill wedi ei hasio yn y llall heb bantle rhyngddynt. Dylai hefyd fod lled da yn y pen blaen drwyddo, a'r frest yn cyrhaedd yn llaes rhwng y ddwy goes flaen. Yr asenau yn llydain a bwaog, ac heb wasgiad rhwng y rhai blaenaf a'r palfeisiau. Dylai esgyrn yr hip fod o led da, ond nid yn gymmaint lletach na'r cefn ag yn y Short-horn. Dylai hefyd fod y culhad yn raddol o asgwrn yr hip yn ol, heb fod cymmal pen y glun ar un cyfrif yn codi i fyny yn lwmp. Dylai y crwper fod yn wastad, heb fod yn codi yn uwch na'r cefn, nac yn gogwyddo i lawr ar gyfer bôn y gynffon. Ceir, weithiau, y crwper, sef y tu ol i'r hip, ar ddull crib tŷ, yn rhedeg i lawr yn lled syth o bob tu. Gwall yw hyny. Dylai y crwper fod yn wastad o bob tu, ac yn ol. Y mae mororen y gynffon i gyrhaedd camedd y gar. Un o'r rhagoriaethau penaf at besgi yw cael clun dew-ond at laeth, clun deneu. Felly, i gadw dwy ragoriaeth benaf y rhywogaeth Gymreig, y mae yn rhaid cymmedroli rhwng y ddau eithafion hyn. Megys nad ydym i ddisgwyl cael ein gwartheg mor lydain ar yr hip a'r Short-Horn, felly nid ydym i edrych am glun mor dew ag sydd gan y gwartheg na ddisgwylir ynddynt ond rhagoriaeth at besgi. Cael croen ystwyth a melfedaidd, a blewyn hir modrwyog esmwyth, ac yn llac am yr asen, a'r esgyrn o bob tu bôn y gynffon, sydd yn bwysig iawn. Dylai y corph hefyd fod yn cyrhaedd i lawr yn llaes, heb fod ond ychydig o ffordd rhyngddo â chamedd y gâr. Disgwylir cael pwrs yr heffr. pan y bydd yn agos i lo, yn fawr, ac yn bedr-onglog, â lled da a chyfartal rhwng y tethau; y rhai sydd i fod yn sythion, ac o hyd a phraffder cymmedrol, a'r gwythïenau dan y bol yn fawrion.

GWAHANOL GANGHENAU O'R RHYWOGAETH GYMREIG.

GWARTHEG duon sir Benfro, a elwir "Y CASTLEMARTIN," sydd yn gwahaniaethu fwyaf oddi wrth y gweddill o'r gwartheg Cymreig. Y mae ein cydwladwyr yn sir Benfro wedi dangos mwy o ofal am gadw eu gwartheg duon yn bur nag a wnaethpwyd yn un rhan arall o Gymru. Teimlant eu hunain yn falch o'r peth; ac y maent i'w canmawl am hyny. Canmolir y ganghen Gymreig hon yn fawr am odro. Prynir hwy i wahanol barthau y deyrnas i'r dyben hwn, ac weithiau i'r Cyfandir.

Ond y mae mewn rhai manau yn Nghymru wartheg o ymddangosiad gwell mewn rhai pethau; megys coes ferach, blewyn hwy, ac o well ansawdd, a mwy o led yn y corph. Yn y rhanau mwyaf gweiriog o ogledd Cymru y cyfarfyddir â'r gwartheg Cymreig o'r ffurf oreu; am fod ymborthi ar gyflawnder o wair da yn foddion i'w trymhau. Rhanau rhagorol o Gymru am hyn ydynt ranau de-ddwyreiniol sir Gaernarfon, ac yn mlaen mewn cyfeiriad deheuol gyda glan ddwyreiniol Môr Ceredigion (Cardigan Bay), hyd Dowyn Meirionydd, ac i fyny gyda glanau y Dyfrdwy. Ardal arall lle y cyfarfyddir â rhai tebyg, ydyw Dyffryn Edeyrnion, o'r Bala tuag at Gorwen a'i hamgylchoedd. Yn Ynys Môn y ceir y gwartheg Cymreig brasaf; ond y maent yn fwy hirgoes a garw na'r gwartheg canolbarthol. gwneir cryn ymdrech yn awr gan y Monwysion i'w gwellhau: ac os gweithiant yr ymdrech hon allan, gallant ymgystadlu âg un rhan o Gymru. Wedi i'n ffyrdd haiarn gael eu gorphen, ac i'r haint, gobeithio, ymadael, gellir disgwyl sefydlu Cymdeithas Amaethyddol Gymreig; ac yna dygir ein gwartheg o wahanol barthau y Dywysogaeth ynghyd, fel y ceir gwell mantais i gyferbynu eu gwahanol ragoriaethau.

Y mae mantais yn deilliaw o'n bod cyhyd heb ddechreu gwellhau ein rhywogaeth. Y mae dwy brif ragoriaeth ein gwartheg heb eu colli. Rhagoriaeth y cig, a'u gwerth at odro. Trwy wneyd ymdrech dros amser maith i ddwyn yr Improved Short-horn i ddangos y fath duedd at besgi, amddifadwyd hwy o ragoriaethau llaethog eu hynafiaid, fel nad ydynt yn werth i'w cadw at odro. Y mae yr un peth yn wir am wartheg caledion Ysgotland, am yr Hereford hefyd, ac i raddau am y Devon. O'r tu arall, y rhywogaethau sydd yn werthfawr at odro, y maent yn dra diffygiol o ragoriaethau at besgi. Felly, wrth amcanu gwella ein rhywogaeth frodorol, dylid ar bob cyfrif beidio colli un o'r ddwy ragoriaeth i gadw y llall; o blegid cyfarfyddiad y

ddwy sydd yn gosod y fath werth arnynt.

DEFAID.

MEGYS y darfu i'r rhywogaethau brodorol o wartheg yn ngwahanol ranau Prydain roddi lle i ychydig o brif rywogaethau, neu ynte ymgolli ynddynt drwy groesi, felly hefyd y bu am ein defaid. Afreidiol yma fyddai cymmaint ag enwi y rhai hyny. Mwyaf priodol dybygid ydyw dosbarthu y rhai a ddylent gael sylw yma i dair rhywogaeth.—Yr Hir-wlan, Y Byr-wlan, A'r Fynyddig.

Y DEFAID HIR-WLAN.

Y MAE amryw adraniadau yn perthyn i'r rhywogaeth hon. Y rhai mwyaf nodedig yw y LEICESTER, y LINCOLN, a'r COTSWOLD.

Y LEICESTER.—Ar y LEICESTER y dechreuwyd y gwellhâd hwnw ar y rhywogaeth hir-wlân, yr hon sydd erbyn hyn wedi dyfod mor hynod a chyffredinol, a hyny gan Bakewell, tua chan mlynedd yn ol. Bu yn gyfnewidiad mor fawr nes y daeth defaid Bakewell i gael eu galw yn "rhywogaeth newydd o LEICESTERS. Mewn amser, croeswyd y rhai hyn gyda defaid hir-wlân Lincolnshire, a'r ardaloedd cymmydogaethol. Y rhai hyn oedd y defaid mwyaf, a hwyaf eu gwlân, o unrhyw rywogaeth yn Mhrydain; a thrwy eu croesi, fel y nodwyd, gwellhasant yn fawr trwy ddyfod yn fwy tueddol at besgi. Dylai y defaid hyn gael tir o'r dosbarth goreu yn Mhrydain, o blegid tiroedd o'r fath yw cartrefleoedd y rhywogaeth.

Y Cotswold.—Y mae y Cotswold yn llawer mwy celyd. Cartref y rhywogaeth hon yw swydd Gaerloew, a'r wlad oddi yno tua swydd Rhydychain. Erbyn croesi y Lincoln a'r Cotswold gyda y Leicester newydd, y mae y gwahaniaeth rhwng yr eppil yn dyfod yn llawer llai, er fod y gwahaniaeth cyn croesi yn fwy yn y maint nag yn y ffurf.

Y Corswold yn ddiammheu ydyw y rhai caletaf o'r defaid hir-wlân, am fod y tir sydd yn gartref iddynt yn fwy oer a gwlyb, ac o waelach defnydd, na'r tiroedd y dygwyd y LINCOLN a'r LEICESTER i fyny ynddynt. Ond nid oes gwahaniaeth mor amlwg yn y rhai hyn fel y gellid ei ddisgrifio yma. Y Cotswold, yn ddiammheu, a wnai oreu yn Nghymru o un math o ddefaid hir-wlân, a'r ffordd sicr i'w cael fyddai eu ceisio o'r wlad sydd yn gartref iddynt. Pen a choesau gwynion sydd gan yr holl rywogaethau hyn; a bywiogrwydd llygaid y Cotswold ydyw yr hyn sydd yn eu gwahaniaethu yn benaf oddi wrth y Lincoln a'r Leicester.

Y DEFAID BYR-WLAN.

BYR-WLAN oedd y nifer amlaf o lawer o ddefaid brodorol Prydain gynt. Preswylid ei rhanau de-orllewinol, deheuol, a deddwyreiniol ganddynt. Ond heb law fod y LEICESTER a'r Cotswold wedi dyfod i fewn i lawer o'r rhandiroedd lle y buont hwy yn unig i'w cael ynddynt, y mae un neu ddwy o rywogaethau byr-wlanog wedi gwneyd hyny. Hwyrach mai yr unig rywogaeth a gadwodd feddiant o'r hen randiroedd, er na ledaenodd lawer allan o honynt, ydyw.

Y Dorset.—Y mae cyrn bychain gan y gwryw a'r fanyw. Gwyn yw y pen a'r coesau. Cyfrifir hwy yn ddefaid celyd, ac yn dal yn dda yn ngwyneb prinder bwyd. Tua phedwar pwys ydyw eu cnu gwlân. Wedi myned i'w cyflawn faintioli, pwysant tua deunaw pwys y chwarter. Cyfrifir eu gwlân a'u cig yn ganolig o ran rhagoriaethau. Ond y peth sydd wedi rhoddi modd i'r rhywogaeth hon barhau mewn bri ydyw, fod y mammogiaid yn cymmeryd y myheryn yn gynt nag y gwna un rywogaeth arall—yn ddigon buan i ddyfod âg ŵyn yn Hydref neu Tachwedd, fel y byddont wedi eu pesgi erbyn y Nadolig, ac felly yn gwerthu i bris uchel iawn. Y mae hyn o grybwylliad am danynt yn rhoddi mantais i'r darllenydd fyddo yn cadw defaid farnu a fyddai yn fanteisiol iddo ef eu cadw.

Er fod mewn gwahanol barthau o Loegr rywogaethau o ddefaid nad ydyw eu perchenogion etto wedi dyfod yn barod i'w newid, ond ar yr un pryd yn eu croesi gyda myharen Leicestee neu y Cotswold; yr hyn, mewn', rhai manau ond odid, ydyw y peth goreu a allesid ei wneyd; etto y mae y rhywogaeth byr-wlân a elwir y South-down wedi gweithio nifer mawr o'r

rhywogaethau brodorol ymaith

Y SOUTH-DOWN.—Dygwyd gwellhâd mawr yn mlaen yn y rhywogaeth hon gan Mr. Ellman, o Glynde, ger llaw Lewes, a hyny tua'r un amser ag y gwellhawyd defaid Leicester gan Bakewell. Pen a choesau llwyd-ddu sydd ganddynt. Bu y cyfnewidiad arnynt, o ran ffurf a pharodrwydd i besgi, drwy ymdrech Ellman, yn gyffelyb i'r hyn a wnaed ar y Leicesters drwy yr eiddo Bakewell. Cyn hyny, o ddeuddeg i bedwar pwys ar ddeg a ddisgwylid iddynt bwyso yn ddwy flwydd oed; ond yn awr, pwysant gymmaint arall cyn cyrhaedd yr oed hwnw gyda chadwraeth dda. Ond y mae rhywogaeth arall, led

debyg i'r un flaenorol, a elwir-

Y Shropshire down.—Y mae y pen a'r coesau yn y rhywogaeth hon yn dduach na'r South-Down, ond y defaid gryn lawer yn fwy, a'r gwlân yn hwy. Y mae hon yn rhywogaeth newydd, yn gyferbyniol â'r lleill. Y mae yn rhaid mai trwy groesi gwahanol rywogaethau y daeth hon i sefydlogrwydd fel rhywogaeth. Wrth sylwi ar y tebygolrwydd sydd rhwng y SHEOPSHIRE a'r South-Down, a chofio fod yr olaf yn hen rywogaeth, a'r blaenaf yn newydd, y mae y tebygolrwydd yn gryf fod y naill yn deilliaw oddi wrth y llall, drwy i'r South-down gael ei chroesi gyda rhywogaethau ereill. Y mae ar derfyn sir Amwythig gangen arall o'r un brif rywogaeth, a elwirdefaid CLUN Frorest — neu fel yr adnabyddir y rhywogaeth yn Nghymru, "Y CLYNS." Penau a choesau llwyd-ddu sydd ganddynt; coes fer; corph trwm, hir, a llydan; a gwlân cryn lawer yn hwy na'r eiddo y South-down. Prin y mae rhywogaeth o ddefaid mewn bod sydd yn pwyso cymmaint a'r Cluns yn ol eu maint, am fod eu coesau mor fyrion.

Golwg GYFFREDINOL.—Wrth daflu golwg dros y gwabanol rywogaethau hyn, y gofyniad priodol i amcan y traethawd yw, Pa un o honynt sydd fwyaf cyfaddas i iseldiroedd Cymru? Attebwyd yn barod mai y Corswold a wnai oreu o un o'r

rhywogaethau hir-wlan.

Ond beth ydynt ragoriaethau y ddau ddosbarth yma o ddefaid —yr hir-wlân a'r byr-wlân—wrth eu cyferbynu â'u gilydd i Y mae y cyntaf yn fwy, ac â mwy o wlân arnynt. Hefyd, erbyn i gyflawnder o wlân tramor, mwy rhywiog na gwlân goreu Prydain, gael ei ddwyn drosodd i fod yn ddefnydd ein brethynau, y mae y gwlân cartrefol hir yn gwerthu yn uwch nag un gwlân byr yn y deyrnas. O'r tu arall, y mae cig ein defaid byr-wlân ni yn rhagori, am fod y brasder yn ymledaenu yn fwy gwastad drwy wahanol ranau y corph. Nid ydyw y gwahaniaeth yn maint y defaid yn dyfod yn bwysig yn y cyferbyniad,

gan y rhaid i'r rhai mwyaf gael chwaneg at eu cadw na'r lleill. Y mae y fantol yn troi gan hyny ar hyn:—Pa un ai y defaid y daw eu cig yn fwyaf gwerthfawr, ynte y defaid y daw eu gwlân yn fwyaf o werth, sydd oreu? Y mae yn ddigon 'tebyg fod yn anhawdd penderfynu, a bod yma le i'r perchen ddewis, yn ol ei duedd neu ei bleser, heb ei niweidio ei hun mewn ystyr arianol.

Gyda golwg ar wahanol adraniadau y defaid byr-wlân, y mae yn naturiol meddwl fod y rhan o'r wlad sydd yn gartrefle i'r South-downs gymmaint yn fwy deheuol na Chymru, yn enwedig na Gogledd Cymru, fel y maent yn anghyfaddas i ni. Gan fod y Shropshire Downs yn rhagori mewn maintioli ar y Cluns, ac nad ydynt yn ol iddynt mewn caledwch, y mae yn eglur mai y Shropshire Downs sydd oreu i ni o'r rhywogaethau byr-wlân,

a'r Cotswolds o'r rhywogaethau hir-wlân.

Gellid codi rhywogaeth o ddefaid a attebai yn dda yn iseldiroedd Cymru, trwy bigo allan y mammogiaid mynyddig goreu a ellid eu cael, a rhoddi hwrdd o'r Shropshire Downs neu'r Corswolds gyda hwy; yna rhoddi gyda'r ŵyn benyw hwrdd o'r un rywogaeth a'r hwrdd blaenorol, a dilyn felly yn mlaen. Erbyn y bedwaredd genhedlaeth, byddai maint a dull y mammogiaid Cymreig wedi colli, ond arosai eu priodoldeb i hinsawdd ein gwlad yn y defaid. Y mae hyn yn ffaith brofedig. eddar dygwyd i sylw, trwy y wasg Saesnig, y priodoldeb o groesi y Cotswold a'r Shropshire Down, gyda disgwyliad am rywogaeth nodedig am faintioli a hyd y gwlân, a gwerthfawrogrwydd eu cig. Gwrthwynebwyd y cynnygiad gan un, ar gyfrif fod y South-downs etto yn rhywogaeth ry newydd, ac felly heb ennill digon o sefydlogrwydd i groesi o honi. Er hyny nid annhebyg fyddai'i rai o foneddigion neu brif amaethwyr Lloegr roddi cynnyg ar hyn.

DEFAID MYNYDDIG.

Y MAE rhai wedi haeru fod defaid mynyddig yn Nghymru o fwy nag un rhywogaeth. Ychydig o flynyddoedd yn ol, ceisiai ysgrifenydd Saesneg nodi allan wahaniaeth rhyngddynt; yr hwn, yn ei dyb ef, oedd yn profi eu bod yn ddwy rywogaeth. Ond y mae diffyg cydnabyddiaeth â'n gwlad wedi arwain rhai cyn hyn i wneyd camgymmeriadau mwy pwysig na'r un dan sylw. Mwy tebyg yw mai gwahaniaeth yn natur y tir y porant ynddo, haf a

gauaf, ynghyd â'r gwahaniaeth rhwng hinsawdd y naill fan ragor y llall, sydd yn achosi y gwahaniaeth a nododd yr ysgrifenydd crybwylledig rhwng ein defaid mynyddig. Hyd yn oed defaid brodorol Môn, er nad ydynt, lawer o honynt, ddim llai na chanol-faint y defaid Saesnig, etto y mae eu ffurf yn profi mai rhan o'n rhywogaeth frodorol ydynt, ond fod y tir y porant

ynddo er's oesoedd yn nodedig am dyfu anifeiliaid.

Y CHEVIOT A'B BLACK-FACE (Y Wyneb-ddu).—Y mae yn perthyn i Brydain ddwy etto o rywogaethau mynyddig. Y naill yw y CHEVIOT, a'r llall yw y BLACK-FACE. Y mae y wyneb a'r coesau yn dduon gan y rhywogaeth olaf, a'r gwlân yn hir a garw, ac yn lled deneu. Y mae y CHEVIOT yn debyg o ran ffurf, a lliw y coesau, a'r pen, i'r defaid Cymreig goreu; sef, y rhai a geir yn y parthau deheuol o sir Feirionydd, ac yn y rhanau mynyddig goreu o siroedd Trefaldwyn ac Aberteifi. Y mae yn rhaid addef fod defaid mynyddig Ysgotland yn fwy na defaid Cymru; ac oddi wrth hyny, barna rhai y byddai yn well i ni groesi gyda y naill neu y llall; sef, defaid ein manau uchaf, a mwyaf garw, gyda'r BLACK-FACE, a defaid ein mynydd-dir goreu gyda'r CHEVIOT. Gwnaed hyny mewn rhai manau, ond tystir nad ydyw y canlyniad wedi troi allan yn dda.

Gellir yn ddiammheu wellhau llawer ar ein defaid mynyddig cartrefol trwy fwy o ofal gyda dewisiad myheryn, a thrwy ymadael mewn pryd â'r mammogiaid gwaelaf. Ond y peth a effeithiai fwyaf fyddai gwellhau ein mynydd-dir. Byddai raid gwneyd hyny drwy ddau beth; sef, codi cysgodion yma ac acw ar hyd ein mynyddoedd, a sychu y rhanau gwlybion o honynt. Pe y plenid ychydig erwau o goed ar y manau mwyaf manteisiol i beri cysgod, talent yn dda am y gwaith, a byddai y gweddill o'r mynydd-dir yn fwy o werth nag ydoedd y cyfan cyn hyny. Y mae y prisiau uchel am waith yn erbyn sychu tir gwlyb ein mynyddoedd; ond y mae y codiad yn mhris y defaid lawn cymmaint ag yn y cyflog. Trwy y ddau gyfnewidiad hyn, byddai ein mynyddoedd, nid yn unig yn llawer mwy o werth yn yr haf, ond byddent yn gymmhwys i gadw defaid yn y gauaf mewn manau nad all y defaid yn awr aros ynddynt ar y tymmho. hwnw, o herwydd eu gwlybdra a'u diffyg o gysgod.

Y TREFNIADAU GOREU GYDA DEFAID.

DEFAID YR ISEL-DIR.

Dylai y mammogiaid a'r hwrdd fod mewn cyflwr da pan y troir yr hwrdd atynt. Y maent drwy hyny yn llawer tebycach i O ddeugain i ddeg a deugain o fammogiaid ddwyn dau oen. sydd yn ddigon gyda'r un hwrdd. Os bydd mwy o fammogiaid yn cael eu cadw nag fydd yn ddigon i un hwrdd, rhaner hwy; a gofaler am roddi mammogiaid a hwrdd ynghyd a fyddont yn cyfatteb oreu i'w gilydd, o ran rhagoriaethau a gwallau. Y mae hyn yn fantais bwysig iawn tuag at wellhau defaid. Rhwbier brest yr hwrdd â lliw yn fynych, fel y byddo ôl hyny ar y mammogiaid a'i cymmero; a gofaled y neb fyddo yn edrych ar ol y defaid am i'r amser y cymmero y mammogiaid yr hwrdd gael ei roddi ar lawr mewn llyfr. Tâl y mammogiaid oreu os cânt eu cadw yn dda hyd yr amser y deuant âg ŵyn. Gan fod yn fanteisiol i ffermwyr Cymru bori cryn dipyn o'r tir, ac, fel yr awgrymwyd eisoes, nad allwn wneyd y goreu o'n gwartheg heb ddigon o wair, gellir disgwyl y gwna y mammogiaid heb ond ychydig neu ddim maip hyd y pryd y deuant âg ŵyn; ac hyd yn oed wedi hyny, yn y gwanwyn, wedi iddynt ddyfod âg ŵyn. Dibyna hyn ar ansawdd y tir glas fyddo ar y fferm. Pe byddai modd cadw cae drwy gydol y gauaf heb i anifeiliaid fyned iddo, byddai yn llawer yn eu ffafr; ond os na rydd y mammogiaid ddigon o laeth tuag at i'r wyn gynnyddu, rhodder iddynt faip, neu ryw ymborth o law. Gellir, pan nad oes game ar y tir. blanu bresych (cabbage) wedi cael cnwd haf o'r tir, y rhai a fyddant yn ymborth o'r fath oreu i'r mammogiaid yn y gwanwyn, a cheir hwy o'r tir yn yr adeg i roddi cnwd haf drachefn i Wrth fod amser y mammogiaid i ddyfod âg ŵyn yn wybyddus i'r bugail, dylid eu rhoddi i fewn dair neu bedair noswaith cyn hyny. Y mae bron yn sicr y collir ŵyn heb hyn.

Wedi i'r borfa dyfu, y mae yn llawn bryd i'r ffermwr feddwl pa beth y mae am ei wneyd gyda'r ŵyn—pa un ai eu gwerthu yn dewion, ynte eu diddyfnu, i'w cadw. Amgylchiadau perthynol iddo ef yn unig sydd i'w gyfarwyddo i benderfynu y peth. Weithiau, pan fydd gefeilliaid (gwryw a benyw), gwerthir y gwryw yn dew, a chedwir y fenyw. Os felly, gwell diddyfnu y fenyw yn nechreu Mehefin, fel y caffo y gwryw yr holl laeth. Os bydd i'r ŵyn gael eu cymmeryd oddi wrth y mammogiaid tua diwedd Mehefin (yr hyn yn gyffredin a wneir os byddant yn cael eu cadw), gellir godro y defaid am o bedair i chwech wythnos. Bydd y llaeth o gryn werth at wneuthur caws, gan fod llaeth defaid i'r amcan hwnw bron mor rinweddol a llaeth goreu

gwartheg.

Ni ddylai y mammogiaid, na dim defaid ereill chwaith, gael en carcharu. Y gwirionedd ydyw, a dylai pob ffermwr ei gredu, fod cadw defaid yn golled os carcherir hwy. Gresyn na ddeuai ein perchenogion tiroedd a'n ffermwyr i delerau a wnai i fyny y diffyg hwn. Yn y rhanau o Gymru lle y mae gwrychoedd, y mae y peth wedi ei wneyd i fyny. Ond am Fôn, a sir Gaernarfon, a rhanau o'r Deheudir sydd agosaf i'r môr, y mae diffyg mawr yn hyn. Ond dan yr anfantais yma, gellid gosod gwifrau (wires) o amgylch cae gyda chyn lleied o draul ag a ai mewn dau neu dri thymmor i garcharu y defaid. Ac yna eu symmud o flwyddyn i flwyddyn fel y byddai y defaid yn cael eu symmud. Ond os bydd y defaid yn cael eu symmud o un lle i'r llall yn yr un tymmor, yr hyn sydd lawer gwell na'u cadw ar yr un fan, gwelir fod yn rhaid cael gwifrau o amgylch y naill a'r llall. Mewn manau agos i'r chwareli, gellid cael pillars tua thair troedfedd o hyd, a'u gosod mewn clawdd pridd mor agos fel nas gall hyd yn oed oen fyned drwyddynt, a phlethu gwifrau neu wiail cyll am danynt yn y pen uchaf.

Dylai yr ŵyn, wedi eu diddyfnu, gael cystal porfa ag a fydd ar y fferm; a chael eu cadw i fyned rhagddynt drwy y tymmor haf. Adladd clover yn niwedd y flwyddyn sydd yn rhagorol iddynt. Ac mewn fferm y bydd llawer o'r tir yn lâs, gwna ychydig o geirch (pwys neu fwy rhwng dau) yn y boreu, mewn cafn pwrpasol, effaith ryfeddol arnynt. Os gellir fforddio, doder iddynt ryw gymmaint o swedes o ddiwedd Ionawr hyd ddiwedd Mawrth, neu bellach os na bydd porfa. Byddant fel hyn yn barod i'w gwerthu yn dewion, naill ai yn y gwanwyn cyn cneifio, neu yn nechreu yr haf ar ol cneifio. Gellir cneifio y defaid hyn yn nechreu Mai. Goreu ydyw symmud eu porfa y gauaf fel yr haf. Dewisa rhai gadw y defaid hyn flwyddyn yn mhellach. Y mae pa fodd y talant oreu yn beth nad ellir gosod rheol

i'w benderfynu. Barned y ffermwr drosto ei hun.

Peth i'w gymmeradwyo yn fawr ydyw golchi y defaid ar ol

eu cneisio gyda'r drwyth a wneir i'r amcan hwnw, i'w glanhau

oddi wrth bryfaid, a rhagflaenu y clafr.

Byddai yn well tori ar yr ŵyn gwrywaidd cyn eu bod yn bythefnos oed. Ni bydd y dolur wrth wneyd yr adeg hono ond bychan mewn cymmhariaeth i'r hyn a fyddai pe yr arosid fis neu ddau yn hwy.

MAGWRAETH A RHEOLAETH DEFAID MYNYDDIG.

Y MAE rhanu y mammogiaid pan roddir yr hwrdd atynt mor angenrheidiol gyda defaid mynyddig ag ydyw gyda y lleill. Gallai ffermwr mynyddig beri gwellhâd dirfawr ar ei ddefaid drwy hyn. Wrth wneyd dewisiad o hyrddod hefyd, gallai wellhau llawer ar ei ddefaid. Y dull cyffredin gyda'r ffermwyr hyn ydyw cadw hyrddod o'u hŵyn eu hunain. Ond collfernir hyn bron yn ddieithriad gan ddynion y gellir ymddiried i'w barn. Y mae yn wir fod Bakewell-dyn hynotaf y byd am wellhau defaid—wedi cadw hyrddod o'i ddefaid ei hun; ond yr oedd yntau, fel y sylwyd o'r blaen, mor fanwl yn rhanu ei fammogiaid a'i hyrddod yn ol y cyfartaliad rhyngddynt, nes gallu eucadw hefyd rhag cymmysgu perthynasau rhy agos. Peth arall: nid oedd neb y pryd hyny ond efe wedi gwneyd gwelliadau pwysig ar ddefaid hîr-wlân, fel nad oedd ganddo le i droi ei wyneb i un man arall am hyrddod. Ond y mae yn hollol wahanol gyda meithrinwyr defaid a gwartheg yn Nghymru.

Y mae dau beth i'w ystyried wrth ymofyn hwrdd neu darw oddi allan i wartheg a defaid y ffermwr ei hun:—sef, yr anifail, a'r hynafiaid y deilliodd o honynt, a'r tir y porodd efe a'i hynafiaid arno. Bydd y ffermwyr mynyddig, wrth anfon yr ŵyn i bori y gauaf i wahanol fanau, yn dyfod i ddeall fod rhyw dir yn atteb yn llawer gwell i'r eiddynt hwy nag y gwna tir arall. Ceir hefyd fod yr un peth yn bod gyda golwg ar wartheg gan y rhai a arferant anfon gwartheg ieuainge i bori oddi allan. Gallai hyny fod yn help i benderfynu i ba gyfeiriad i fyned i ymofyn hyrddod neu deirw; ond cofier, na ddylid myned i dir gwell, a hinsawdd dynerach, i'w hymofyn, na'r ardal y maent

i ddyfod iddi.

Arferir diddyfnu yr wyn mynyddig o ddechreu i ddiwedd Awst, a'u gwerthu o flwydd i dair a phedair blwydd oed, yn ol

fel y byddo amgylchiadau. Os bydd y rhan hendrefol o'r fferm fynyddig yn caniatau, gwell cadw y mammogiaid hynaf a'r rhai gwaelaf yn y tir yn yr haf, fel y pesgont eu hŵyn, ac y byddont hwythau yn dewion erbyn mis Medi. Talant yn dda fel hyn. Ond os na bydd tir o'r fath i'w derbyn, byddant i'w gwerthu yn y mis Medi canlynol. Ni ddylai dafad wael am fagu gael ei gad ael ddim yn hwy nag y canfyddir hyny; a gellir ei benderfynu yr ail dymmor. Y mae pedwar neu bum tymmor yn ddigon i gadw y rhai goreu i fagu.

Yn fynych, rhoddir hwrdd o rywogaeth fwy i ddefaid y bwriedir pesgi eu hŵyn. Os gwneir, un o'r Shropshire Downs fydd oreu; gan y pesga ŵyn o'r fath yn well na rhai wedi eu croesi gyda hwrdd hir-wlân. Ond os gwneir, dylid edrych am hwrdd gyda phen bychan, rhag i'r mammogiaid fethu dyfod âg ŵyn. Bydd raid hefyd cymmeryd mwy o ofal gyda hwy yn y gwanwyn. Ond pe y rhoddid hwrdd Cymreig gyda'r mammogiaid, pesga yr ŵyn ar waelach lle, neu yn gynt mewn lle da. Y mae gwahanol farnau, pa un o'r ddwy ffordd sydd yn talu oreu.

Mewn ardaloedd tra mynyddig, yn ystod hir barhâd eira, collir llawer iawn o ddefaid. I ochel hyn, dylai darn o dir gael ei gau allan o'r mynydd, i'w gadw yn wair; ac os bydd y gauaf yn galed, bwyder y defaid: os amgen, cymmerer ef i'r gwartheg,

neu cadwer of hyd y tymmor dyfodol.

Peth arall a wellha ein defaid mynyddig ydyw rhoddi y ffriddoedd uchaf yr arferir eu pori gan wartheg iddynt. Y mae rhoddi y ffriddoedd hyn i wartheg yn fynych yn niweidio y gwartheg. Dechreuwyd gwneuthur felly pan oedd y defaid Cymreig yn gwerthu am tua hanner eu pris y dyddiau hyn. Y gwirionedd yw, nid oes neb y tâl defaid iddynt yn well y blynyddoedd hyn na ffermwyr mynyddig Cymru. Bydded iddynt ddeffro i wneyd y goreu o'u mantais.

GEIFR.

DIRMYGWYD Cymru, a'r genedl, lawer gwaith ar gyfrif ein cyssylltiad â'r creaduriaid hyn. Ai hyny a barodd i ni ymadael â hwynt mor lwyr, sydd anhawdd ei benderfynu. Beth bynag, cymmhellir ni gan Saeson ac Ysgotiaid, a'r rhai hyny yn wŷr o farn, ac yn caru ein lles, i droi atynt yn ol ryw gymmaint. Yn ein mynydd-dir, lle y mae creigiau ysgythrog, porant lle nad all

y defaid ei gyrhaedd. Porant hefyd yr hyn na phawr y defaid pan y gallant ei gyrhaedd. Ond y peth sydd yn gosod y gwerth mwyaf arnynt ydyw eu llaeth. Rhoddir gan afr laethog o dri i bedwar chwart o laeth yn y dydd, ond iddi gael ei godro dair gwaith. Wrth fod dyeithriaid yn dyfod i gynnifer o ranau mynyddig ein gwlad, gwerthid eu llaeth yn uwch na llaeth buchod, am ei fod yn fwy maethlawn, ar gyfrif fod y geifr yn ymborthi cymmaint ar ddail. Tystir, hefyd, gan y rhai sydd wedi cael profiad, nad ydynt yn colli yn eu llaeth wrth fod yn rhwym wrth raff hir, â'r pen arall wedi ei ddiogelu wrth bolyn yn y ddaear. Ond lle y mae darn o greigle cauedig, ni raid gwneyd hyn. Ond os yn rhwym y bydd yr afr, newidier ei phorfa ddwywaith yn y dydd. Gyda chadwraeth dda, deil i roddi llaeth hyd o fewn ychydig wythnosau i'r pryd y daw â'i Cyfrifir ei llaeth, hefyd, yn dra llesol i rai o ranau tufewnol gweiniaid. Ond os cedwir geifr, cofier fod yn rhaid diogelu rhyngddynt a gerddi a choed ieuaingc.

OLION.

Writh gyfansoddi y sylwadau blaenorol, cymmerwyd awgrymiadau oddi wrth amryw awdwyr Saesnig a ysgrifenasant ar wahanol gangenau amaethyddiaeth. Ar yr un pryd y maent, oddigerth ychydig o'r pethau mwyaf dibwys, yn ffrwyth cydnabyddiaeth brofiadol yr ysgrifenydd â'r pethau y traetha am

danvnt.

Teimlir, with eu gorphen, fod un peth yn rhedeg drwyddynt, a allai gael ei gyfrif gan lawer yn ddiffyg, sef eu bod yn rhy ammhennodol. Er enghraifft:-wedi dywedyd pa fath fwyd sydd briodol i anifail, ni ddywedir pa faint o hono; ac ni ddywedir pa bryd y byddai oreu ei werthu. Yr amcan wrth wneyd hyn oedd tynu ein ffermwyr i feddwl. Tra y mae rhagfarn yn meddyliau cryn nifer o'n hamaethwyr yn erbyn pob peth a ddaw drwy y wasg ar amaethyddiaeth, gall ambell un dybied fod modd trin fferm o un pen i'r flwyddyn i'r llall wrth lyfrau. Yn ddiau, byddai yr amryfusedd diweddaf yn waeth na'r cyntaf. Ymdrechwyd yma i beidio a rhoddi cefnogaeth i'r fath beth. Hyderir na chymmerir oddi wrth hyn o grybwylliad chwaneg na dymuniad o eiddo yr ysgrifenydd i roddi rheswm am ei ymddygiad.

WORKS PUBLISHED BY T. GEE, DENBIGH.

T. Ger will be glad to send a Catalogue with fuller particulars to any person applying.

Denfyn T. Ger restr gyflawnach o'r llyfrau hyn ond ysgrifenu ato.

An English and Welsh Dictionary: adapted to the present state of Science and Literature. By the Rev. D. SILVAN EVANS. In 31 parts price 1p. 10s. 6d; 2 vols. boards, 1p. 13s. 6d.; half calf, 1p. 17s. 0d.; full calf, 1p. 19s. 0d.

An English and Welsh Dictionary. To which is added, a Dissertation on the Welsh Language, with remarks on its Poetry, &c. By the Rev. JOHN WALTERS, late Rec-tor of Llandough. Third edition. In two vols. Price 20s. in boards.

The Myvyrian Archaiology of Wales. Collected out of Ancient Manuscripts, by the late Owen Jones (Ovain Myvyr), EDWARD WILLIAMS (Iolo Morganog), and WILLIAM OWEN PUGHE (Idrison). It is a careful and complete reprint of the first and only edition of this valuable Work, which was published in three Royal 8vo. volumes in 1807. It contains the works of the most distinguished Welsh Bards, together with the Ancient Triads, Proverbs, Genealogies, Games, Laws, Customs, and Music, &c., of the Cymry, from the earliest times to the close of the thirteenth century. It also contains a great quantity of matter which did not appear in the first Edition—viz.: Notes on the "Gooddin," Mr. Anguard OWEN'S translation of the LAWS OF HYWEL DDA, with GLOSSARY; and an Explanatory Chapter on the MUSICAL NOTATION, by JOHN THOMAS, Esq. (Pencerdd Gwalia). Price &2. in boards.

An English and Welsh Pronouncing Dictionary: in which the pronunciation is given in Welsh letters. By R. JOHN PRYSE. Price 7s. in boards.

A small edition, by the same Author. Price 4s. in boards.

A National Dictionary of the Welsh Language, with English and Welsh Equivalents. By W. OWER PUGHE, D.C.L., F.A.S. The third edition, edited and enlarged by R. J. PRYSE. It will be completed for about In parts, 1s.—part 16 out October, 1869.

The English-Welsh Handbook, and Vocabulary. By the Rev. T. LL. PHILLIPS, B. A. Price 1s. 6d.

An English and Welsh Testament, with full Marginal References, 12mo. Price 6s. parts. Roan gilt, 7s. 6d.

Observations on Cholera. By R. P. JONES, M. D., Chester. Price 2s. boards.

Emily Trevor: or the Vale of ELWY. By a LADY. Boards, 2e.

A Catechism on Popery and Protestantism. By the Rev. T. PHILLIPS, D.D., 2d. A Welsh Edition also. Price 2d.

Ancient and Modern Denbigh. descriptive history of the Castle, Borough, and Liberties of Denbigh, &c., &c. By JOHN WILLIAMS. Price 5s. in boards.

Also, at 1s., and 6d., each.

An English and Welsh Prayer. Demy 8vo, price 8s. in sheets.

Y Gwyddoniadur Cymreig:

Neu Gylch Gwybodaeth Gyffredinol. Dan olygiad y Parch. J. PARRY, Bala. Gyda channoedd o Ddarluniau. Cynnwysa y Gwaith rhagorol hwn Gorph cyflawn o Wybodaeth Ysgrythyrol a Duwinyddol; Dosbarthiad Beirniadol o Eiriau y Beibl yn ol eu gwahanol ystyron: Dacaryddiaeth Ysgrythyrol; yr Anifeiliaid, Ehediaid, Pysg, Llysiau, &c., a enwir yn y Beibl; Hynaf-iaethau; Arferion a Defodau Dwyreiniol; Hanes Eglwysig; Hanes Enwadau a Chym-deithasau Crefyddol; Golwg gryno a chyn-nwysfawr ar agwedd Cristionogaeth trwy y Byd; Bywgraffyddiaeth Grefyddol; Crefyddol; Cr yddau y Byd-eu hanes, eu daliadau, a phrif wrthddrychau eu haddoliad ; a llawer o wybodaeth gyffredinol yn terfynu ar y materion hvn.

Cyhoeddwyd y chweched gyfrol, Rhagfyr, 1868:—a Rhan 75, pris 1s., yn Medi, 1869. Gellir ei gael mewn rhanau misol 1s. yr un; yn hanner cyfrolau, 6s. 6c. yr un; ac yn gyfrolau mewn byrddau, pris 14s.

LLYFRAU HYMNAU.

Y Salmydd Cymreig. Casgliad o Salmau a Hymnau addaa i addoliad cyhoeddus a neillduedig. Gan y Parch. Roger EDWARDS, Wyddgrug, ac EBER FARDD. Y Salmau o waith EDMUND PRYS, ac ereill; a'r Hymnau o waith yr awduron goreu.

Y TRI ARGRAPHIAD O'R GWAITH.

YB ARGRAPHIAD MAWR—61 mod. wrth 4. —Prisiau, 5s. 6c., 6s. 6c., 7s. 6c., 9s. 6c., Trisiad, 53. 6c., 63. 6c., 73. 6c., 85. 6c., 86. 6c., 86. 6c., mewn gwahanol rwymiadau.
YE ARGRAPHIAD BACH—44 mod. wrth 3.
—Prisiau, 2s. 6c., 3s., 3s. 6c. 5s., 6s., 7s. 6c., ac 8s. 6c., mewn gwahanol rwymiadau.

YR ARGRAPHIAD RHAD-6 mod. wrth 4. —Prisiau, 1s., 2s., 2s. 9c., 3s. 6ch., a 5s., mewn gwahanol rwymiadau.

Salmydd y Plant : yn cynnwysllawer o'r Emynau arferedig. Pris 6c. llian.

Casgliad o Hymnau, wedi eu cyfansoddi gan y diweddar EBBN FARDD. Pris 6c. Llyfr Hymnau y Methodistiaid Calfinaidd-y newydd.

YR ARGRAPHIAD RHAD-61 mod. wrth 4. Mewn byrddau, pris 1s. Mewn roan limp, ag ymylau lliw, 2s. 6c. Etto, ag ymylau aur, 2s. 9c. Etto, gyda chlasp, 3s. 6c. Etto morocco, a chlasp goreuredig, 5s.

YR ABGRAPHIAD MAWB—71 mod. with 41.

Mewn roan, pris 4s. yr un. newn room, pin as. yr un.

Etto, gydag ymylau aur, 5e. 6c.

Etto, gyda chlasp, 7e. 6c.

Etto, gyda chlasp, 7e. 6c.

Etto, morocco elegant, 9e. 6c.

Etto, morocco elegant, 4 chlasp goreur

edig, 10s. 6c.

DUWINYDDIAETH.

rewad. Gydr hingymadott ar y dan deddar Barchedig Henny Rens, Liverpool. Wedi ei gyfieithu gan y Parch. Thomas Rens, Cenedl. Mewn 39 o ranau, pris 1p. 19s. 6c. Cyfrolau I. III. IV. V. pris 8s. yr un, mewn byrddau; cyf. 11. pris 8s. 6c.; cyf. vi. pris 9s. 6c.:—y cyfan mewn byrddau, 2p. 10s. 0c. Pob cyfrol yn hanner rhwym, pris 1s. yn rhagor:—y cyfan yn 2p. 16s. 0c. Pob cyfrol yn rhwym, pris 1s. yn rhagor etto: y cyfan yn 3p. 2s. 0c.

Un o'r Esboniadau goreu y gellir ei gael. Y CYFROLAU AR WAHAN.

D. S...Gwerthir unrhyw gyfrol ar wahan er cyfleusdra i aelodau yr Ysgol Sabbathol, &c., mewn byrddau, neu yn rhwym. Prisiau y cyfrolau mewn llian hardd sydd fel y canivn:-

I.-yn cynnwys Matthew, Marc, a Luc,

gyda'r Holiadau, pris 8s. II.—yn cynnwys Ioan a'r Actau, gyda'r Holiadau, pris 8s. 6c.

III.-yn cynnwys Rhufeiniaid, a 1 Corinthiaid, gyda'r Holiadau, pris 8s.

IV.—yn cynnwys 2 Corinthiaid, Galatiaid, Ephesiaid, Philippiaid, a'r Colossiaid, gyda'r Holiadau, pris 8s.

yn cynnwys 1 ac 2 Thessaloniaid, 1 ac 2 Timotheus, Titus, Philemon, a'r Hebreaid, gyda'r Holiadau, pris 8s.

VI.—yn cynnwys Iago, 1 ac 2 Pedr, 1, 2, a 3 Ioan, Judas, a'r Dadguddiad, pris 9s. 6c. Holiadau Barnes ar yr Efengylwyr, gyda Map o Wlad Canaan. 1s. 6c.

Gwaith Gurnal, yn gyflawn mewn un gyfrol. Mewn rhanau, 10s.; mewn byrddau, 11s. 6c.; hanner rhwym, 12s. 6c.; rhwym, 13s. 6c.

Llyfr digymmhar ar grefydd brofladol, a dylai fod yn meddiant pob Cristion.

Hanes y Merthyron. Argraphiad Hanes y Merthyron. Argraphiad cyfiawn o'r gwaith rhagorol hwn gan y diweddar Barch. THOMAS JONES, o Ddinbych. Y mae y llyfr hwn yn cynnwys Hanes yr Eglwys hefyd hyd y Diwygiad Protestanaidd. Y mae y darluniau canlynol ynddo; sef, Tyndal, Farrar, Cranmer, Calvin, Luther, a Symson. Mewn un gyfrol. Bi bris, yn rhanau, 15s.; mewn byrddau, 16s. 6c.; hanner rhwyn, 17s. 6c.; rhwym, 19s.

Gwnaeth y llyfr hwn fwy i oleuo Cymru am ddrygioni Pabyddiaeth na phob llyfrau cyffredin ereill ynghyd.

Corph o Dduwinyddiaeth. Gan GEORGE CHRISTIAN KNAPP, D.D., athraw duwinyddol yn athrofa Halle. Wedi ei gyf-ieithu i'r Gymraeg. Mewn un gyfrol. Pris mewn rhanu, 9s. 9c.; mewn byrddau, 11s. 9c.; yn hanner rhwym, 12s. 6c.; yn rhwym, 13s. 6c.

Llyfrrhagorol i astudwyr Duwinyddiaeth. Mae y tri gwaith diweddaf yr un blyg a llythyren a'u gilydd.

Yr Eglwys o Ddifrif. Gan y diweddar Barch. J. Angell James, o Birmingham. Gyda Rhagdrachawd, gan y diweddar Barch. Heney Rees. Pris 3e. 6c. mewn byrddau.

Cyfattebiaeth Crefydd Naturiol a Esboniad Barnes ar y Testament Dadguddiedig i Gyfansoddiad a Chwar Natur. Gen Joseph Buyller, Lil. D., esgob Durham. Wedi ei gyfieithu; ac at yr hwn y chwaneg-wyd rhai Nodiadau, gan y Parch. John Huehrs, Liverpool. Pris 8s., mewn bddau.

Banau Duwinyddiaeth. Parch A. A. Honge. Wedl ei olygu gan WILLIAM H. GOOLD, D.D., proffeswr Lien-yddiseth Feiblaidd, a Hanesiaeth Egwysig yn Edinburgh. Ehansu, 7s.; mewn byrddau, 8s.; hanner rhwym, 9s.; rhwym, 10s.

Cynnorthwy i'r Myfyriwr Ysgrythyrol: sef Mynegai cyflawn a Geiriadur cryno o'r Beibl Sanctaidd. Gan y Parch. J. BARR,

Glasgow. Pris 4s. byrddau

Mynegair Ysgrythyrol y diweddar Barch. Peter Williams; at yr hwn y chwan-egwyd llawer, gan y Parch. Owen Jones, Llandudno. Mewn byrddau, 8s. 6c.

Llyfr J. R. Ail argr., gyda llawer o chwanegiadau. Cynnwysa Draethodau, Pregethau, Ymddiddanion, &c. Cyf. I. pris 3s. 6c. I mae yr ail gyfrol yn y wasg.

A ydyw yn bossibl gwneyd y goreu o'r Ddau Fyd? Llyfr i Wyr Ieusingo. Gan y Parch. T. BINNEY. Pris 1s. 6c. mewn papyr; 2s. mewn byrddau.

Llawlyfr yr Ysgol Sabbathol, y Dosbarth Beiblaidd, a'r Teulu. Pris 1s. 9c. mewn papyr; 2s. 3c. mewn byrddau.

Cyffes Ffydd y Trefnyddion Calvinaidd. Pris 4c.

Y Diwygiad Crefyddol diweddar yn America a Phrydain Fawr. Gan y diweddar Barch. John Angell James. Pris 4c. Taith y Pererin. Gan J. BUNYAN.

Pris 1s. mewn papyr; 1s. 6c. byrddau. Catecism ar Egwyddorion Pabyddiaeth a Phrotestaniaeth. 'Gan y Parch. T. PHILLIPS, D.D., Pris 2g.

TRAETHODAU CREFYDDOL

"Hwyliwch yma ataf fi" ... 1s. Sc. y cant.
Y Cyfarfod Gweddi hynod ... 1s. Sc.
Pa fodd i wneuthur daioni ... 1s. Sc.
Y Barnwr a'r Negroes dlawd 1s. Sc.
Pch neth sydd band ... 1s. 6c. y cant. Pob peth sydd barod Mari Jones, a'r Beibl Cymraeg 1s. 6c. Os gyda'r post, &c. y cant yn rhagor.

Gweithiau y Parch. W. Rees.

Traethawd ar Grefydd Naturiol a Dadguddiedig: yn cynnwys profion o ddwyfoldeb y Beibl, a'r grefydd Gristionogolhanes gau grefyddau y byd, &c. 5s. byrddau.

Aelwyd F' Fewyrth Robert; nen Hanes "Caban F Rwythr Tomos." Gydu llawer o ddarluniau. 8s. 6c. byrddau.

Caniadau Hiracthog: yn cynnwys ei holl Gyfansoddiadau Barddonol ond yr "Emmanuel" Pris 4s. byrddau.

Emmanuel, neu Ganolbwngc Gweithredoedd a Llywodraeth Duw. Cyf. I. pris 4s. cyf. 11., pris 5s. byrddau.

GEIRIADURON. &c.

Geiriadur Saesneg a Chymraeg: wedi ei gyfaddasu at sefyllfa bresennol Celfyddyd a Llenyddiaeth. Gan y Parch. D. Shiyan Eyans. Mewn rhansu, pris 1p. 10s. 6c. Yn ddwy gyfrol, bddau, pris 1p. 18. 6c.; hanner rhwym, 1p. 17s. 0c.; llawn rhwym, 1p. 19s. 0c.

Geiriadur Saesneg a Chymraeg; gyda Thraethawd ar yr Iaith Gymraeg a'i Barddoniaeth. Gan y Parch J. WALTHES. Y trydydd argraphiad, 2 gyf. pris 20s. bddau.

Geiriadur Saesneg a Chymraeg, gyda seiniau y geiriau Saesoneg yn llythyrenau y Wyddor Gymraeg, fel y gallo y Cymro ddysgu eu seinio yn gywir heb gymmhorth athraw. Gan R. I. Prizs. Pris 7s. mewn byrddau.

Geiriadur Saesneg a Chymraeg i'r Miloedd. Gan R. I. PRVS. Pris 4s. byrddau.

Crynoad o holl Elfenau neu Gyntefigion y Gymraeg, gyda'u gwahanol Ystyriaethau yn Nghyfansoddiad yr Iaith. Gan W. Jones (Guorgant). Pris Ss.

Ieithadur, neu Ramadeg Cymraeg. Gan ROBT. DAVIES (Bardd Nantglyn). 24.

Y Llawiadur Cymraeg a Saesoneg. Yn cynnwys llawer o Frawddegau ac Ymddiddanion yn Gymraeg a Saesneg. Gan y Parch. T. Ll. Phillips, B. A. Pris 1s. 6c. llian. Llyfr rhagorol i ddysgu Saesoneg.

Cyfarwyddyd i Gymro ddysgu yr Isith Saesneg. Traethawd Arobryn—Prize Essay. Gan R. I. PRYS. Pris 2s. Sc. mewn papyr; 2s. 9c. mewn byrddau.

Orgraph yr Iaith Gymraeg. Gan R. I. Pers a Thomas Stephens. Pris 6c.

ELFENAU GWYBODAETH.

Elfenau Cerddoriaeth. Gan John MILLS, a JOHN WILLIAMS. Pris 1s. mewn papyr; 1s. 2g. mewn llian.

Elfenau Gallofyddiaeth (Elements of Mechanics). Gyda 30 o Ddarluniau. Pris 8c. papyr; 10c. llian.

Elfenau Amaethyddiaeth a Daeardraith. Gyda 17 o Ddarluniau. Pris 10c. mewn papyr; 1s. mewn llian.

Elfenau Seryddiaeth. Gydag 20 o Ddarluniau. Pris 10c. papyr: 1s. llian.

Elfenau Meddyginiaeth. Gyda 26 o Ddarluniau. Yn llyfr, pris 6c. mewn papyr; pris 8c. mewn llian.

Elfenau Meddyginiaeth. Arddalen. i'w gosod ar bared, pris 6ch.

Hanes Cenedly Cymry. Pris 1s. 4c. mewn papyr; 1s. 6c. mewn llian.

Awstralia a'r Cloddfeydd Aur, gyda Darlun o'r Wlad a'r Cloddfeydd, &c. Pris 1s. 4c. papyr; 1s. 6c. byrddau.

AMRYWIAETH.

Traethawd ar Ddaearyddiaeth. Gan THOMAS JONES, Amlwch. Pris 7s. 6c. mown Calvinaidd. Pris Ss. 6c. y cant.

rhanau; 8s. 6s. byrddau. Cynnwysa y dar-luniau canlynol; — Bwrop, Prydain Fawr. Asia, Canasa, Affrica, America Ogleddol, America Ddehenol, a'r Byd.

Stenographia, neu Law Fer. Y mae ynddo 16eg o *Blates*, a phob hyfforddiadau ereill i Gymro ei dysgu. Pris 8c. 6c.

Y Cyfrifydd Parod at Yd. J. Evans. 1s. papyr; 1s. 6c. byrddau.

Dyddiau y Dreth. Hanes y Dreth Eglwys yn Ninbych. Gan y Parch. D. Price.

Armagedon. — Y Frwydr Fawr rhwng Cenhedloedd y Ddaear, yn ol Pro-phwydoliaethau Ezedel, Daniel, a'r Dad-guddiad. Pris 6c.

Attodiad i'r Frwydr Fawr. 3c.

Y Rhyfel yn Twrci. Pris 4c.

Cerdd Allwyn; er coffadwriaeth am y Parchedigion RYAN JONES (Isuan Guyn-edd), Morgan Howells, D. R. STEPHEN (Guyddoncyson), ac Ioan Tegid. Gan I. Glan Aled. Pris 6c.

Traethawd ar Anonestrwydd. 3c.

Darluniau o'r Parch. John Jones, Llanllyfni; y Parch. William Morris, Gil-gersn; a'r Parch. William Roberts, Amlwch. Pris 1s. a 2s. yr un.

Ceinion Awen y Cymry. Gwenffred. Byrddau, pris 2s. 6c.

Y Mesurydd Tir a Choed; ynghyd & Gwaith Maen, Byrddwaith, Gwydr, &c. Pris 2s. papyr: rhwym, 8s.

Clefydau Anifeiliaid, a'u Triniaeth. Cymmerwyd defnyddiau y llyfr rhagorol hwn o weithiau Small, Youath, Whith Spoomer, Percival, ac creill. Gan P. B. Taylor. Pris Se. byrddau.

Cyfansoddiadau Gwobrwyol Eisteddfod Dinbych. Pris 2s. 6c.

Y Testament Newydd; gyda Nodau Cyfeiriol o bob adnod, &c. Cymraeg a Saes-neg. Rhanau, 6e.; rhwym, 7e. 6e.

Llyfr Gweddi Cyffredin, Cymraeg a Saesneg. Heb ei rwymo, pris 8e.

Yr Alarwm, Gan W. Evans, 1c.

Greal y Corau, 26 rhifyn, 2g. yr un, yn cynnwys Cân yn mhob rhifyn.

Eglwys Groeg : ei hanes, ei chredo, a'i Defodau. Mahometiaeth : ei hanes, a'i hagwedd bresennol. Pris 2g.

Llyfrau i gadw Cyfrifon Eisteddl oedd Capell. Pris Se. a 5e. yr un.

Llyfrau i gadw Cyfrifon Eglwysig. Pris Se. 2 5e.

Toeynau Aelodaeth y Methodistiaid

COFIANTAU, &c.

Adgofion am y Parch. John Elias. Pris 1s. mewn papyr; 1s. 6c. llian.

Cofiant y Parch. Moses Parry, Dinbych. Pris 1s. papyr, a 1s. 6c. byrddau.

Cofiant Ann Griffiths. mewn papyr; 1s. 6c. byrddau.

Cofiant Miss A. Elias, Tre'rgôf.

Y GYFRES GYMRAEG.

Pechodau Rhyfygus. Pris 6c. Y Puritaniaid. Pris 6c.

YR YSGOLION SABBOTHOL. Y Wyddor Gymreig. 6c. y dwsin.

Egwyddorig yr Ysgol Sabbathol. Rhan I. a II., pris 1s. 6c. y dwsin bob un.

Deuddeg o Bapyrleni: yn mesur 17½ modfedd wrth 11 bob un. Yn cynnwys y Wyddor, Geiriau o un a dau sill, &c., &c. I ddysgu Plant yn ol trefn yr Ysgolion Brytanaidd. Pris 1s. 6c.

Rheolau vr Ysgol Sabbathol. 2g. Llyfrau i Ysgrifenyddion. 3s.

Llyfrau Cyfrifon Athrawon. 2g. Taflenau i'w Cyfrifon, 3s. y cant;

os gyda'r post, 3s. 4c. y cant.

Ysgolion. 50 mewn llyfr, pris 2s. Telyn yr Ysgol Sabbathol: sef, Casgliad o Dônau, Anthemau, a Darnau. 28 o ranau, pris 1c. y rhan.

Cardiau Cymdeithas Blodau yr Oes. 6s. y cant; os gyda'r post, 6s. 7c. y cant.

CYFRES O LYFRAU I BLANT.

Hunan-ymholiad. Pris 1c.

Bfa Bach. Gan I. G. Alen. Pris 1c.
F'Ewythr Tomos. Gan E. FARDD. 1c.
Y mae Duw yn bod. Pris 1c.
Y sbryd yw Duw. Pris 1c.
Yr Arglwydd a ddarpara. Pris 1c.
Hanes y Sweep Bach. Pris 1c.
Jane Jones, Nantglyn. Pris 2g.
Catecism ar Hanes Joseph. Pris dimai. Dilynir y rhai hyn gan ereill.

Cyhoeddwyd yn ddiweddar.

The Myfyrian Archaiology of Wales: The Mytyrian Archaiology of Wales: sef Casgliado Gofion Hanesyddol allan o hen Lawysgrifau. Ail argraphiad cyflown ydyw o'r gwaith mwr cenedlaethol, gan Owen Jones (Dowin Mywyr), Edward Williams (Iol Morganog), a William Owen (Idrison—y Dr. W. O. Pughe), gyda chwanegiadau gan Mr. Aneuers Owen a Mr. John Thomas (Pencerdd Gualia). Cyhoeddwyd yr argraffad cyntaf mewn tair cyfrol wythplyg 59ain o flynyddoedd yn ol, am dri gins; ao yn ddiweddar costient o ddag i byntheg gini. Mewn byrddau, pris P.3 gini. Mewn byrddau., pris P.S.

Hyfforddwr yr Ymfudwr i'r Unol Daleithiau. Gan yr Anrhyd. Owen Brom-Ley, Aelod Seneddol o Dalaeth Iowa; a J. W. JONES, Golygydd y Drych. Pris 1s.

Unoliaeth y Beibl, neu brawf o'i Darddiad Dwyfol. Gan y Parch. J. HUGHES, Liverpool. Pris 3s. 6c. mewn byrddau.

Oriau gyda Paul (Horæ Paulinæ): neu Ddangosiad o Wirionedd yr Ysgrythyrau Hanesyddol am yr Apostol Paul. Gan y Parch. W. Palex, D.D. Gyda Rhagdraeth-awd, gan y Parch. Hugh Jones, Amlwch. Pris 1s. 6c. mewn amlen; 2s. mewn byrddau.

Etholedigaeth, Gwaith, ac Etifedd-Gan y Parch. E. HUGHES, iaeth y Saint. Penmain. 4c.

Pregeth ar Wirionedd a Grym Duwioldeb. Gan y Parch. R. CUDWORTH. 4c.

Pregethau y Parch. John Jones, Tal-y-sarn. Gyda Darlun o hono. Dan ol-ygiad y Parch. Griffith Parey, Llanwst. Pris 6e. 6e. mewn rhanau; ac 8s. byrddau.

Traethawd ar Ddetholiad, Magwrseth, a Rheolaeth, y Da Byw mwyaf priodol i Gymru. Gan John Owen, Ty'n llwyn, Bangor. Cyffwynedig i Eisteddfod Caer-lleon, 1866; ynghyd â Nodiadau ar y Testyn, gan y Canghellwr Williams, Llanfair-yn-Nghornwy, Môn. Pris 1s. mewn llian.

Person Crist, ac Athrawiaethau y gyda'r post, 3s. 4c. y cant.

Papurau i'w hanfon i'r Dosbarth

Chamberlain, M. A., periglor St. Ioan, Bolton.

Pris 4s. mewn byrddau.

Yn y Wasg.

Y Gwyddoniadur Cymreig. Gan y Parch. J. Parry, Bala. Mewn rhanau 1s. Gwel tudal. 1.

Beibl y Teulu. Cynnwysa y testyn, Cyfeiriadau cyflawn ar ymyl y ddalen, ynghyd â Nodiadau Beirniado, Eglurhaol, a Daiaryddol, a Sylwadau Ymarferol, a phedwar cant o Ddarluniau, a rhai Mapiau. Gan amryw o weinidogion Cymru. Mewn tua 50 o ranau, 1s. yr un. Rhif 12 allan.

Testament yr Ysgol Sabbathol: yn cynnwys y Cyfeiriadau cyflawnaf; Nodiadau Beirniadol, Eglurhaol, a Daearyddol, Sylwadau ar Eiriau ac Arferion, &c., &c., Sylwadau ar Eiriau ac Arferion, &c., &c., ynghyd a Thraethawd yn egluro Amcan, Materion, ac Ieithwedd, &c., pob llyfr. Mae ei faintioli yn gymmhwys i'r llogell. Gan amryw o Weinidogion y Methodistiaid Calvinaidd. Mewn tua 18 o ranau, 1s. yr un. Cyf. 1., 9s. byrddau: 10s. hanner rhwym; gydag ymylau goreuredig, 14s. Cyhoeddwyd Bhan 13 yn Medi, 1869.

Geiriadur Cenhedlaethol Cymraeg a Saeneg. Gan WILLIAM OWER PURGE, D.C.L., F.A.S. Y trydydd argraphiad, wedi ei olygu a'i helaethu gan R. I. PETS. Mawn tuag 20ain o ranau, 1s. yr un. Cyhoeddwyd Rhan 16, Hydref, 1869.

Llyfr J. R. Cyf. 2., mewn pump o ranau, pris 1s., gyda Darlun o'r Awdwr.

. r *



Madurally actions in the same



